Joint Council for Qualifications

# Addasiadau ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anableddau ac anawsterau dysgu

## Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol

**Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r cymwysterau canlynol:**

Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA,
AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach,
AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol,
Cymwysterau Cyntaf BTEC, Cymwysterau Cenedlaethol BTEC, Dyfarniadau Technegol BTEC a Lefel 2 Technegol BTEC,
Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt, Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt, Cymwysterau Technegol Caergrawnt
Cymwysterau Technegol Lefel 2 a Lefel 3 City & Guilds,
TLM, Sgiliau Hanfodol, FSMQ, Sgiliau Gweithredol, TAG, TGAU,
NCFE Tystysgrif Alwedigaethol Lefel 1/2 Dyfarniadau Technegol, NCFE CACHE Tystysgrif Alwedigaethol Lefel 1/2 Dyfarniadau Technegol
NCFE CACHE Lefel 3 Dyfarniadau Cyffredinol Cymhwysol, Tystysgrifau, Diplomâu a Diplomâu Estynedig Cyffredinol Cymhwysol, NCFE CACHE Lefel 3 Diplomâu Technegol a Diplomâu Technegol Estynedig,
NCFE Lefel 3 Cymwysterau Academaidd Amgen , Tystysgrifau Lefel 3 OCR,
Lefelau T,
Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC),
Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC,
Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC,
Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC (Dyfarniadau Technegol),
CBAC Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu a Diplomâu Estynedig (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen

1 Medi 2025 hyd at 31 Awst 2026

At sylw Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynwyr AAA), aseswyr ac uwch arweinwyr mewn ysgolion a cholegau.

Cynhyrchwyd ar ran:

AQA Realising potential · OCR Oxford Cambridge and RSA · Pearson

©JCQ CIC 2025

City & Guilds

cea
Rewarding Learning

NCFE

wjec
cbac

© JCQ[CIC] 2025

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2025 gan

Y Cyd-gyngor Cymwysterau[CIC]

E-bost: centresupport@jcq.org.uk

Ar gael ar ffurf pdf o:

http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

## Cynnwys

**Newidiadau allweddol ar gyfer 2025-26** **5**

**Cyflwyniad**

**Pwysigrwydd y rheoliadau hyn** **8**

**Manylion cyswllt** **10**

**Newidiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26** **11**

**Terfynau amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol ac archebion ar gyfer papurau wedi'u haddasu gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*** **12**

**Diffiniadau** **15**

**Diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 o anabledd** **17**

## Adran A

**Pennod 1** **Cymwysterau cyffredinol – gwybodaeth a chanllawiau i ganolfannau** **18**
1.1 Cyrff dyfarnu – cymwysterau cyffredinol 18
1.2 Y ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol 18
1.3 Diffiniad o anabledd 18
1.4 Diffiniad o anghenion addysgol arbennig 18
1.5 Pŵer y rheoleiddiwr 19
1.6 Pa gymwysterau y mae adran 96 Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru a Lloegr yn ymdrin â nhw? 19
1.7 Sut gall canolfannau wneud cais am addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr a ddiffinnir fel ymgeiswyr anabl o dan delerau Deddf Cydraddoldeb 2010? 19
1.8 Trefniadau yng Ngogledd Iwerddon 23

**Pennod 2** **Cymwysterau Technegol Galwedigaethol – gwybodaeth a chanllawiau i ganolfannau** **25**
2.1 Pa gymwysterau yr ymdrinnir â nhw? 25
2.2 Cyrff dyfarnu – Cymwysterau Technegol Galwedigaethol 25
2.3 Beth yw dyletswyddau cyrff dyfarnu? 25
2.4 Cymhwyso safonau cymhwysedd 25
2.5 Cymryd cyngor gan y corff dyfarnu am safonau cymhwysedd 25
2.6 Recriwtio dysgwyr didwyll 26
2.7 Canllawiau ar addasiadau rhesymol 26
2.8 Addasiadau rhesymol o fewn Cymwysterau Technegol Galwedigaethol 26
2.9 Cymhwyso addasiadau rhesymol at asesiadau mewnol 27
2.10 Addasiadau rhesymol ar gyfer asesiadau allanol 28
2.11 Papurau wedi'u haddasu 28

**Pennod 3** **Ymgeiswyr ag anableddau ac anawsterau dysgu, a chymhwyso'r amcanion asesu** **29**
Cymwysterau cyffredinol 29
Amcanion asesu a ffiniau graddau 29

## Adran B Addasiadau ar gyfer ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr sydd ag anawsterau dysgu


**Pennod 4 Rheoli anghenion ymgeiswyr ac egwyddorion ar gyfer canolfannau 31**

4.1 Rheoli anghenion ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr sydd ag anawsterau dysgu 31
4.2 Egwyddorion ar gyfer canolfannau 32

**Pennod 5 Trefniadau mynediad ac addasiadau 36**

5.1 Egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth 38
5.2 25% o amser ychwanegol 40
5.3 Amser ychwanegol o hyd at 50% (rhwng 26% a 50% o amser ychwanegol) 49
5.4 Amser Ychwanegol dros 50% 52
5.5 Darllenydd/Darllenydd cyfrifiadur 55
5.6 Darllen yn uchel a/neu ddefnyddio ysgrifbin darllen arholiad 56
5.7 Ysgrifennydd/technoleg adnabod llais 65
5.8 Prosesydd geiriau 76
5.9 Trawsgrifiad Braille 78
5.10 Anogwr 78
5.11 Addasydd Iaith 79
5.12 Siaradwr byw ar gyfer cydrannau arholiadau wedi'u recordio ymlaen llaw 82
5.13 Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion 83
5.14 Cynorthwyydd Ymarferol 85
5.15 Safle arall ar gyfer cynnal arholiadau 88
5.16 Trefniadau eraill ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anableddau 89
5.17 Eithriadau 91
5.18 Geiriadur cyfieithu dwyieithog a 25% o amser ychwanegol 92
5.19 Mynediad at ffôn symudol at ddibenion meddygol 95
5.20 Goruchwylio o bell gan ddefnyddio technoleg 96
5.21 Amrywiad ar yr amserlen sy'n gofyn am oruchwyliaeth dros nos ar gyfer ymgeisydd ag anabledd 97
5.22 Amrywiad ar yr amserlen ar ddiwrnod yr arholiad i ymgeisydd ag anabledd 98
5.23 Gwrando ar gerddoriaeth/sŵn gwyn oherwydd amhariad sylweddol 99

**Pennod 6 Papurau wedi'u haddasu 100**

6.1 Papurau wedi'u haddasu – trosolwg o'r broses 100
6.2 Papurau Braille 103
6.3 Papurau wedi’u haddasu a’u mwyhau 104
6.4 Addasiadau Rhesymol – papurau wedi’u haddasu a’u mwyhau 104
6.5 Papur lliw/wedi'i helaethu (e.e. Papurau maint A3 heb eu haddasu wedi'u helaethu) 105
6.6 Papurau â’r iaith wedi'i haddasu a thrawsgrifiad o gyfryngau/arholiad gwrando 106
6.7 Papurau cwestiynau electronig nad ydynt yn rhyngweithiol (PDF) 107
6.8 Archebu papurau wedi’u haddasu 108
6.9 Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno archebion am bapurau wedi'u haddasu 108

**Pennod 7 Anawsterau dysgu 110**

7.1 Atebolrwydd 110
7.2 Addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anawsterau dysgu 110

7.3 Penodi aseswyr 111
7.4 Adrodd am benodi aseswyr 113
7.5 Canllawiau ar gyfer asesu anawsterau dysgu ymgeisydd 113
7.6 Llenwi Ffurflen 8 – JCQ/AA/LD, Proffil o Anawsterau Dysgu 116

**Pennod 8 Prosesu ceisiadau ar gyfer trefniadau mynediad ac addasiadau 120**

8.1 Gwybodaeth gyffredinol 120
8.2 Rheoliadau'r CGC a *Threfniadau mynediad ar-lein* 120
8.3 Diagnosis hwyr o anabledd, amlygiad hwyr o amhariad neu anaf/amhariad dros dro 120
8.4 Achosion na chânt eu cymeradwyo 122
8.5 Cymwysterau a threfniadau y mae *Trefniadau mynediad ar-lein* yn berthnasol iddynt 123

8.6 Sut i ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* 124
8.7 Blaengynllunio cyn y gyfres arholiadau 126
8.8 Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM) 126
8.9 Addasiadau eraill 127
8.10 Cymwysterau Technegol a Chymwysterau Project Caergrawnt a gaiff eu hasesu'n fewnol 127

**Atodiadau 128**

**Atodiad 1 Cymorth cof i ddarllenydd 128**

**Atodiad 2 Cymorth cof i ysgrifennydd 129**

**Atodiad 3 Cymorth cof i Addasydd Iaith 130**

**Atodiad 4 Cymorth cof i Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion 131**

# Newidiadau allweddol ar gyfer 2025-26

**Rhaid** i'r CAAA sicrhau ei fod yn gwirio'r ddogfen hon neu'r rhan berthnasol o ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* cyn cysylltu â'r CGC neu'r corff dyfarnu i holi am unrhyw drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol. Bydd y dogfennau hyn yn ateb llawer o ymholiadau.

| Rhif y dudalen | Pennod | Paragraff | Crynodeb o'r newid |
|---|---|---|---|
| 1, 36 | Clawr blaen a Phennod 5 | | Mae'r ddogfen hon bellach yn cwmpasu cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt, Sgiliau Hanfodol a chymwysterau Technegol Galwedigaethol NCFE, fel y'u rhestrwyd. |
| 8 | Pwysigrwydd y rheoliadau hyn | | Dylai Cydlynwyr AAA ystyried ac, yn eu tro, weithredu trefniadau mynediad priodol a fydd yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer y gweithle. Efallai nad 25% o amser ychwanegol yw'r trefniant mwyaf priodol bob amser. |
| 124 | Terfynau amser a Phennod 8 | 8.6 | Nid yw ffurflen caniatâd data personol ymgeisydd a chadarnhad diogelu data gan y swyddog arholiadau neu ffurflen CAAA wedi'u llofnodi yn ofynnol mwyach. |
| 124 | Terfynau amser a Phennod 8 | 8.6 | Rhaid hysbysu ymgeiswyr y defnyddir *Trefniadau mynediad ar-lein* i brosesu cais am drefniadau asesu, gan gydymffurfio â Deddf GDPR a Diogelu Data y DU 2018. |
| 34 | 4 | 4.2.11 | Mae methu â chydymffurfio â'r rheoliadau bellach yn cynnwys peidio â darparu gwybodaeth lawn a manwl wrth gyfeirio cais ar-lein at gorff dyfarnu. |
| 8 | 5 | 5.1 | Dylai CAAA nodi bod egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn aml yn fwy effeithiol a phriodol na 25% o amser ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr sy'n profi gorbryder neu sydd ag anawsterau canolbwyntio. Gallant fynd i'r afael yn well ag anghenion ymgeiswyr niwroddargyfeiriol fel y rhai sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) yn ogystal â'r rhai sydd â chyflwr meddygol ac anghenion iechyd meddwl. |
| 40, 116 | 5 a 7 | 5.2<br>7.6.1 | **Rhaid** i Ran 1 Ffurflen 8 gynnwys adborth athrawon a thystiolaeth o ffordd arferol o weithio. **Rhaid** cofnodi anawsterau presennol yr ymgeisydd yn yr ystafell ddosbarth, profion mewnol wedi'u hamseru a/neu arholiadau ffug a'u ffordd arferol o weithio yn Rhan 1 Ffurflen 8 **cyn** yr asesiad. |
| 40, 116 | 5 a 7 | 5.2<br>7.6.1 | Nid yw cwblhau 'sgerbwd' o Ran 1 Ffurflen 8 cyn yr asesiad yn dderbyniol mwyach. |
| 40 | 5 | 5.2 | Ac eithrio ail-sefyll TGAU, ar gyfer ceisiadau am 25% o amser ychwanegol sydd wedi'u prosesu o 1 Medi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2025 ymlaen **yn ogystal** â'r ffurflen wedi'i chwblhau, **rhaid** bod:<br><br>• sampl o bapurau profion ysgol mewnol/ffug arholiadau mewn pynciau perthnasol yn dangos enghreifftiau o ddefnyddio'r 25% o amser ychwanegol;<br>• sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol yn nodi pam mae angen amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut mae ef/hi'n defnyddio'r 25% o amser ychwanegol hwnnw. |
| 40, 116 | 5 a 7 | 5.2<br>7.6.1 | Ni ellir cofnodi sylwadau gan rieni o fewn Rhan 1 Ffurflen 8 neu Ran 1 Ffurflen 9. |
| 40 | 5 | 5.2 | Lle mae amhariad heblaw anhawster dysgu ar ymgeisydd, **rhaid** i'r CAAA fod wedi treialu a disbyddu'r dewis o egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn ystod profion mewnol wedi'u hamseru a/neu ffug arholiadau cyn gwneud cais am 25% o amser ychwanegol. |
| 40, 49, 52 | 5 | 5.2 a 5.3 a 5.4 | Darparwyd enghraifft o ymgeisydd ag atal dweud sydd angen 100% o amser ychwanegol ar gyfer asesiad Siarad ITM. |
| 55 | 5 | 5.5 | Lle mae angen i ymgeiswyr ddarllen geiriau neu ymadroddion achlysurol yn unig, gallant ddefnyddio ysgrifbin darllen arholiad. |
| 83 | 5 | 5.13 | Mae Cyfathrebwr Proffesiynol wedi'i ailenwi'n Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion. |
| 85 | 5 | 5.14 | Cyn prosesu cais ar-lein am gynorthwyydd ymarferol, rhaid ymgynghori ag athrawon pynciau i sicrhau na fyddai'r tasgau arfaethedig y byddai'r cynorthwyydd ymarferol yn eu cyflawni mewn arholiad neu asesiad yn annilysu'r amcanion asesu cyhoeddedig. |
| 89 | 5 | 5.16 | Mae taflen wag o bapur ar gyfer dwdlan pan fo ymgeisydd yn cael anawsterau canolbwyntio parhaus a sylweddol bellach yn drefniant wedi'i ddirprwyo i'r ganolfan. |
| 91, 123 | 5 ac 8 | 5.17<br>8.5 | Dylid prosesu cais ar-lein am eithriad bellach drwy ddewis 'Eithriad' ac nid 'Arall'. |
| 92 | 5 | 5.18 | Lle bo cais ar-lein ymgeisydd am ddefnyddio geiriadur dwyieithog gyda 25% o amser ychwanegol wedi'i gymeradwyo, ac os yw'r cyfnod o dair blynedd ers i'r ymgeisydd ddod i'r Deyrnas Unedig yn digwydd o fewn cyfres arholiadau, caniateir i'r ymgeisydd gwblhau'r gyfres honno yn llawn gan ddefnyddio geiriadur dwyieithog gyda 25% o amser ychwanegol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 97 | 5 | 5.21 | **Ni ddylid** prosesu cais ar-lein nes y bydd wedi'i bennu pa arholiadau'r ymgeisydd fydd yn destun amrywiad ar yr amserlen. |
| 98 | 5 | 5.22 | **Ni ddylid** prosesu cais ar-lein nes y bydd wedi'i bennu pa arholiadau'r ymgeisydd fydd yn destun amrywiad ar yr amserlen.<br><br>Rhaid i fanylion llawn holl arholiadau'r ymgeisydd a fydd yn destun amrywiad ar yr amserlen gael eu cofnodi. Rhaid rhestru dyddiad a sesiwn pob arholiad. |
| 106 | 6 | 6.5.3 | Rhaid i Gydlynwyr AAA sicrhau bod papur cwestiynau ar bapur lliw yn briodol i anghenion yr ymgeisydd. Dylid archwilio ffyrdd amgen o weithio fel defnyddio troshaen lliw, yr ymgeisydd yn gwisgo sbectol lliw. |

**Cyflwyniad**

# Pwysigrwydd y rheoliadau hyn

Mae'r rheoliadau hyn yn adlewyrchu dull canolfan gyfan mewn perthynas â threfniadau mynediad ac addasiadau rhesymol. Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan, aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth, y CAAA/aseswr (aseswyr)† a lle y bo'n berthnasol, y Llywodraethwr AAA, yw ymgyfarwyddo â **holl** gynnwys y ddogfen hon.

Mae'r term 'CAAA' a ddefnyddir drwy gydol y ddogfen hon yn cyfeirio at y person a benodwyd gan bennaeth y ganolfan i gydlynu'r broses trefniadau mynediad yn y ganolfan. Byddai hyn hefyd yn cynnwys Cydlynydd Trefniadau Mynediad (CTA), CAAA Cynorthwyol neu Ddirprwy CAAA.

**Rhaid** i bennaeth y ganolfan sicrhau bod digon o amser gan y CAAA i reoli'r broses drefniadau mynediad yn y ganolfan **ac** i ymgyfarwyddo â dogfen Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol y CGC. **Rhaid** iddynt sicrhau hefyd bod y CAAA ac aseswr penodedig y ganolfan yn ymgymryd â DPP rheolaidd gan fynychu cyrsiau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y rheoliadau hyn bob blwyddyn er enghraifft.

**Rhaid** i'r CAAA, neu aelod cyfatebol o staff o fewn coleg AB, gyda chefnogaeth lawn staff addysgu ac aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth, arwain ar y broses trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol yn eu canolfan.

**Rhaid** i staff addysgu ac aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth gefnogi'r CAAA wrth nodi trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol priodol ac ymarferol, gwneud penderfyniadau yn eu cylch a'u rhoi ar waith.

Mae'n bwysig bod Cydlynwyr AAA yn ystyried ac, lle bo hynny'n briodol, yn gweithredu trefniadau mynediad priodol a fydd yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer y gweithle. Efallai nad 25% o amser ychwanegol yw'r trefniant mwyaf priodol bob amser. Yn lle hynny, dylai Cydlynwyr AAA ystyried trefniadau amgen, megis technoleg gynorthwyol, gwrando ar gerddoriaeth/sŵn gwyn, egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth neu amserydd.

**Rhaid** i ganolfan benderfynu ar drefniadau mynediad priodol i'w hymgeiswyr. Er y gall swyddogion proffesiynol o gyrff eraill gynnig cyngor, **nid eu lle nhw** yw gwneud y penderfyniad ar ran y ganolfan. Ni fydd ganddynt wybodaeth weithiol o anghenion unigolyn a sut mae eu hanawsterau'n effeithio arnynt yn yr ystafell ddosbarth a/neu mewn asesiadau wedi'u hamseru. Cyfrifoldeb y CAAA yw gwneud penderfyniadau priodol ar sail gwybodaeth sy'n deillio o reoliadau'r CGC.

**Rhaid** i'r CAAA weithio ar y cyd â staff addysgu, staff cefnogi (fel cynorthwywyr cefnogaeth dysgu a chynorthwywyr addysgu) a phersonél y swyddfa arholiadau er mwyn sicrhau bod trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol cymeradwy ar waith ar gyfer profion mewnol yn yr ysgol/coleg, ffug arholiadau ac arholiadau.

Lle y bo'n briodol, bydd angen i'r CAAA weithio gydag athrawon ymgynghorol arbenigol, seicolegwyr addysgol a gweithwyr meddygol proffesiynol hefyd.

Rhaid i'r CAAA gydweithio ag aseswr penodedig y ganolfan i sicrhau eu bod yn gweithredu'n gyson. Bydd hyn yn caniatáu i'r CAA drafod achosion ymgeiswyr unigol gyda'r aseswyr yn ogystal cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

**Rhaid** i'r CAAA weithio gyda staff addysgu i nodi'r ffurf gyhoeddedig fwyaf priodol o bapurau wedi'u haddasu (gweler Pennod 6) a fydd yn galluogi'r ymgeiswyr i gael mynediad at eu harholiadau.

Mae'n **rhaid** i'r rheoliadau hyn gael eu defnyddio wrth brosesu ceisiadau gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

**Dim ond** lle mae'r ganolfan yn cefnogi hynny y dylid gwneud ceisiadau ar-lein **a** dylai'r ymgeisydd hefyd fodloni'r meini prawf cyhoeddedig i dderbyn y trefniant (trefniadau) mynediad a chael y dystiolaeth ategol lawn yn ei lle.

**Mae'n bosibl y bydd methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau yn y ddogfen hon yn cael ei ystyried fel camymddwyn a gallai hynny effeithio ar ganlyniad(au) yr ymgeisydd.**

Mae enghreifftiau o fethu â chydymffurfio yn cynnwys y canlynol:

- rhoi trefniadau mynediad/addasiadau ar waith **nas** cymeradwywyd;
- methu ag ystyried rhoi trefniadau mynediad ar waith (a all fod yn gyfystyr â methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol);
- caniatáu trefniadau mynediad/addasiadau o fewn y ganolfan **na** cheir tystiolaeth briodol i'w hategu; neu
- codi ffi am ddarparu addasiadau rhesymol i ymgeiswyr anabl.

Er bod y ddogfen hon yn mynd i'r afael â'r ddyletswydd sydd ar gyrff dyfarnu i wneud addasiadau rhesymol ac osgoi trin ymgeiswyr anabl yn anffafriol, ni all gynnwys pob senario. Bydd pob achos yn dibynnu ar ffeithiau ei hun o ran yr hyn sy'n rhesymol.

†Caiff aseswr ei ddiffinio ym Mhennod 7, paragraff 7.3.3.

# Manylion cyswllt

**Rhaid** i'r CAAA sicrhau ei fod yn gwirio'r ddogfen hon neu'r rhan berthnasol o ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* cyn cysylltu â'r CGC neu'r corff dyfarnu i holi am unrhyw drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol. Bydd y dogfennau hyn yn ateb llawer o ymholiadau.

**CGC†**
E-bost: centresupport@jcq.org.uk
Gwefan: www.jcq.org.uk

**AQA**
Stag Hill House
Guildford
Surrey
GU2 7XJ
**Ffôn: 0800 197 7162**
Gwefan: www.aqa.org.uk

**City & Guilds**
Giltspur House
5-6 Giltspur Street
Llundain
EC1A 9DE
Gwefan: www.cityandguilds.com

**CCEA**
29 Clarendon Road
Belffast
BT1 3BG
**Ffôn: 02890 261 200**
Gwefan: www.ccea.org.uk

**NCFE**
Q6 Quorum Business Park, Benton Lane
Newcastle upon Tyne
NE12 8BT
**Ffôn: 0191 239 8000**
Gwefan: www.ncfe.org.uk

**OCR**
The Triangle Building
Shaftesbury Road
Caergrawnt
CB2 8EA
**Ffôn: 01223 553 998**
Gwefan: www.ocr.org.uk

**Pearson**
Tîm Gofynion Arbennig
Lowton House
Lowton Way
Hellaby Business Park
Rotherham
S66 8SS
**Ffôn: 0344 463 2535**
Gwefan: http://qualifications.pearson.com

**WJEC/CBAC**
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd
CF5 2YX
e-bost: specialrequirements@wjec.co.uk
**Ffôn: 02920 265 000**
Gwefan: www.cbac.co.uk

†**Rhaid** cyflwyno ymholiadau i'r CGC drwy e-bost ac **nid** dros y ffôn. **Rhaid** i bob ymholiad gael ei anfon i centresupport@jcq.org.uk

**Ni** ddylid defnyddio'r cyfeiriad e-bost info@jcq.org.uk ar gyfer ymholiadau am drefniadau mynediad.

# Newidiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26

**Rhaid** i benaethiaid canolfannau, aelodau o uwch dimau arweinyddiaeth, CAAA ac aseswyr ymgyfarwyddo â holl gynnwys y ddogfen hon.

Mae’r newidiadau a wnaed i gynnwys y ddogfen hon ers y fersiwn blaenorol (1 Medi 2024 hyd at 31 Awst 2025) wedi'u huwcholeuo mewn melyn i'w gwneud yn haws eu gweld ac mae'r prif newidiadau wedi'u rhestru ar dudalen 5.

Mae dogfen y CGC, *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*, y cyfeirir ato yn y ddogfen hon, hefyd ar gael mewn fformat rhyngweithiol.

Dylai canolfannau nodi bod unrhyw gyfeiriad at ‘CGC’ neu ‘Cyd-gyngor Cymwysterau’ yn y ddogfen hon yn golygu CGC$^{CIC}$ neu Cyd-gyngor Cymwysterau$^{CIC}$.

## Terfynau amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol ac archebion ar gyfer papurau wedi'u haddasu gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*

Gall trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol fod ar waith ar gyfer y cwrs cyfan. Dylai ysgolion allu prosesu ceisiadau ar ddechrau neu yn ystod blwyddyn gyntaf cwrs TGAU dwy flynedd ar ôl sefydlu darlun o angen yn glir a ffordd arferol o weithio yn ystod blynyddoedd 7 i 9. **Rhaid** defnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* i brosesu ceisiadau ar gyfer y mathau canlynol o gymhwyster:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
- AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- BTEC Lefel 2 Technegol
- Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt
- Sgiliau Hanfodol
- FSMQ
- Sgiliau Gweithredol (manylebau Pearson)
- TAG (UG a Safon Uwch)
- TGAU
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Lefelau T (Manylebau Pearson a CBAC)
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol
- CBAC Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
- CBAC Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu a Diplomâu Estynedig (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen)

**Rhaid** i drefniadau gael eu prosesu a'u cymeradwyo **cyn** arholiad neu asesiad, heb fod yn hwyrach na'r terfyn amser a gyhoeddwyd isod.

**Rhaid** hysbysu ymgeiswyr y defnyddir *Trefniadau mynediad ar-lein* i brosesu cais am drefniadau asesu, gan gydymffurfio â Deddf GDPR/Diogelu Data y DU 2018.

**Nid yw ffurflen caniatâd data personol ymgeisydd a chadarnhad diogelu data gan y swyddog arholiadau neu ffurflen CAAA wedi'u llofnodi yn ofynnol mwyach.**

| Cyfres arholiadau | Trefniant mynediad | Dyddiad cau terfynol |
|---|---|---|
| **Tachwedd 2025** | Papurau wedi'u haddasu | 20 Medi 2025 |
| **Tachwedd 2025** | Pob trefniant mynediad arall | 1 Tachwedd 2025 |
| **Ionawr 2026** | Papurau wedi'u haddasu | 4 Hydref 2025 |
| **Ionawr 2026** | Pob trefniant mynediad arall | 21 Hydref 2025 |
| **Mehefin 2026** | Papurau wedi'u haddasu | 31 Ionawr 2026 |
| **Mehefin 2026** | Pob trefniant mynediad arall | 21 Mawrth 2026 |

Cyfres arholiadau TGAU mis Ionawr 2026 – **nid** oes manylebau TGAU ar gael i ganolfannau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n penderfynu ailsefyll unedau TGAU ym mis Mehefin 2026, ar ôl cyhoeddi canlyniadau arholiadau TGAU mis Ionawr 2026, **rhaid** derbyn archebion am bapurau wedi'u haddasu erbyn 21 Mawrth 2026 fan bellaf.

(Gweler gwefan CCEA am wybodaeth am gymwysterau TGAU unedol yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2026.)

**Noder** na fydd ymgeiswyr o bosibl yn gallu cael papurau wedi'u haddasu ar gyfer eu harholiadau oni chaiff archebion eu derbyn erbyn y terfyn amser cyhoeddedig.

**Ceisiadau hwyr ac achosion lle y daw cais cymeradwy i ben cyn neu yn ystod cyfres arholiadau Mehefin 2026**

**Rhaid** prosesu ceisiadau a'u cymeradwyo **cyn** arholiad neu asesiad, heb fod yn hwyrach na'r terfyn amser a gyhoeddwyd uchod.

Caniateir ceisiadau hwyr oherwydd anaf neu amhariad dros dro, diagnosis o anabledd neu amlygiad o amhariad sy'n ymwneud ag anabledd presennol sy'n codi ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd. **Rhaid** i ganolfannau brosesu ceisiadau fel y nodir ym Mhennod 8, adran 8.3, gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* lle y bo angen.

Mae'n bosibl y bydd unrhyw gais a gaiff ei brosesu ar ôl y dyddiad a gyhoeddwyd yn destun craffu. **Rhaid** i Gydlynwyr AAA sicrhau bod y gwaith papur priodol ar ffeil ac ar gael i'w harolygu.

Lle bydd cais cymeradwy sy'n bodoli eisoes yn dod i ben cyn neu yn ystod cyfres arholiadau mis Mehefin 2026, a bod yr ymgeisydd yn astudio ar yr un lefel cymhwyster, caniateir prosesu cais newydd ar-lein, ar ôl iddo ddod i ben ac ar ôl 21 Mawrth 2026 gan ddefnyddio'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes.

Dylai CAAA gyfeirio at ddogfen y CGC *Canllawiau ynghylch trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol pan fydd ymgeisydd yn newid canolfan* am fwy o wybodaeth am y dystiolaeth sydd ei hangen pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll yr un cymhwyster neu'n symud ymlaen o gymwysterau Lefel 2 i Lefel 3 p'un a yw hynny yn yr un ganolfan neu mewn canolfan newydd.

Mae'r ddogfen i'w gweld yn:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

# Diffiniadau

## Trefniadau Mynediad

Cytunir ar drefniadau mynediad **cyn** asesiad. Maent yn galluogi ymgeiswyr sydd ag **anghenion penodol**, megis anghenion addysgol arbennig, anableddau neu anafiadau dros dro i gael mynediad at yr asesiad ac i ddangos eu gwybodaeth a beth maent yn gallu ei wneud heb newid gofynion yr asesiad. Y bwriad y tu ôl i drefniant mynediad yw bodloni anghenion ymgeiswyr unigol heb effeithio ar uniondeb yr asesiad. Trefniadau mynediad yw'r brif ffordd i gyrff dyfarnu gydymffurfio â'r ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010* i wneud 'addasiadau rhesymol'.

## Addasiadau rhesymol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010* yn mynnu bod **corff dyfarnu** yn gwneud addasiadau rhesymol lle byddai ymgeisydd, sydd ag anabledd o fewn yr ystyr a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â rhywun nad oes ganddo anabledd. Mae'n ofynnol i'r corff dyfarnu gymryd camau rhesymol i oresgyn yr anfantais honno. Enghraifft fyddai papur Braille, a fyddai'n addasiad rhesymol i berson sydd ag amhariad sylweddol ar y golwg a allai ddarllen Braille. Gall addasiad rhesymol i berson fod yn unigryw i'r unigolyn hwnnw ac efallai na fyddai wedi'i gynnwys yn y rhestr o drefniadau mynediad sydd ar gael.

Bydd p'un ai a ystyrir addasiad yn rhesymol yn dibynnu ar sawl ffactor a fydd yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- anghenion yr ymgeisydd anabl;
- effeithiolrwydd yr addasiad;
- cost yr addasiad; **a**
- effaith debygol yr addasiad ar yr ymgeisydd ac ymgeiswyr eraill.

Ni chaiff addasiad ei gymeradwyo os yw'n golygu bod:

- costau afresymol i'r corff dyfarnu;
- cyfnodau amser afresymol; **neu**
- ei fod yn effeithio ar ddiogelwch a manwl gywirdeb yr asesu.

Mae hyn oherwydd nad yw'r addasiad yn un 'rhesymol'.

**Rhaid** i'r ganolfan sicrhau y gellir cyflwyno addasiadau wedi'u cymeradwyo i ymgeiswyr.

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd yn rhesymol gwneud addasiadau i amcanion asesu o fewn cymhwyster. Byddai gwneud hyn fwy na thebyg yn tanseilio effeithiolrwydd y cymhwyster o ran darparu syniad dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yr ymgeisydd . Nid oes unrhyw ddyletswydd ar y cyrff dyfarnu i wneud addasiadau na ddylid eu gwneud yn ôl y rheoleiddwyr cymwysterau. Fel y nodir ym Mhennod 2, nid oes dyletswydd i wneud newidiadau i safonau cymhwysedd o fewn cymwysterau galwedigaethol.

(Gweler Pennod 3 i gael gwybodaeth am amcanion asesu a Phennod 1, adrannau 1.6 ac 1.8 am restr o gymwysterau cyffredinol y mae deddfwriaeth yn ymwneud â chydraddoldeb yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn berthnasol iddynt.)

Cyfrifoldeb pennaf y corff dyfarnu yw gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeisydd y diffinnir ei fod yn anabl yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010.

*Mae'r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ym Mhennod 1 yn cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae deddfwriaeth wahanol ar waith yng Ngogledd Iwerddon (gweler Pennod 1, adran 1.8). Bydd y diffiniadau a'r gweithdrefnau yn y ddogfen hon yn ymwneud â threfniadau mynediad ac addasiadau rhesymol hefyd yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

## Tystiolaeth o angen

Bydd tystiolaeth o angen yn amrywio gan ddibynnu ar yr anabledd a'r trefniant mynediad y gwneir cais amdano.
Bydd *Trefniadau mynediad ar-lein* yn rhoi awgrymiadau ynghylch y dystiolaeth sy'n ofynnol. Fodd bynnag, gweler yr adran(nau) perthnasol o Bennod 5 am fanylion llawn ynglŷn â beth yw'r dystiolaeth graidd/tystiolaeth

o angen ar gyfer pob trefniant mynediad. Bydd methu cynhyrchu'r dystiolaeth briodol o angen yn golygu y bydd y cais yn cael ei wrthod. Fel arfer, bydd angen tystiolaeth bellach o angen ar gyfer amhariad sylweddol. Mae'r dystiolaeth o angen sydd ei hangen ar gyfer y trefniadau mynediad canlynol, lle mae gan ymgeisydd amhariad sylweddol, i'w gweld ym Mhennod 5:

- adran 5.2 – 25% o amser ychwanegol
- adran 5.3 – amser ychwanegol o hyd at 50% (rhwng 26% a 50% o amser ychwanegol)
- adran 5.7 – technoleg ysgrifennydd/adnabod llais.

## Diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 o anabledd

Yn gyffredinol, mae unrhyw amhariad yn gorfod bodloni gofynion statudol a nodir yn adran 6 ac Atodiad 1 Deddf Cydraddoleb 2010 a rheoliadau cysylltiedig.

Mae diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 o anabledd fel rheol yn cael ei ystyried yn gynyddol yn nhermau:

- adnabod amhariad corfforol neu feddyliol;
- ymchwilio i effeithiau andwyol ac asesu pa rai sy'n sylweddol;
- ystyried a yw effeithiau andwyol sylweddol yn rhai tymor hir;
- barnu effaith effeithiau andwyol tymor hir ar weithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Mae canllawiau statudol ar ddiffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 o anabledd wedi'u cynhyrchu gan y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl (o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau) i helpu i ddeall y diffiniad yn well a'i gymhwyso:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/570382/Equality_Act_2010-disability_definition.pdf

Y man cychwyn clir yn y canllawiau statudol yw bod anabledd yn golygu 'cyfyngiadau y tu hwnt i wahaniaethau arferol o ran gallu a allai fodoli ymhlith pobl'.

Mae 'sylweddol' yn golygu 'mwy na rhywbeth mân neu bitw'. Gellir diffinio effeithiau andwyol sylweddol drwy edrych ar yr effeithiau ar y person sydd â'r amhariad, a'i gymharu â pherson nad oes amhariad ganddo, i farnu os yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau yn fwy na mân-wahaniaeth neu wahaniaeth pitw.

Mae 'tymor hir' yn golygu bod y amhariad wedi bodoli am o leiaf 12 mis, neu'n debygol o wneud hynny.

Gellid diffinio 'gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd' drwy gyfeirio at y rhestr gynhwysfawr, drylwyr o ffactorau ar dudalennau 47 i 51 y canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â Deddf Cydraddoldeb 2010. (Caiff astudio a gweithgareddau'n ymwneud ag addysg eu cynnwys yn y diffiniad o weithgareddau 'o ddydd i ddydd'.)

Mae'r canllawiau gan y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl y cyfeiriwyd atynt uchod yn egluro'r ffactorau y gellid ystyried yn rhesymol eu bod yn cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Darperir ffactorau na fyddai disgwyl iddynt yn rhesymol gael effaith andwyol sylweddol hefyd.

Ymhlith y ffactorau y disgwylir yn rhesymol iddynt gael effaith andwyol sylweddol mae:

- anhawster cyson a sylweddol i ddarllen a deall deunydd ysgrifenedig lle dyma iaith gyntaf y person, er enghraifft oherwydd amhariad ar y meddwl, anhawster dysgu neu amhariad synhwyrol neu amlsynhwyraidd;
- pethau'n tynnu sylw'n gyson neu anhawster mawr i ganolbwyntio;
- anhawster i ddeall neu ddilyn cyfarwyddiadau syml ar lafar;
- amhariad corfforol – er enghraifft, anhawster gweithredu cyfrifiadur oherwydd cyfyngiadau corfforol yn defnyddio bysellfwrdd.

Ymhlith y ffactorau y disgwylir yn rhesymol **na** fyddant yn cael effaith andwyol sylweddol mae:

- mân-broblemau gydag ysgrifennu neu sillafu;
- anallu i ddarllen print bach neu brint aneglur heb gymorth chwyddwydr;
- anallu i sgwrsio ar lafar mewn iaith nad yw'n iaith lafar frodorol y siaradwr;
- nerfusrwydd neu orbryder ar lefel isel am arholiadau.

# Adran A

# Pennod 1

# Cymwysterau cyffredinol – gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau

Mae gan y cyrff dyfarnu ddyletswydd i beidio â gwahaniaethu yn erbyn unigolion wrth gyflwyno cymwysterau mewn perthynas â'r holl nodweddion sy'n cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (ac eithrio nodweddion priodas a phartneriaeth sifil a ddiogelir). Byddant yn cymryd camau wrth ddatblygu manylebau, gan adnabod y meini prawf asesu a drafftio papurau cwestiynau i sicrhau bod effaith pob un o'r rhain ar unigolion sydd â gwahanol nodweddion a ddiogelir yn cael ei chadw mor isel â phosibl.

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw'n benodol i'r ddyletswydd sydd ar gyrff dyfarnu i wneud addasiadau rhesymol ac i osgoi triniaeth anffafriol i ymgeiswyr ag anabledd.

## 1.1 Cyrff dyfarnu – cymwysterau cyffredinol

Mae **Adran 96 (1-6)** Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi na ddylai cyrff dyfarnu wahaniaethu, aflonyddu nac erlid wrth asesu ymgeiswyr a chyflwyno cymwysterau cyffredinol ac mae arnynt ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.

## 1.2 Dyletswydd i wneud addasiad rhesymol

Bydd y ddyletswydd i gorff dyfarnu wneud addasiad rhesymol yn berthnasol lle byddai ymgeisydd anabl **dan anfantais sylweddol** o gael trefniadau asesu o gymharu ag ymgeisydd sydd ddim yn anabl. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol bod y corff dyfarnu'n cymryd camau rhesymol i osgoi'r anfantais honno. **Nid yw'n** ofynnol i gyrff dyfarnu wneud addasiadau i'r safon academaidd neu unrhyw safon arall sy'n cael ei gymhwyso wrth gynnal arholiad/asesiad.

Lle mae gan y ganolfan ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol, **ni ddylai** godi unrhyw ffi ychwanegol ar ymgeisydd anabl mewn perthynas â'r addasiad neu'r cymorth.

## 1.3 Diffiniad o anabledd

Mae Adran 6 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel 'amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu rhywun i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'.

## 1.4 Diffiniad o anghenion addysgol arbennig (AAA)

Mae gan ymgeisydd 'anghenion addysgol arbennig' fel y'u diffinnir yn y *Cod Ymarfer AAA: 0 - 25 oed.*

Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Mae diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 o anabledd yn cynnwys amhariadau synhwyrol sylweddol a thymor hir fel y rhai sy'n effeithio ar y golwg neu'r clyw, anawsterau iechyd meddwl a chyflyrau iechyd tymor hir fel asthma, canser, diabetes ac epilepsi. Nid oes gan blant a phobl ifanc sydd â chyflyrau o'r fath AAA o reidrwydd, ond ceir gorgyffwrdd sylweddol rhwng plant a phobl ifanc anabl a'r rheini sydd ag AAA.

## 1.5 Pŵer y rheoleiddiwr

Mae Adran 96 (7-8) yn nodi nad yw'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol mewn grym lle mae'r rheoleiddiwr yn nodi darpariaethau, meini prawf neu arferion lle:

- nad yw'r corff dyfarnu o dan ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol;

- mae'r corff dyfarnu o dan ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, ond na ddylid gwneud addasiadau o'r fath mewn perthynas ag ef.

Dylid nodi bod pwerau'r rheoleiddwyr o dan Adran 96 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn 'negyddol' yn hytrach na 'goddefol'. Hynny yw, mae adran 96 yn caniatáu i'r rheoleiddwyr nodi ble **nad** yw cyrff dyfarnu o dan ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, yn hytrach na dweud yn union pa addasiadau y dylid eu gwneud. Er enghraifft, mae'r rheoleiddwyr wedi nodi **na** ellir defnyddio darllenydd fel addasiad rhesymol os mai gallu darllen yr ymgeisydd sy'n cael ei asesu.

## 1.6 Pa gymwysterau y mae adran 96 Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru a Lloegr yn ymwneud â hwy?

- Dyfarniadau Uwch Estynedig
- Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad
- Sgiliau Hanfodol (Cymru)
- Cymwysterau Mathemateg Annibynnol
- Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol)
- Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
- Cymwysterau project (Projectau Estynedig, Sylfaen ac Uwch)
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, Tystysgrif Graidd.

## 1.7 Sut gall canolfannau wneud cais am addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr a ddiffinnir yn anabl dan delerau Deddf Cydraddoldeb 2010?

### Addasiadau rhesymol

Fel arfer trefniant mynediad ar gyfer yr asesiad dan sylw, yn ôl y rhestr ym Mhenodau 5 a 6 y ddogfen hon, fydd yr addasiad rhesymol sydd ei angen ar ymgeisydd sy’n anabl yn ôl ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Y trefniadau a nodir ym Mhenodau 5 a 6 y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cyffredin a gaiff eu rhoi ar waith. Bydd y trefniadau hyn yn ddigonol i ymgeiswyr a chanddynt **anawsterau sylweddol a pharhaus** (pa un a ydynt yn ganlyniad "anabledd" yn ôl ystyr hynny yn y Ddeddf Cydraddoldeb neu fel arall) i gael mynediad at asesiadau.

## Enghreifftiau o addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl

- Mae angen i ymgeisydd â dyslecsia ddefnyddio prosesydd geiriau, a chael 25% o amser ychwanegol. Mae defnyddio prosesydd geiriau'n addasiad rhesymol gan mai dyma'r ffordd y bydd yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig fel arfer ac mae'n briodol i'w anghenion.

  Aseswyd yr ymgeisydd gan aseswr penodedig y ganolfan gan ddefnyddio profion cyfredol wedi'u safoni'n genedlaethol. Mae'r asesiad yn dangos bod gan yr ymgeisydd amhariad sylweddol a thymor hir gan fod ei gof gweithio a'i gyflymder darllen yn yr ystod is na'r cyfartalog. Mae gan yr ymgeisydd sgorau wedi'u safoni o 79 ac 81. Cyn asesu'r ymgeisydd, cwblhaodd y CAAA Ran 1, Ffurflen 8. Mae'r cais am 25% o amser ychwanegol yn addasiad rhesymol ac mae'r CAAA yn prosesu cais ar-lein gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

- Mae gan ymgeisydd sydd ag ADHD **anhawster parhaus** wrth ganolbwyntio a chof gweithio gwael. Addasiadau rhesymol fyddai egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth a defnyddio anogwr, y gall fod angen iddo/iddi ddangos yn gorfforol ymhle ar dudalen y bu'r ymgeisydd yn gweithio er mwyn iddi ailddechrau ar ei gwaith.

- Mae gan ymgeisydd ASD sydd wedi'i gadarnhau'n ffurfiol mewn llythyr gan baediatregydd ymgynghorol. Mae ganddo **anawsterau sylweddol a pharhaus** gyda'i lawysgrifen sy'n wael ond nid yn annarllenadwy. Nid yw'n gallu cwblhau ffug bapurau Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Daearyddiaeth nac Astudiaethau Crefyddol o fewn yr amser a ganiateir. Mewn pynciau eraill mae'n gorffen ffug bapurau cyn diwedd y prawf. Mae'r CAAA yn prosesu cais ar-lein am 25% o amser ychwanegol oherwydd ei amhariad sy'n cael effaith sylweddol ac andwyol yn y pynciau TGAU hynny ag ysgrifennu estynedig. Heb ddefnyddio'r 25% o amser ychwanegol yn y pynciau hynny, byddai'r ymgeisydd **o dan anfantais sylweddol**.

- Mae angen i ymgeisydd ag amhariad sylweddol ar y golwg gael 50% o amser ychwanegol er mwyn gallu gwneud defnydd effeithiol o'r papurau wedi'u mwyhau a'u haddasu a archebwyd ar ei chyfer. Mewn arholiadau a chanddynt gynllun a diagramau cymhleth mae gofyn iddi hefyd gael defnyddio cynorthwyydd ymarferol a darllenydd i weithio'n ôl ei chyfarwyddyd i ganfod gwybodaeth berthnasol. Mae'r cyrff dyfarnu yn cymeradwyo'r defnydd o gynorthwyydd ymarferol, darllenydd a 50% o amser ychwanegol gan fod gan yr ymgeisydd amhariad sylweddol a thymor hir.

- Mae ymgeisydd sy'n fyddar yn defnyddio BSL fel ei ffordd arferol o weithio yn y ganolfan. Bydd papurau â'r iaith wedi'i haddasu yn cael eu darparu ar gyfer yr ymgeisydd (lle nad yw'r papur wedi'i addasu yn y man cychwyn), siaradwr byw ar gyfer cydrannau a recordiwyd ymlaen llaw a Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion. Mae'r rhain i gyd yn addasiadau rhesymol i'r ymgeisydd. Mae'r CAAA yn archebu papurau â'r iaith wedi'i haddasu, lle bo'n briodol, gan ddefnyddio *Trefniadau Mynediad ar-lein*.

- Caiff darllenydd ei ddarparu ar gyfer ymgeisydd y mae ganddo Anghenion Siarad, Iaith a Chyfathrebu (SLCN) difrifol. Cymeradwyir cais ar-lein ar gyfer darllenydd. Mae gan yr ymgeisydd **amhariad sylweddol a thymor hir** ac mae'r defnydd o ddarllenydd yn adlewyrchu ei ffordd arferol o weithio yn y ganolfan. Oherwydd ei **hanawsterau sylweddol**, mae'r ymgeisydd yn cael nifer o gardiau annog sy'n dweud "ailadrodda'r cyfarwyddiadau eto", "darllena hwnna eto", "darllena fy atebion yn ôl". Byddai defnyddio darllenydd a chardiau annog (wedi'u rhoi ar ddesg yr ymgeisydd ac ar gael i'w harolygu gan Arolygwr Canolfannau CGC) yn addasiadau rhesymol i'r ymgeisydd hwn.

  Mae gan yr ymgeisydd hefyd **anhawster sylweddol a pharhaus** wrth gofio iaith lafar ac mae angen ail-adrodd. mae angen amser ychwanegol o hyd at 25% gan y bydd y broses ddarllen yn llawer arafach. Heb ddefnyddio'r 25% o amser ychwanegol byddai'r ymgeisydd **o dan anfantais sylweddol**. Mae'r CAAA yn penderfynu gwneud cais am 25% o amser ychwanegol ac yn prosesu cais ar-lein.

- Bydd ymgeisydd sydd â lliwddallineb llwyr yn sefyll arholiadau Safon Uwch Daearyddiaeth. Mewn profion ysgol mewnol wedi'u hamseru a ffug arholiadau mae aelod o staff wedi anodi'r papurau prawf gydag enwau'r lliwiau.

  Oherwydd effaith ei liwddallineb nid yw'r CAAA yn teimlo y byddai enwi lliwiau gan y goruchwyliwr yn addasiad priodol. Byddai'r ymgeisydd yn codi ei law yn gyson i ofyn i oruchwyliwr enwi lliwiau iddo yn tynnu sylw ymgeiswyr eraill yn yr ystafell arholiad. Yn ogystal, byddai'r ymgeisydd yn colli amser yn gweithio fel hyn.

  Mae'r CAAA yn cyflwyno cais ar-lein ar gyfer 'Arall' gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Caiff y cais ar-lein ei wrthod yn awtomatig. Mae'r CAAA yn cyfeirio'r cais ar-lein at y corff dyfarnu perthnasol gan ofyn bod goruchwyliwr yn anodi'r papur cwestiynau gydag enwau'r lliwiau cyn dechrau'r arholiad.

  Bydd y corff dyfarnu yn ystyried y cais gan ystyried anghenion yr ymgeisydd a'r gofyniad i gynnal uniondeb a diogelwch yr arholiad.

**Nodi addasiadau ar ddechrau cwrs ar gyfer ymgeisydd anabl gydag anghenion sylweddol a chymhleth iawn**

Mae'n bosibl, pan fo gan ymgeisydd anabl anghenion sylweddol a chymhleth iawn, efallai na fydd yr amrywiaeth o drefniadau mynediad cyhoeddedig yn ymdrin â'r anghenion hyn. Er enghraifft, ymgeisydd sydd ag anaf i'r ymennydd y gall fod angen technoleg sylliad llygaid arno neu ymgeisydd sydd ddim yn gallu defnyddio beiro ac y mae'n rhaid iddo ddefnyddio pensil oherwydd anawsterau prosesu synhwyraidd. Nid yw'r rhestr o drefniadau'n gyflawn.

**Rhaid** i ganolfannau drafod yr achosion hyn gyda'r corff/cyrff dyfarnu perthnasol cyn prosesu cais ar-lein ar gyfer 'Arall'.

Er y dylai unrhyw drefniadau arfaethedig gefnogi ymgeisydd anabl o ran gallu dangos ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r pwnc, rhaid i'r cymhwyster barhau i roi syniad dibynadwy o'i wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddai'n rhesymol gwneud addasiadau i gynnwys pwnc neu'r amcanion asesu o fewn cymhwyster. Byddai gwneud hyn yn tanseilio effeithiolrwydd y cymhwyster o ran darparu syniad dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yr ymgeisydd.

Bydd y corff/cyrff dyfarnu yn gallu cynghori'r ganolfan ynglŷn â'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cais ar-lein ar gyfer 'Arall'. Efallai y bydd angen mwy o dystiolaeth o angen er mwyn sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn cael mantais annheg. Os na all y ganolfan ddarparu tystiolaeth, efallai na fydd yn bosibl i'r corff dyfarnu gymeradwyo'r addasiad(au) y gwneir cais amdanynt.

Mae'r gofyniad am dystiolaeth o angen yn bwysig er mwyn cynnal manwl gywirdeb a safon y system arholiadau ac i sicrhau bod modd i'r rheini sy'n defnyddio tystysgrifau arholiadau barhau i fod yn hyderus yn nyfarniad graddau cymwysterau.

**Newid sylweddol yng nghyflwr ymgeisydd lle efallai na fydd trefniadau a gymeradwywyd yn flaenorol yn ddigonol mwyach**

Rhaid i ganolfannau barhau i adolygu ymgeiswyr sydd ag anghenion sylweddol a chymhleth iawn.

Os yw anabledd yr ymgeisydd bellach yn golygu nad yw addasiadau a gymeradwywyd yn flaenorol yn ddigonol i fodloni ei anghenion mwyach, h.y. anawsterau y tu hwynt i'r hyn y byddai'r addasiadau a gymeradwywyd yn flaenorol wedi'u lleddfu, rhaid i'r ganolfan gysylltu â'r corff/cyrff dyfarnu perthnasol i drafod addasiadau pellach.

Bydd y corff/cyrff dyfarnu bob amser yn archwilio addasiadau rhesymol ychwanegol gyda'r ganolfan i sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, y bydd yr ymgeisydd yn gallu sefyll ei arholiadau. **Rhaid** i unrhyw drefniadau diwygiedig, fel addasiadau rhesymol ychwanegol, gael eu cymeradwyo gan y corff/cyrff dyfarnu cyn arholiadau'r ymgeisydd.

**Amgylchiadau prin ac eithriadol lle na fydd unrhyw addasiadau rhesymol eraill yn caniatáu i ymgeisydd anabl sefyll ei arholiadau**

**Mewn amgylchiadau prin ac eithriadol** lle na all y ganolfan nodi addasiadau rhesymol ychwanegol a fyddai'n caniatáu i'r ymgeisydd sefyll ei arholiadau, rhaid cysylltu â'r corff/cyrff dyfarnu perthnasol.

Bydd y corff/cyrff dyfarnu yn penderfynu pob achos yn unigol. Byddant am ddeall amgylchiadau unigol yr ymgeisydd a lle bynnag y bo modd i wneud addasiadau priodol a fydd yn caniatáu i'r ymgeisydd sefyll ei arholiadau. Dim ond y corff/cyrff dyfarnu fydd yn penderfynu a yw'n briodol ystyried trefniadau amgen ar gyfer yr ymgeisydd.

Efallai y bydd corff dyfarnu yn gallu pennu graddau gan ddefnyddio tystiolaeth asesu amgen addas. Fodd bynnag, bydd hyn ond yn bosibl fel addasiad rhesymol os yw ymgeisydd yn cael ei ystyried yn anabl yn ôl ystyr y gair yn Neddf Cydraddoldeb 2010†. Mae'n **rhaid** bod gan y ganolfan dystiolaeth feddygol sy'n cadarnhau anabledd yr ymgeisydd.

Er mwyn i gorff dyfarnu bennu graddau gan ddefnyddio tystiolaeth asesu amgen, **rhaid** i'r ymgeisydd fod wedi ymgymryd â chwrs astudio sydd wedi caniatáu iddo arddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth fel sy'n ofynnol ym manyleb y corff dyfarnu. Mae'n **rhaid** bod y ganolfan wedi ystyried a diystyru'r holl addasiadau rhesymol addas. Ni ddylai fod unrhyw addasiadau rhesymol eraill a fyddai'n caniatáu i'r ymgeisydd sefyll ei arholiadau.

Er mwyn caniatáu i'r corff dyfarnu bennu gradd, **rhaid** i'r ganolfan gadw'r dystiolaeth asesu amgen addas yn ddiogel, sy'n gynrychiolaeth ddigonol o ofynion manyleb y corff dyfarnu **ac** mae'n rhaid gallu cymharu'r dystiolaeth â'r safon genedlaethol ddilynol er mwyn caniatáu i'r corff dyfarnu bennu gradd. Bydd gofyn i'r ganolfan gadarnhau i'r corff dyfarnu mai gwaith digymorth yr ymgeisydd ei hun yw'r dystiolaeth asesu amgen a gyflwynwyd. Y corff dyfarnu, ac nid athro'r ymgeisydd, fydd yn pennu gradd sy'n cyd-fynd â'r safon genedlaethol a osodwyd ar gyfer arholiadau ac asesiadau ffurfiol eraill.

†Ar gyfer canolfannau yng Ngogledd Iwerddon diffinnir anabledd yn y canlynol:

- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 1995").
- Gorchymyn Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2005 ("Gorchymyn 2005").
- Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Cyrff Cymwysterau Cyffredinol) (Cymwysterau Perthnasol, Camau Rhesymol a Nodweddion Ffisegol) (Gogledd Iwerddon) 2008 ("Gorchymyn 2008").

Lluniwyd astudiaethau achos o ymgeiswyr anabl yn cael ystod o addasiadau, er mwyn helpu Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig gydag achosion eithriadol. Gellir dod o hyd i'r rhain yn:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

## 1.8 Trefniadau yng Ngogledd Iwerddon

Mae deddfwriaeth ar wahân ar waith yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, bydd diffiniadau a gweithdrefnau'r ddogfen hon yn ymwneud â threfniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn berthnasol.

Caiff diffiniad o anabledd ei nodi yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y cafodd ei diwygio).
Cynhwysir y ddarpariaeth sy'n gwneud gwahaniaethu yn anghyfreithlon o ran trefniadau dyfarnu cymwysterau cyffredinol gan gyrff dyfarnu ym Mhennod 3 Rhan 3 y Mesur Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2005 (SENDO 2005).

Mae'r cymwysterau cyfredol sy'n cael eu cynnwys yn SENDO 2005 wedi'u nodi yn Atodlen Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Cyrff Cymwysterau Cyffredinol) (Cymwysterau Perthnasol, Camau Rhesymol a Nodweddion Ffisegol) (Gogledd Iwerddon) 2008 ("Rheoliadau 2008"). Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Tystysgrif Effeithiolrwydd Personol
- Cymwysterau Lefel Mynediad
- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol
- Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol)
- Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
- Cymwysterau galwedigaethol.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon (Arweiniad Drafft i Gyfraith Gwahaniaethu ar sail Anabledd sy'n ymwneud â Chyrff Cymwysterau Cyffredinol) yn disgrifio'r dyletswyddau a roddir ar gyrff cymwysterau cyffredinol sy'n cynnig cymwysterau yng Ngogledd Iwerddon. Mae tudalennau 6 a 7 y canllawiau hyn hefyd yn rhoi manylion y cymwysterau y mae Rheoliadau 2008 yn barnu eu bod yn gymwysterau cyffredinol perthnasol.

Gellir gweld copi o'r canllawiau ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb:
https://www.equalityni.org/ECNI/media/ECNI/Publications/Employers%20and%20Service%20Providers/DraftguidetodiscrimlawGeneralQualificationsbodies2010.pdf?ext=.pdf

# Pennod 2

# Cymwysterau Technegol Galwedigaethol – gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau

## 2.1 Pa gymwysterau yr ymdrinnir â hwy?

Mae'r bennod hon yn ymwneud yn benodol â Chymwysterau Technegol Galwedigaethol fel y'u diffinnir yn adran 54 Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 2.2 Cyrff dyfarnu – Cymwysterau Technegol Galwedigaethol

Mae adran 53 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan **na ddylai** cyrff dyfarnu, wrth asesu ymgeiswyr a rhoi Cymwysterau Technegol Galwedigaethol, wahaniaethu, aflonyddu nac erlid, a **bod ganddynt ddyletswydd** i wneud addasiadau rhesymol.

## 2.3 Beth yw dyletswyddau cyrff dyfarnu?

Bydd y ddyletswydd sydd ar gorff dyfarnu i wneud addasiad rhesymol yn berthnasol lle y byddai trefniant asesu yn rhoi person anabl **o dan anfantais sylweddol** o'i gymharu â rhywun nad yw'n anabl. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol bod y corff dyfarnu'n cymryd camau rhesymol i osgoi'r anfantais honno. **Nid yw'n** ofynnol i gyrff dyfarnu wneud addasiadau i'r safon academaidd neu unrhyw safon cymhwysedd arall sy'n cael ei gymhwyso wrth gynnal archwiliad/asesiad.

## 2.4 Cymhwyso safonau cymhwysedd

Caniateir i gyrff dyfarnu sy'n cynnig Cymwysterau Technegol Galwedigaethol ddefnyddio safonau cymhwysedd gyda pherson anabl. (Mae hyn yr un mor berthnasol i gymwysterau cyffredinol.)

Diffinnir safon cymhwysedd fel safon academaidd, meddygol neu unrhyw gymhwysedd arall a ddefnyddir at y diben o benderfynu p’un ai a oes gan berson lefel penodol o gymhwysedd neu allu ai peidio.

Pan fydd corff dyfarnu yn gosod safon cymhwysedd ar gyfer person anabl, ni fydd yn golygu gwahaniaethu ar sail anabledd oni bai ei fod yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol o dan Adran 19 Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 2.5 Cymryd cyngor gan gorff dyfarnu am safonau cymhwysedd

Mae materion pwnc penodol yn ymwneud â Chymwysterau Technegol Galwedigaethol lle bydd angen efallai i ganolfannau geisio cyngor penodol gan y corff dyfarnu sy'n rhoi'r cymhwyster.

Mewn llawer o Gymwysterau Technegol Galwedigaethol, bydd amrediad eang o addasiadau rhesymol ar gael. Gall y trefniadau a restrir ym Mhenodau 5 a 6 fod yn berthnasol i rai ymgeiswyr sy’n cofrestru ar gyfer Cymwysterau Technegol Galwedigaethol.

Fodd bynnag, mae rhai eithriadau pwysig lle byddai safonau cymhwysedd yn cael eu dirymu pe bai addasiad yn cael ei wneud. Mae angen ystyried yn ofalus addasiadau rhesymol i Gymwysterau Technegol Galwedigaethol sy'n meddu ar "drwydded i ymarfer" er mwyn peidio dirymu'r 'drwydded'.

## 2.6 Recriwtio ymgeiswyr gyda didwylledd

**Rhaid i ganolfannau recriwtio gyda didwylledd ar gyfer Cymwysterau Technegol Galwedigaethol**. **Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y wybodaeth a'r cyngor cywir ar y cymhwyster/cymwysterau a ddewisant ac y bydd y cymhwyster/cymwysterau'n bodloni eu hanghenion. **Rhaid** i'r broses recriwtio gynnwys y ganolfan sy'n asesu pob darpar ddysgwr. Mae'n rhaid i'r ganolfan lunio barn broffesiynol y gellir ei chyfiawnhau am botensial y dysgwr i gwblhau'r asesiad yn llwyddiannus ac i ennill y cymhwyster. Mae'n **rhaid** i asesiad o'r fath adnabod, lle y bo'n briodol, y gefnogaeth a fydd ar gael i'r dysgwyr i hwyluso mynediad i'r cymhwyster/cymwysterau.

Lle mae'r broses recriwtio yn nodi na fydd y dysgwr efallai'n gallu dangos cyrhaeddiad ac felly ennill cyrhaeddiad ym mhob asesiad ar gyfer y cymhwyster a ddewiswyd, **rhaid** cyfathrebu hyn yn glir i'r dysgwr. Efallai y bydd dysgwr yn penderfynu parhau i astudio cymhwyster a pheidio â chael ei gofrestru ar gyfer yr asesiad cyfan neu ran ohono.

Mae'n **rhaid** i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o:

- amrywiaeth y dewisiadau sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol a all fod yn angenrheidiol, i alluogi dangos cyrhaeddiad ar draws yr holl asesiadau angenrheidiol; **a**

- unrhyw gyfyngiadau ar lwybrau cynnydd i'r dysgwr o ganlyniad i beidio â chyrraedd rhai canlyniadau.

## 2.7 Arweiniad ar addasiadau rhesymol

Mae'r cyrff dyfarnu'n ceisio sicrhau bod Cymwysterau Technegol Galwedigaethol ar gael i bob dysgwr sy'n gymwys am addasiadau rhesymol mewn asesiadau, heb gyfaddawdu asesiad y sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth neu gymhwysedd sy'n cael eu mesur.

Cytunir ar addasiad rhesymol yn ystod y cyfnod cynllunio cyn asesu, ac mae'n cynnwys unrhyw weithred sy'n helpu i leihau effaith anabledd neu anhawster, sy'n golygu bod y dysgwr **o dan anfantais sylweddol**.

**Ni** fydd addasiad yn rhesymol os bydd yn effeithio ar ddibynadwyedd neu ddilysrwydd canlyniadau asesiadau, neu'n rhoi mantais asesu annheg (h.y. **nid** un rhesymol) o gymharu â dysgwyr eraill sy'n ymgymryd â'r un asesiadau neu asesiadau tebyg.

**Rhaid** i bennaeth y ganolfan sicrhau bod addasiad y mae'r ganolfan yn ei roi ar waith ar ran y dysgwr yn cael ei seilio ar dystiolaeth gadarn fod rhwystr i'r asesiad a'i fod yn unol â'r canllawiau hyn. Gall methiant i wneud hynny olygu rhoi cyngor neu weithredu i'r ganolfan hyd at roi camau ar waith i reoli camymddwyn yn y ganolfan. Yn y pendraw gallai hyn arwain at alw tystysgrifau'n ôl, tynnu cymeradwyaeth i gynnig cymhwyster neu dynnu cymeradwyaeth y ganolfan yn ei hôl.

## 2.8 Addasiadau rhesymol o fewn Cymwysterau Technegol Galwedigaethol

Mae Cymwysterau Technegol Galwedigaethol yn achredu cymhwysedd yn erbyn manylebau a meini prawf asesu a/neu Safonau Cenedlaethol a strategaeth asesu gymeradwy. Rhaid i unrhyw addasiad rhesymol adlewyrchu ffordd arferol y dysgwr o weithio, naill ai yn y ganolfan neu o fewn y maes galwedigaethol.

Fodd bynnag, gall dysgwyr ddefnyddio cymhorthion mecanyddol, electronig a rhai eraill er mwyn dangos cymhwysedd. **Rhaid** i'r cymhorthion naill ai fod ar gael yn gyffredinol yn fasnachol, neu fod ar gael gan gyflenwr arbenigol, a rhaid ei bod yn ddichonadwy eu defnyddio yn y ganolfan neu ar safle cyflogwr.

Gellir ystyried bod yr addasiadau canlynol yn hwyluso mynediad os **nad** ydynt yn cael effaith ar unrhyw safonau cymhwysedd sy'n cael eu profi:

- addasu deunyddiau asesu;
- addasu'r amgylchedd corfforol at ddibenion mynediad;
- addasu'r offer;
- deunydd asesu mewn fformat wedi'i fwyhau neu Braille;
- deunydd asesu ar bapur lliw neu mewn fformat clywedol;
- Iaith Arwyddion Prydain (BSL);
- newid neu addasu'r dull asesu;
- newid y trefniadau asesu arferol;
- amser ychwanegol, e.e. estyniadau amser ar gyfer aseiniadau;
- deunydd asesu iaith wedi'i addasu;
- cynorthwyydd ymarferol;
- anogwr;
- rhoi cymorth yn ystod asesiad;
- darllenydd;
- ysgrifennydd;
- defnydd o feddalwedd/technoleg gynorthwyol;
- defnyddio troshaenau lliw, cymhorthion golwg isel;
- defnyddio lleoliad gwahanol ar gyfer yr asesiad;
- Defnyddio TGCh / ymateb gan ddefnyddio dyfeisiau electronig.

Mae'n bwysig nodi na fydd pob un o'r addasiadau a ddisgrifiwyd uchod yn rhai sy'n rhesymol, yn cael eu caniatáu nac yn ymarferol mewn rhai sefyllfaoedd. Efallai na fydd ar y dysgwr angen yr un addasiad ar gyfer pob asesiad, ac na fydd hynny efallai'n cael ei ganiatáu ychwaith.

**Dylai dysgwyr gymryd rhan lawn mewn unrhyw benderfyniadau am newidiadau/addasiadau**. O wneud hyn bydd modd bodloni anghenion yr unigolyn, gan gadw meini prawf asesu penodol cymhwyster mewn cof.

Gan fod anghenion ac amgylchiadau pob dysgwr yn wahanol, **rhaid** i ganolfannau ystyried unrhyw gais am addasiad rhesymol ar sail pob achos unigol. Bydd angen tystiolaeth o angen.

## 2.9 Cymhwyso addasiadau rhesymol i asesiadau mewnol

**Nid** oes angen i ganolfannau gyflwyno cais i'r corff dyfarnu os yw'r cymhwyster yn cael ei asesu'n fewnol. **Rhaid** i ganolfannau serch hynny wneud addasiadau rhesymol sy'n cyfateb i bolisïau'r corff dyfarnu.

**Os yw'r ganolfan yn ansicr a yw'r addasiad rhesymol sy'n cael ei gynnig yn cyd-fynd â'r canllawiau hyn, rhaid cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol am gyngor.**

## 2.10 Addasiadau rhesymol ar gyfer asesiadau allanol?

**Rhaid** i ganolfannau sydd am wneud cais am addasiad rhesymol mewn cymhwyster galwedigaethol anfon cais i'r corff dyfarnu perthnasol **o leiaf chwe wythnos cyn dyddiad yr asesiad.**

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol. Bydd yr ymateb yn ymwneud yn bennaf â pha effaith y gallai'r addasiad y gofynnir amdano ei chael ar y cymhwysedd a'r gallu sy'n cael ei brofi yn y cymhwyster, yn ogystal â dibynadwyedd a dilysrwydd yr asesiad.

Efallai na chaiff rhai addasiadau eu hystyried yn rhesymol:

- os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf a gyhoeddwyd;
- os oes costau afresymol i'r corff dyfarnu;
- os ydynt yn cynnwys fframiau amser afresymol; neu
- os ydynt yn effeithio ar ddiogelwch a manwl gywirdeb y cymhwyster ei hun.

Er enghraifft, ni ellir cynhyrchu papurau Braille ar fyr rybudd. Rhaid i addasiadau **beidio** â pheryglu iechyd a llesiant yr ymgeisydd ei hun nac unrhyw berson arall.

**Rhaid** i'r ganolfan sicrhau y gellir cyflwyno addasiadau wedi'u cymeradwyo i ymgeiswyr.

## 2.11 Papurau wedi'u haddasu

I wneud cais am bapurau Braille, papurau wedi'u mwyhau a'u haddasu, papurau â'r iaith wedi'i haddasu neu bapurau wedi'u haddasu ar gyfer defnyddio recordiad, rhaid archebu **heb fod yn hwyrach na deg wythnos cyn dyddiad yr asesiad**.

Lle mae'n adlewyrchu ffordd arferol dysgwr o weithio, gall canolfannau ddarparu fersiwn A3 wedi'i mwyhau o ddeunydd nad yw'n ddiogel heb ofyn am ganiatâd y corff dyfarnu.

**Ni ddylid** newid iaith deunyddiau nad ydynt yn ddiogel heb ganiatâd blaenorol y corff dyfarnu.

**Ni** ddylid agor papurau cwestiynau diogel yn gynnar heb ganiatâd y corff dyfarnu ymlaen llaw.

# Pennod 3

# Ymgeiswyr ag anableddau ac anawsterau dysgu, a chymhwyso'r amcanion asesu

## Cymwysterau cyffredinol

3.1 **Rhaid i ganolfannau recriwtio gyda didwylledd ar gyfer cymwysterau cyffredinol.** **Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr, mewn fformat hygyrch, y wybodaeth a'r cyngor cywir ar y cymwysterau a ddewisir ganddynt ac y bydd y cymwysterau yn bodloni eu hanghenion.

**Rhaid i'r ganolfan asesu pob darpar ddysgwr a llunio barn broffesiynol y gellir ei chyfiawnhau am ei botensial i gwblhau ac ennill y cymhwyster yn llwyddiannus. Rhaid** i asesiad o'r fath adnabod, lle y bo'n briodol, y gefnogaeth a fydd ar gael i'r dysgwr i hwyluso mynediad i'r cymwysterau.

## Amcanion asesu a ffiniau graddau

3.2 Mewn cymwysterau cyffredinol (gweler Pennod 1, adran 1.6 ac adran 1.8), rhaid i'r ymgeisydd ddangos cyrhaeddiad mewn nifer o amcanion asesu.

Mae'r amcanion asesu'n diffinio'r cymwyseddau sy'n cael eu profi gan y fanyleb. Mae'r rhain yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a'r defnydd ohonynt. Nodir yr amcanion asesu ym manylebau'r cyrff dyfarnu ar gyfer pob pwnc.

Bydd y marciau a enillir pan fesurir y sgiliau hyn yn cael eu lluosi â ffactor agregu i gynnal y pwysiadau priodol.

Caiff y cyfanswm marciau hwn ei gydweddu â'r nifer o farciau a gytunwyd (ffin gradd) sy'n angenrheidiol ar gyfer pob gradd y gellir cyhoeddi'r cymhwyster arni.

3.3 Mae'r ffin gradd yn dangos y safon neu'r lefel academaidd y mae'n rhaid i bob ymgeisydd ei chyrraedd er mwyn ennill gradd arbennig. Bydd y ffiniau gradd yn cael eu cymhwyso'n gyfartal i bob ymgeisydd. Er mwyn cael dyfarnu gradd, **rhaid** i'r ymgeisydd allu dangos y lefel o gymhwysedd neu allu yn erbyn yr amcanion asesu.

3.4 Gallai rhai mathau o anableddau effeithio ar allu'r ymgeisydd i ddangos un neu fwy o'r amcanion asesu. Gall ffordd arall fod ar gael yn y fanyleb a **rhaid** cael cyngor gan y corff dyfarnu. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen eithrio ymgeisydd anabl rhag cydran (gweler Pennod 5, adran 5.17) os mai dyna'r unig addasiad sydd ar gael i'w alluogi i oresgyn anfantais sylweddol wrth gael mynediad i'r fanyleb.

Weithiau, fodd bynnag, ni ellir dod o hyd i ddewis amgen, am fod y amhariad yn ymwneud â rhan sylfaenol o'r asesiad. O ganlyniad, efallai na fydd yr ymgeisydd yn sgorio digon o farciau i gyfiawnhau cofrestru am y cymhwyster.

Gall canolfan gynnwys ymgeisydd ar y cwrs gan wybod yn iawn na fyddant efallai'n gallu bodloni'r amcanion asesu i gyd. **Rhaid** sicrhau bod yr ymgeisydd a rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr **yr ymgeisydd** yn gwbl ymwybodol o'r graddau y byddai'n ddoeth cofrestru'r ymgeisydd am y cymhwyster. Nid yw'n bosibl bob amser sicrhau cael yr un mynediad i ymgeisydd y mae ei amhariad yn effeithio ar gymhwysedd sy'n cael ei brofi ac na fydd modd iddo/iddi efallai ddangos yr amcanion asesu.

Dylai canolfannau gymryd camau i sicrhau bod gan eu haseswyr (gweler Pennod 7, adran 7.3) fynediad at yr amcanion asesu ar gyfer y fanyleb berthnasol/manylebau perthnasol.

3.5 Mae’r enghreifftiau isod yn dangos sut y gellir gwneud addasiadau i alluogi ymgeiswyr i gael cyfle i gael mynediad at y cymhwysterau ac i ddangos beth y maent yn ei wybod a beth y gallant ei wneud. Mae’r enghreifftiau yn dangos achosion lle na chaniateir addasiad a lle nad argymhellir y dylid cofrestru'r ymgeisydd am y cymhwyster, (oni theimlir na fydd y amhariad yn effeithio ar gyfran sylweddol o’r cymhwyster).

3.6 Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd yn rhesymol gwneud addasiadau i amcanion asesu o fewn cymhwyster. Byddai gwneud hyn fwy na thebyg yn tanseilio effeithiolrwydd y cymhwyster o ran darparu syniad dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yr ymgeisydd . Nid oes unrhyw ddyletswydd ar y cyrff dyfarnu i wneud addasiadau na ddylid eu gwneud yn ôl y rheoleiddwyr cymwysterau.

**Enghreifftiau o sut y byddai amcanion asesu yn effeithio ar argaeledd trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol**

- Mae ymgeisydd â pharlys yr ymennydd yn mwynhau ei chwrs TGAU Dylunio a Thechnoleg ond ni all ddefnyddio ei dwylo. Ni all ddylunio na gwireddu dyluniad yn annibynnol hyd yn oed gyda chymorth CAD/CAM. Gan fod y rhan hon o’r asesiad yn gyfran fawr o’r cymhwyster, mae’n penderfynu peidio â chofrestru am y pwnc arbennig hwn. Gan mai dylunio a gwneud yw'r amcanion asesu, ni ellir gwneud unrhyw addasiad.

- Mae ymgeisydd â dyslecsia am gymryd ei TGAU Saesneg Iaith a TGAU Sbaeneg ond ni all ddarllen nac ysgrifennu'n ddigonol.
  Ni all gael addasiad ar ffurf darllenydd yn rhan Darllen y papur TGAU Saesneg Iaith neu yn y papur Darllen TGAU Sbaeneg ond gall ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur.
  Ni all gael ysgrifennydd ar gyfer arholiadau TGAU Sbaeneg oni bai ei fod yn gallu arddweud pob gair tramor fesul llythyren. Gallai fod yn briodol i gofrestru’r ymgeisydd am TGAU Sbaeneg os, gydag amser ychwanegol o hyd at 50%, neu’r defnydd o brosesydd geiriau gyda’r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg wedi’i ddiffodd, y gall gael mynediad annibynnol at yr arholiadau.
  Fodd bynnag, gall gael ysgrifennydd yn rhannau Darllen ac Ysgrifennu y papur TGAU Saesneg Iaith. (Mewn arholiad sy'n asesu ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig neu'r sillafu, yr atalnodi a'r gramadeg, a lle defnyddir ysgrifennydd, dim ond os gall yr ymgeisydd ddangos ei fod wedi defnyddio'r sgiliau sy'n cael eu hasesu y gellir rhoi marciau.)

- Mae ymgeisydd heb ddwylo am gymryd TAG Safon Uwch Celfyddyd Gain. Awgrymir y byddai peintio â’r geg neu draed yn dderbyniol. Ni all yr ymgeisydd wneud y naill na’r llall ac mae am i berson arall beintio gan ddilyn ei chyfarwyddiadau. **Ni** chaniateir hyn gan fod y sgìl o beintio'n rhan o'r asesiad.

# ADRAN B:

# Addasiadau ar gyfer ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr ag anawsterau dysgu

# Pennod 4 Rheoli anghenion ymgeiswyr ac egwyddorion ar gyfer canolfannau

## 4.1 Rheoli anghenion ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr ag anawsterau dysgu

Efallai y bydd angen trefniadau mynediad / addasiadau rhesymol ar ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr ag anawsterau dysgu, fel y nodir isod.

Efallai y bydd gan rai ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr ag anawsterau dysgu anghenion lluosog sy'n gorgyffwrdd a bydd angen amrywiaeth o addasiadau, fel y nodir ym Mhenodau 5 a 6.

Rhaid i bob addasiad fod yn seiliedig ar broffil unigol yr ymgeisydd a'r effaith y mae ei anghenion yn ei chael ar ei allu i gael mynediad at arholiadau/asesiadau. Y nod yw cael gwared ar rwystrau i asesu heb roi mantais annheg i unrhyw grŵp penodol o ymgeiswyr, gan sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle teg i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

### 4.1.1 Anghenion gwybyddiaeth ac anghenion dysgu†

E.e. Anawsterau dysgu neu anawsterau dysgu penodol (fel Dyscalcwlia a Dyslecsia)

### 4.1.2 Anghenion cyfathrebu a rhyngweithio†

E.e. Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD), Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)

### 4.1.3 Anghenion synhwyraidd a chorfforol

E.e. Byddar, Amhariad ar y Golwg (VI), Amhariad Amlsynhwyraidd (MSI), Anabledd Corfforol (PD)

### 4.1.4 Anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl†

E.e. Anhwylder Diffyg Canolbwyntio â Gorfywiogrwydd (ADHD), Cyflyrau Iechyd Meddwl

†Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gael amhariad yn ei iaith gyntaf sydd yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir. Nid oes gan ymgeisydd anhawster dysgu dim ond am nad Cymraeg, Saesneg neu Wyddeleg yw ei iaith gyntaf.

## 4.2 Egwyddorion ar gyfer canolfannau

4.2.1 Pwrpas trefniant mynediad/addasiad rhesymol yw sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod rhwystrau rhag asesiad yn cael eu dileu ar gyfer ymgeisydd sydd ag anabledd gan warchod yr ymgeisydd rhag cael ei roi dan anfantais sylweddol o ganlyniad i anawsterau sylweddol a pharhaus. Cynhelir dilysrwydd yr asesiad, ond ar yr un pryd darperir mynediad i asesiad ar gyfer ymgeisydd anabl.

**Rhaid** i'r CAAA, neu aelod cyfatebol o staff o fewn coleg AB, sicrhau nad yw'r trefniant mynediad/addasiad rhesymol un gynigir yn rhoi'r ymgeisydd o dan anfantais annheg nac yn rhoi mantais annheg iddo.

**Rhaid** i ganolfan benderfynu ar drefniadau mynediad priodol i'w hymgeiswyr. Er y gall swyddogion proffesiynol o gyrff eraill gynnig cyngor, **nid eu lle nhw** yw gwneud y penderfyniad ar ran y ganolfan. Ni fydd ganddynt wybodaeth weithiol o anghenion unigolyn a sut mae eu hanawsterau'n effeithio arnynt yn yr ystafell ddosbarth a/neu mewn asesiadau wedi'u hamseru. Cyfrifoldeb y CAAA yw gwneud penderfyniadau priodol ar sail gwybodaeth sy'n deillio o reoliadau'r CGC.

4.2.2 Er y bwriedir i drefniadau mynediad/addasiadau ganiatáu mynediad i asesiadau, ni ellir eu caniatáu lle byddan nhw'n tarfu ar amcanion asesu'r fanyleb o dan sylw (gweler Pennod 3). Er enghraifft, fel arfer, **ni** chaniateir defnyddio cynorthwyydd ymarferol wrth brofi sgiliau ymarferol.

4.2.3 Efallai na fydd angen yr un trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol ar ymgeiswyr ym mhob manyleb. Gall pynciau a'u dulliau asesu amrywio, gan arwain at wahanol ofynion ar yr ymgeiswyr. **Rhaid** i Gydlynwyr AAA ystyried yr angen am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol ar sail pynciau unigol. (Gweler yr ail enghraifft isod.)

**Enghreifftiau**

- Bydd ymgeisydd TAG UG yn defnyddio prosesydd geiriau mewn arholiadau Llenyddiaeth Saesneg, Hanes a Chymdeithaseg ond nid mewn arholiadau Mathemateg Bellach. Mae'r defnydd o brosesydd geiriau mewn arholiadau Llenyddiaeth Saesneg, Hanes a Chymdeithaseg yn briodol i'w anghenion ac yn adlewyrchu ei ffordd arferol o weithio yn y ganolfan.
- Mae ymgeisydd TGAU yn cael 25% o amser ychwanegol mewn arholiadau ag ysgrifennu estynedig –
Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Daearyddiaeth a Hanes – gan fod ei amhariad yn cael effaith **sylweddol** ar ei gallu i lunio testun di-dor **yn unig**. Nid yw'r anawsterau hyn mor helaeth mewn arholiadau atebion byr Ffrangeg a Sbaeneg, arholiadau Gwyddoniaeth a Mathemateg. Felly nid yw 25% o amser ychwanegol yn cael ei roi.
- Mae ymgeisydd TGAU yn cael 25% o amser ychwanegol ym mhob arholiad gan fod ei amhariad yn amharu'n **sylweddol** ar ei sgiliau darllen, ysgrifennu a phrosesu.

4.2.4 Er enghraifft, dylai ysgolion allu prosesu ceisiadau ar ddechrau neu yn ystod blwyddyn gyntaf cwrs TGAU dwy flynedd ar ôl sefydlu darlun o angen yn glir a ffordd arferol o weithio yn ystod blynyddoedd 7 i 9.

Fodd bynnag, yn achos anaf neu amhariad dros dro, neu ddiagnosis o anabledd neu amlygiad o amhariad sy'n ymwneud ag anabledd presennol sy'n codi ar ôl dechrau'r cwrs, dylid gwneud cais am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol cyn gynted â phosibl. **Rhaid** i ganolfannau brosesu ceisiadau fel y nodir ym Mhennod 8, adran 8.3, gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* lle y bo angen.

**Rhaid** i drefniadau gael eu cymeradwyo **cyn** arholiad neu asesiad bob amser.

4.2.5 Mae’n **rhaid** i'r trefniant/trefniadau a roddir ar waith adlewyrchu'r cymorth a roddir i'r ymgeisydd yn y ganolfan†, er enghraifft:

- yn yr ystafell ddosbarth (lle bo'n briodol);
- gweithio mewn grwpiau bach i ddarllen a/neu ysgrifennu;
- gwersi cefnogi;
- strategaethau ymyrryd;
- mewn profion/arholiadau mewnol;
- ffug arholiadau.

Cyfeirir at hyn yn gyffredin fel ‘ffordd arferol o weithio’. Ar gyfer ymgeiswyr ag anawsterau dysgu dyma fel arfer yw'r wybodaeth gefndirol a gofnodir yn Rhan 1 Ffurflen 8 gan y CAAA neu'r aseswr sy'n gweithio yn y ganolfan.

**Rhaid** i Gydlynwyr AAA ac aseswyr gyfeirio at Bennod 7, paragraff 7.6.1 am wybodaeth am sut i gadarnhau ‘ffordd arferol o weithio’.

**†**Yr unig eithriad i hyn yw lle mae trefniant yn cael ei roi ar waith o ganlyniad i anaf neu amhariad dros dro (gweler adran 8.3).

4.2.6 Gan fod pynciau’n amrywio, gan arwain at ofynion gwahanol gan yr ymgeisydd, gallai fod angen cefnogaeth mewn un neu ddau o bynciau; gallai ymgeisydd arall fod angen cefnogaeth yn ei holl bynciau. Y brif egwyddor yw y gall y CAAA neu'r aseswr sy'n gweithio yn y ganolfan, ddangos hanes o gefnogaeth a darpariaeth. **Nid** yw’r trefniant yn cael ei roi ar hap i'r ymgeisydd ar gyfer ei arholiadau.

4.2.7 **Rhaid** i'r CAAA/aseswr weithio ar y cyd â staff addysgu, staff cymorth a phersonél y swyddfa arholiadau er mwyn sicrhau bod trefniadau mynediad cymeradwy yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer profion mewnol yn yr ysgol, ffug arholiadau ac arholiadau.

**Rhaid** i'r ymgeisydd fod wedi cael cyfleoedd priodol i ymarfer gan ddefnyddio'r trefniant (trefniadau) mynediad/addasiad (addasiadau) rhesymol cyn ei arholiad cyntaf. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fydd darllenydd cyfrifiadur, papurau wedi'u haddasu a'u mwyhau, ysgrifennydd, technoleg adnabod llais neu brosesydd geiriau yn cael eu defnyddio mewn arholiadau.

4.2.8 Os nad yw ymgeisydd erioed wedi defnyddio'r trefniant a ganiatawyd iddo, e.e. 25% o amser ychwanegol neu egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth, yna **nid** dyma ei ffordd arferol o weithio. Gall y CAAA ystyried tynnu'r trefniant yn ôl, ar yr amod **na** fydd yr ymgeisydd yn cael ei roi o dan anfantais sylweddol. (Bydd y CAAA wedi monitro’r defnydd o’r trefniant mewn profion mewnol yn yr ysgol a ffug arholiadau).

4.2.9 Lle y caiff asesiad di-arholiad ei farcio gan athrawon, dim ond am sgiliau wedi’u dangos gan yr ymgeisydd wrth weithio’n annibynnol y dylid rhoi credyd. **Ni** ddylai trefniadau mynediad/addasiadau gyfaddawdu gofynion asesu.

4.2.10 Lle caiff unigolyn ei benodi i hwyluso trefniant mynediad/addasiad rhesymol, h.y.

- Addasydd Iaith
- cynorthwyydd ymarferol
- anogwr
- darllenydd
- ysgrifennydd
- Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion

maent yn atebol i'r swyddog arholiadau a rhaid iddynt fod yn dderbyniol hefyd i bennaeth y ganolfan. **Fel arfer**, **ni ddylai'r** person a benodir fod yn athro pwnc, yn Gynorthwyydd Cefnogaeth Dysgu, nac yn gynorthwyydd addysgu yr ymgeisydd ei hun. Fodd bynnag, lle defnyddir athro pwnc, Cynorthwyydd Cefnogaeth Dysgu neu gynorthwyydd addysgu'r ymgeisydd ei hun, rhaid i oruchwyliwr arall fod yn bresennol bob amser. Ni ddylid penodi un o berthnasau, ffrindiau na chyfoedion yr ymgeisydd. Ni all tiwtor preifat hwyluso trefniant mynediad.

**Rhaid i bennaeth y ganolfan sicrhau bod y person a benodir yn oedolyn priodol a chyfrifol, wedi'i hyfforddi'n drylwyr ac yn deall rheolau'r trefniant (trefniadau) mynediad/addasiad (addasiadau) rhesymol yn llawn, yn unol â'r manylion yn y ddogfen hon.**

**Nid** yw'n dderbyniol i ganolfan ddefnyddio myfyriwr cyfredol i hwyluso trefniant mynediad/addasiad rhesymol.

4.2.11 **Mae'n bosibl y bydd methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau yn y ddogfen hon yn cael ei ystyried fel camymddwyn a gallai hynny effeithio ar ganlyniad(au) yr ymgeisydd.**

Mae enghreifftiau o fethu â chydymffurfio yn cynnwys y canlynol:

- methu â darparu gwybodaeth lawn a manwl wrth gyfeirio cais ar-lein at gorff dyfarnu;
- rhoi trefniadau mynediad/addasiadau ar waith **nas** cymeradwywyd;
- methu ag ystyried rhoi trefniadau mynediad ar waith (a all fod yn gyfystyr â methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol);
- caniatáu trefniadau mynediad/addasiadau o fewn y ganolfan **na** cheir tystiolaeth briodol i'w hategu; neu
- codi ffi am ddarparu addasiadau rhesymol i ymgeisydd anabl.

4.2.12 Dim ond gyda chanolfannau y gall y CGC a'r cyrff dyfarnu drafod trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol, ac **nid** â rhieni/gofalwyr.

4.2.13 Pan fo trefniant mynediad/addasiad rhesymol wedi'i brosesu ar-lein a'i gymeradwyo gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*, **rhaid** i'r CAAA sicrhau bod y dystiolaeth o angen (pan fydd ei hangen) ar gael i Arolygwr Canolfannau CGC ar gais. Gall corff dyfarnu hefyd ofyn am dystiolaeth o angen pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Gall hyn fod naill ai ar ffurf papur copi caled neu'n electronig.

Lle mae'r CAAA yn storio dogfennaeth yn electronig **dylai** greu e-ffolder ar gyfer pob ymgeisydd unigol. **Rhaid** i e-ffolder yr ymgeisydd gynnwys yr holl ddogfennau gofynnol i'w harolygu.

Bydd pob canolfan ar y Gofrestr Rhifau Canolfan Cenedlaethol yn cael eu harchwilio gan Arolygwr Canolfannau CGC. Bydd yr Arolygwr yn disgwyl gweld dogfennaeth briodol i gyfiawnhau cais ar-lein sydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer trefniant mynediad/addasiad rhesymol.

Os canfyddir mewn arolygiad o ganolfan gan y CGC bod perfformiad canolfan yn ddiffygiol wrth ofyn am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol a/neu eu rhoi ar waith, bydd corff dyfarnu yn cymryd camau pendant. Yn y pen draw, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i gorff dyfarnu dynnu cymeradwyaeth y ganolfan yn ôl. Byddai hyn yn digwydd lle mae'n amlwg bod canolfan wedi methu â chydymffurfio â'i rhwymedigaethau i nodi'r angen am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol, gwneud cais amdanynt a'u rhoi ar waith.

4.2.14 **Rhaid** i'r CAAA gyflwyno'r dogfennau i Arolygwr Canolfannau CGC.

Os nad yw'r CAAA ar gael pan fydd yr arolygwr yn galw, rhaid i'r aelod perthnasol o'r uwch dîm arweinyddiaeth gyfarfod â'r Arolygwr a mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau neu gwestiynau a all gael eu codi.

**Enghreifftiau – tystiolaeth at ddibenion arolygu**

Gellir storio'r dystiolaeth yn electronig neu fel copi caled gan yr CAAA.

Bydd ymgeisydd TGAU gydag awtistiaeth, sy'n cael **effaith andwyol sylweddol a thymor hir** yn cael darllenydd ac ysgrifennydd. Mae'r CAAA yn cyflwyno'r canlynol i'w arolygu:

- Ffurflen 9 wedi'i hategu gan ddatganiad ysgrifenedig gan Therapydd Lleferydd ac Iaith; (Cynhyrchir y Ffurflen 9, wedi'i llofnodi a'i dyddio, ac wedi'i llenwi gan y CAAA, yn unol â'r rheoliadau hyn.)
- y ddalen gymeradwyo o Trefniadau Mynediad Ar-lein.

Dyfernir 25% o amser ychwanegol i ymgeisydd TAG Safon Uwch ag anawsterau dysgu penodol. Mae ganddi ddwy sgôr wedi'u safoni â chyfartaledd isel (85-89) sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio. Mae'r CAAA yn cyflwyno'r canlynol i'w arolygu:

- Ffurflen 8, gyda llofnod electronig a dyddiad, gyda Rhannau 1, 2 a 3 wedi'u cwblhau a thystiolaeth o gymhwyster ôl-raddedig yr aseswr mewn asesiad arbenigol unigol ar Lefel 7 neu lefel gyfwerth;
- sampl o bapurau profion mewnol a ffug arholiadau mewn pynciau perthnasol yn dangos enghreifftiau o ddefnyddio'r 25% o amser ychwanegol;
- sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol yn nodi pam mae angen 25% o amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut mae ef/hi'n defnyddio'r 25% o amser ychwanegol hwnnw;
- cymeradwyaeth gan y cyrff dyfarnu.

Bydd ymgeisydd TGAU sydd ag amhariad sylweddol ar y golwg sy'n cael **effaith andwyol sylweddol a thymor hir** yn cael darllenydd cyfrifiadur. Mae'r CAAA yn cyflwyno'r canlynol i'w arolygu:

- Ffurflen 9 fel y manylir ym mharagraff 5.5.5;
- y ddalen gymeradwyo o Trefniadau Mynediad Ar-lein.

Byddai'r ymgeiswyr wedi cael eu hysbysu y byddai cais am drefniadau mynediad wedi'i brosesu gan ddefnyddio *Trefniadau Mynediad Ar-lein*, yn unol â Deddf GDPR/Diogelu Data y DU 2018.

**Nid yw ffurflen caniatâd data personol ymgeisydd a chadarnhad diogelu data gan y swyddog arholiadau neu ffurflen CAAA wedi'u llofnodi yn ofynnol mwyach.**

# Pennod 5

# Trefniadau mynediad ac addasiadau

Mae’r trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol sydd wedi’u rhestru yn y bennod hon yn gymwys ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
- AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- BTEC Lefel 2 Technegol
- Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Lefel 2 a Lefel 3 City & Guilds
- Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)
- Sgiliau Hanfodol
- Cymwysterau Mathemateg Annibynnol (FSMQ)
- Sgiliau Gweithredol
- TAG (UG a Safon Uwch)
- TGAU
- NCFE Tystysgrif Alwedigaethol Lefel 1/2 Dyfarniadau Technegol
- NCFE CACHE Lefel 1/2 Dyfarniadau Technegol
- NCFE CACHE Lefel 3 Tystysgrifau Cymhwysol, Diplomâu a Diplomâu Estynedig
- NCFE CACHE Lefel 3 Diplomâu Technegol a Diplomâu Estynedig Technegol
- NCFE Lefel 3 Cymwysterau Academaidd Amgen
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Lefelau T
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol
- CBAC Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
- CBAC Lefel 3 Tystysgrifau Cymhwysol, Diplomâu a Diplomâu Estynedig (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen)

(lle y caniateir hyn gan y fanyleb).

Bydd yr egwyddor yr un fath ar draws pob math o gymhwyster: **ni** ddylid caniatáu i drefniadau mynediad ac addasiadau ymyrryd â dilysrwydd yr asesiad na rhoi credyd am sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth na all yr ymgeisydd eu dangos.

Dylai canolfannau gofio y bydd ganddynt ddyletswyddau tuag at ymgeiswyr anabl, sy’n cynnwys gwneud addasiadau rhesymol i’r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i ymgeiswyr. Lle mae gan y ganolfan ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol, **ni** ddylai'r ganolfan godi unrhyw ffi ychwanegol ar ymgeisydd anabl mewn perthynas â'r addasiad neu'r cymorth.

**Rhaid** i'r CAAA gymryd y camau angenrheidiol a phriodol i greu darlun priodol o angen a dangos ffordd arferol o weithio ar gyfer ymgeisydd preifat. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr o bell a myfyrwyr sydd wedi'u haddysgu gartref. **Rhaid** i'r ganolfan, lle bo angen, arwain y broses asesu. **Rhaid** i'r ymgeisydd gael ei asesu gan aseswr penodedig y ganolfan. Mewn rhai achosion, gan ddibynnu ar ei anghenion, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gael ei asesu y tu allan i'r ganolfan, er enghraifft yn y cartref. **Rhaid** i'r ganolfan gydymffurfio â'r rhwymedigaeth i nodi'r angen am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol, gwneud cais amdanynt a'u rhoi ar waith.

Ar gyfer y canolfannau hynny sy'n derbyn cofrestriadau gan ymgeiswyr preifat, rhaid i'r CAAA hefyd gyfeirio at ddogfen *Trosolwg o'r broses trefniadau mynediad ar gyfer canolfannau sy'n derbyn ymgeiswyr preifat* y CGC:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

**DS**
Lle cyfeirir at asesiad 'yn ddim cynharach na dechrau Blwyddyn 9', Blwyddyn 10 fyddai hyn ar gyfer ymgeiswyr yng Ngogledd Iwerddon.

Yng Nghymru, mae gan Gynllun Datblygu Unigol **cyfredol**, sy'n cadarnhau anabledd yr ymgeisydd, yr un statws â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal (Lloegr) **cyfredol** neu Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (Gogledd Iwerddon) cyfredol.

Lle cyfeirir at 'sgorau wedi'u safoni', mae'r rhain yn sgorau safonol sy'n defnyddio cymedr o 100 a gwyriad safonol o 15.

## 5.1 Egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth

Nid yw'n ofynnol prosesu cais ar gyfer egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Fodd bynnag, ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG UG a Safon Uwch, **rhaid** i'r CAAA gwblhau'r datganiad naill ai yn Rhan 1 Ffurflen 8 neu Ran 1 Ffurflen 9, sy'n cadarnhau'r angen am egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth.

Defnyddir Rhan 1 Ffurflen 8 i gadarnhau'r angen am egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth i ymgeiswyr ag anawsterau dysgu y mae angen iddyn nhw hefyd gael 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd.

Rhaid i'r CAAA gadarnhau natur amhariad yr ymgeisydd, a bod egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn adlewyrchu ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan. Gall Arolygwr Canolfannau'r CGC ofyn am gael gweld y Ffurflen 8 neu'r Ffurflen 9 wedi'i llenwi i gefnogi rhoi egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth.

Nid oes angen samplau o dystiolaeth at ddibenion archwilio.

Lle mae amhariad heblaw anhawster dysgu ar ymgeisydd, rhaid i'r CAAA fod wedi treialu a disbyddu'r dewis o egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn ystod profion mewnol wedi'u hamseru a/neu ffug arholiadau cyn gwneud cais am 25% o amser ychwanegol.

Mae egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn aml yn fwy effeithiol a phriodol na 25% o amser ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr sy'n profi gorbryder neu sydd ag anawsterau canolbwyntio. Gallant fynd i'r afael yn well ag anghenion ymgeiswyr niwroddargyfeiriol fel y rhai sydd ag ADHD neu ASD yn ogystal ag ymgeiswyr sydd â chyflwr meddygol ac anghenion iechyd meddwl. Ar gyfer ymgeisydd sy'n blino'n hawdd neu'n cael trafferth canolbwyntio dros gyfnod estynedig, bydd egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn fwy priodol na 25% o amser ychwanegol.

Mae dyrannu amser ychwanegol yn ymestyn y cyfnod y mae'n rhaid i ymgeisydd aros mewn amgylchedd a allai achosi straen, a all ddwysáu pryder a lleihau cynhyrchiant. Ar ben hynny, efallai na fydd 25% o amser ychwanegol yn mynd i'r afael â'r mater sylfaenol, sy'n aml yn gysylltiedig ag anawsterau canolbwyntio neu reoleiddio emosiynol. Ar y llaw arall, mae egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn caniatáu i'r ymgeisydd gamu o leoliad yr arholiad, defnyddio strategaethau hunan-reoleiddio strwythuredig a dychwelyd pan fyddant wedi tawelu ac yn gallu canolbwyntio'n well. Gall y dull hwn arwain at berfformiad mwy effeithiol mewn arholiadau gan hefyd gefnogi datblygiad sgiliau hunanreoli hirdymor. Mae addysgu ymgeiswyr sut i ddefnyddio'r strategaethau hyn yn eu harfogi i eirioli drostynt eu hunain mewn addysg bellach neu'r gweithle, gan feithrin annibyniaeth a gwytnwch.

Gall fod angen 25% o amser ychwanegol yn ogystal ar rai ymgeiswyr.

5.1.1 Caniateir i'r CAAA ddarparu egwyl dan oruchwyliaeth i ymgeisydd lle mai hon yw ei **ffordd arferol o weithio yn y ganolfan**.

**Rhaid** i'r CAAA fod yn fodlon ar y canlynol:

- mae gan yr ymgeisydd amhariad sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir sy'n achosi anawsterau sylweddol a pharhaus (mae'r ymgeisydd yn anabl o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb); a

- mae angen gwirioneddol am y trefniant.

Bydd egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn cael eu dyfarnu ar gyfer:

- anghenion gwybyddiaeth a dysgu
- anghenion cyfathrebu a rhyngweithio;

- cyflwr meddygol;
- anghenion synhwyraidd a chorfforol;
- anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.

Yn ogystal, **rhaid** i anawsterau'r ymgeisydd fod wedi eu **sefydlu yn y ganolfan**, ac ~~felly yn~~ hysbys i'r Tiwtor Dosbarth, Pennaeth Blwyddyn, y CAAA a/neu uwch aelod staff gyda chyfrifoldebau bugeiliol.

5.1.2 Dylid stopio amseru'r arholiad ac ailddechrau pan fydd yr ymgeisydd yn barod i barhau.

Yn ystod yr egwyl orffwys dan oruchwyliaeth, **ni ddylai**'r ymgeisydd gael mynediad i'r papur cwestiynau/llyfryn ateb. Pwrpas egwyl orffwys dan oruchwyliaeth yw rhoi cyfle i gael egwyl o'r arholiad ac **ni ddylai** gael ei ddefnyddio fel 'amser meddwl'.

Os bydd angen i'r ymgeisydd adael yr ystafell arholiad, mae'n rhaid i oruchwyliwr fynd gydag ef.

Fel arfer, ni ddylai un egwyl orffwys dan oruchwyliaeth fod yn fwy na 30 munud o hyd. Bydd egwyl orffwys dan oruchwyliaeth yn aml yn fyrrach na hyn. **Ni ellir** rhoi cymaint o egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth ag y dymunent i ymgeiswyr am cyhyd ag y dymunent. Ni fyddai angen egwyl orffwys dan oruchwyliaeth fel arfer yn ystod 10 munud cyntaf arholiad ond gall fod ei angen wedi hynny.

**Rhaid** i'r CAAA benderfynu ar hyd yr egwyl orffwys dan oruchwyliaeth ar sail yr hyn maen nhw'n ei wybod am anghenion yr ymgeisydd a'i ffordd arferol o weithio pan fydd yn gwneud hynny dan amodau wedi'u hamseru. Gall fod yn ddefnyddiol ystyried cyn yr arholiad(au) sawl egwyl y gallai fod ei angen ar ymgeisydd a hyd bras pob egwyl orffwys dan oruchwyliaeth. Bydd hyn yn caniatáu i ddigon o staff fod ar gael i hwyluso pob egwyl orffwys.

5.1.3 Bydd rhai cyfyngiadau o ran amseru os bydd gan yr ymgeisydd fwy nag un arholiad i'w sefyll bob dydd.

Pan fydd ymgeisydd angen egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth ac amser ychwanegol, gellir cymryd yr egwyl(iau) gorffwys dan oruchwyliaeth ar unrhyw adeg yn ystod yr arholiad.

**Mewn achosion o salwch difrifol, rhaid i ganolfannau ofyn am gyngor meddygol ynghylch a yw'r ymgeisydd yn ddigon iach i sefyll yr arholiad.**

## 5.2 25% o amser ychwanegol

(**Ni** ddylid cymysgu rhwng amser ychwanegol ac egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth – gweler adran 5.1.)

Os bydd ymgeisydd yn gweithio gydag ysgrifennydd drwy gydol yr arholiad a bod angen 25% o amser ychwanegol arno, **rhaid** i ganolfannau gyfeirio at baragraff 5.7.10.

### Prosesu ceisiadau

5.2.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran ar derfynau amser, **rhaid** prosesu cais am 25% o amser ychwanegol gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

Lle mae gan ymgeiswyr anghenion cymhleth heblaw am anawsterau dysgu, gweler paragraff 5.2.3.

**Ni** chaniateir amser ychwanegol os achosir anawsterau llythrennedd ymgeisydd yn bennaf oherwydd nad Cymraeg, Saesneg, neu Wyddeleg yw iaith gyntaf yr ymgeisydd dan sylw.

### Ymgeiswyr sydd ag anawsterau dysgu – tystiolaeth graidd ofynnol

5.2.2 Er mwyn gallu rhoi 25% o amser ychwanegol , rhaid i'r CAAA bennu anghenion yr ymgeisydd yn seiliedig ar un o'r canlynol:

- cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (Lloegr) **cyfredol**, Datganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon) **cyfredol** neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) **cyfredol** sy'n cadarnhau anabledd yr ymgeisydd (**wedi'i ategu gan y dystiolaeth ofynnol gan y ganolfan** – gweler paragraff 5.2.3); **neu**
- Ffurflen 8 wedi'i chwblhau'n llawn ag asesiad (Rhan 2 Ffurflen 8) a gynhaliwyd **yn ddim cynharach na dechrau Blwyddyn 9** gan aseswr yn cadarnhau anhawster dysgu sy'n ymwneud ag addysg uwchradd/addysg bellach. **Rhaid i samplau o dystiolaeth ategu** Ffurflen 8 - gweler isod.

#### Amhariad sylweddol

Er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, **rhaid** i Ran 2 Ffurflen 8 gadarnhau bod gan yr ymgeisydd o leiaf y canlynol:

- dwy sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd o 84 neu'n is; **neu**
- un sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd o 84 neu'n is **ac** un sgôr wedi'i safoni cyfartaledd isel (85-89).

Yn y naill senario neu'r llall, **rhaid** i'r ddwy sgôr wedi'i safoni ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio fel y nodir isod:

- cyflymder darllen **a** chyflymder ysgrifennu; **neu**
- cyflymder darllen **a** phrosesu/rhuglder gwybyddol; **neu**
- cyflymder ysgrifennu **a** phrosesu/rhuglder gwybyddol; **neu**
- **dau faes gwahanol** o brosesu/rhuglder gwybyddol sy'n cael effaith sylweddol a thymor hir ar gyflymder gweithio.

Gellir defnyddio asesiad o rwyddineb mathemategol fel un yn unig o'r ddau fesur gofynnol ar gyfer rhoi 25% o amser ychwanegol mewn arholiadau Mathemateg. **Rhaid** i'r **rhwyddineb** mathemategol fod yn is na'r cyfartaledd. Gall asesiad o rwyddineb mathemategol gyfrannu at y dystiolaeth ar gyfer 25% o amser ychwanegol mewn arholiadau Mathemateg **yn unig**.

Gweler paragraffau 7.5.10 i 7.5.13 am ragor o wybodaeth am sgiliau darllen, sgiliau ysgrifennu a phrosesu gwybyddol/rhwyddineb.

**Pa bryd i ddefnyddio sgôr cyflymder darllen neu gyflymder ysgrifennu**

Lle mae ymgeiswyr yn darllen drostyn nhw eu hunain, gellir defnyddio mesur o gyflymder darllen testun fel un o'r ddau fesur gofynnol ar gyfer hyd at 25% o amser ychwanegol. Caiff y canlyniad ei gofnodi yn Rhan 2, Ffurflen 8 o dan 'Tystiolaeth am amser ychwanegol, cyflymder Darllen (testun parhaus)'.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn defnyddio darllenydd cyfrifiadur, darllenydd neu ysgrifbin darllen arholiad, **ni ellir** defnyddio mesur o gyflymder darllen fel tystiolaeth ar gyfer 25% o amser ychwanegol.

Lle bydd ymgeisydd yn ysgrifennu â llaw, gellir defnyddio mesur o gyflymder ysgrifennu fel un o'r ddwy sgôr ofynnol ar gyfer 25% o amser ychwanegol. Caiff y canlyniad ei gofnodi yn Rhan 2, Ffurflen 8 o dan 'Tystiolaeth am amser ychwanegol, cyflymder Ysgrifennu (testun parhaus)'.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn defnyddio ysgrifennydd, technoleg adnabod llais neu brosesydd geiriau, **ni ellir** defnyddio mesur o gyflymder ysgrifennu fel tystiolaeth ar gyfer 25% o amser ychwanegol.

Gweler paragraffau 7.5.10 i 7.5.13 am ragor o wybodaeth am sgiliau darllen, sgiliau ysgrifennu a phrosesu gwybyddol.

## Amgylchiadau eithriadol

Lle mae'r asesiad yn cadarnhau bod gan yr ymgeisydd o leiaf ddwy sgôr wedi'u safoni cyfartaledd isel (85-89) sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio, bydd angen gwneud atgyfeiriad ar-lein i gorff dyfarnu gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

**Rhaid** amgáu'r dystiolaeth ofynnol gyda'r atgyfeiriad. Bydd y corff dyfarnu yn disgwyl gweld cyfiawnhad cryf am 25% o amser ychwanegol.

Yn Rhan 1, Ffurflen 8, **rhaid** i'r CAAA roi darlun o ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio, gan ddangos yn glir yr angen am 25% o amser ychwanegol. **Ni ddylid** rhoi'r trefniant ar waith yn sydyn i'r ymgeisydd adeg ei arholiadau.

(Ceir diffiniad o ffordd arferol o weithio ym mharagraff 4.2.5.)

**Rhaid** i'r CAAA fod wedi cwblhau Rhan 1 Ffurflen 8 **cyn** i'r ymgeisydd gael ei asesu.
**Rhaid** i Ran 1 o Ffurflen 8 gynnwys o leiaf adborth athrawon a thystiolaeth o ffordd arferol o weithio.

**'Nid yw gwybodaeth 'sgerbwd' yn Rhan 1 Ffurflen 8 cyn yr asesiad bellach yn ddigonol.**

**Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal, Datganiadau o anghenion addysgol arbennig neu Gynlluniau Datblygu Unigol**

Lle mae gan ymgeisydd Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal (Lloegr) **cyfredol,** Datganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon) **cyfredol** neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) **cyfredol**, **rhaid** i'r CAAA gyfiawnhau'r ddogfennaeth gyda darlun o angen. Rhaid

cwblhau hyn drwy ddefnyddio Ffurflen 9. (**Nid** yw Ffurflen 8 yn ofynnol ac **ni** ddylid ei defnyddio.)

**Lle mae ymgeisydd â Ffurflen 8 bresennol yn symud o gymwysterau TGAU i TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill**

**Rhaid** prosesu cais ar-lein newydd am 25% o amser ychwanegol pan fydd ymgeisydd â Ffurflen 8 bresennol yn symud o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

Bydd asesiad a gynhaliwyd **ddim cynharach na dechrau Blwyddyn 9** (Rhan 2 Ffurflen 8) yn argymell 25% o amser ychwanegol ar gyfer arholiadau TGAU yn ddilys ar gyfer TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

Gall Ffurflen 8 wedi'i llenwi'n llawn (Rhannau 1, 2 a 3), wedi'i llofnodi a'i dyddio, gael ei throsglwyddo o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill lle mae'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig cyfredol ar gyfer 25% o amser ychwanegol, h.y. rheoliadau 2025/26 CGC†. Nid oes angen asesiad pellach.

Fodd bynnag, er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, **rhaid** bod tystiolaeth ar gael gan y CAAA neu'r aseswr sy'n gweithio yn y ganolfan, sy'n dangos yn glir bod angen 25% o amser ychwanegol o hyd ar gyfer cymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill. (**Rhaid** cwblhau'r dystiolaeth wedi'i diweddaru hon gan y ganolfan gan ddefnyddio Ffurflen 8RF a **rhaid** ei chysylltu'n benodol ag arholiadau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill).

**Rhaid** i'r CAAA roi manylion ynghylch:

- anawsterau presennol yr ymgeisydd i ddangos sut maen nhw'n effeithio ar addysgu a dysgu a pherfformiad mewn arholiadau, gan grynhoi tystiolaeth o adborth gan athrawon a/neu staff cefnogi;
- y gefnogaeth ac addasiadau sydd yn eu lle i'r ymgeisydd yn yr ystafell ddosbarth, profion ac arholiadau.

Yn ogystal â Ffurflen 8 a Ffurflen 8RF **rhaid** bod:

- sampl o bapurau profion ysgol mewnol/ffug arholiadau mewn pynciau perthnasol yn dangos enghreifftiau o ddefnyddio'r 25% o amser ychwanegol;
- sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol yn nodi pam mae angen amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut mae ef/hi'n defnyddio'r 25% o amser ychwanegol hwnnw.

†Gellir trosglwyddo Ffurflen 8 o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill lle bydd yr ymgeisydd yn aros yr un ganolfan neu'n symud i ganolfan wahanol.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn newid canolfan, **rhaid** darparu'r Ffurflen 8 wreiddiol wedi'i chwblhau neu gopi PDF ohoni, ynghyd â thystiolaeth o gymhwyster yr aseswr. **Rhaid** i'r CAAA ddarparu'r dystiolaeth hon i gynorthwyo eu cyfoedion mewn colegau AB a Chweched Dosbarth.

Dylid ystyried y Ffurflen 8 fel 'pasbort' yr ymgeisydd i drefniadau mynediad sy'n teithio gyda'r ymgeisydd.

**Rhaid** i'r CAAA wirio Ffurflen 8 yn drylwyr **cyn** ei hanfon ymlaen i ganolfan arall, gan sicrhau ei bod yn gyflawn, ac wedi'i llofnodi a'i dyddio.

**Ni ddylai'r** CAAA yn y ganolfan dderbyn ddefnyddio Ffurflen 8 anghyflawn. **Rhaid** edrych ar Ffurflen 8 i sicrhau bod pob rhan o'r ffurflen wedi'i chwblhau a'i bod wedi'i llofnodi a'i dyddio.

**Ni ellir** newid y ffurflen yn ôl-weithredol. Lle darparwyd Ffurflen 8 anghyflawn, yna rhaid ailasesu'r ymgeisydd i benderfynu'r angen am 25% o amser ychwanegol.

**Rhaid** i'r CAAA, neu aelod cyfatebol o staff mewn coleg AB, sicrhau:

- bod 25% o amser ychwanegol yn dal i fod yn briodol, ymarferol a rhesymol;
- bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig cyfredol ar gyfer 25% o amser ychwanegol, h.y. rheoliadau 2025/26 y CGC, **cyn** y caiff cais ar-lein newydd am 25% o amser ychwanegol ei brosesu.

## Gofynion tystiolaeth ar gyfer 25% o amser ychwanegol ar gyfer pob ymgeisydd sydd angen Ffurflen 8 oherwydd anghenion gwybyddiaeth a dysgu

**Rhan 1 Ffurflen 8 (yn dangos tystiolaeth sy'n seiliedig ar y ganolfan o angen a'r ffordd arferol o weithio)**

**Ni ellir cofnodi sylwadau gan rieni o fewn Rhan 1 o Ffurflen 8.**

+

**Rhan 2, Ffurflen 8 yn dangos:**

O leiaf ddwy sgôr neu fwy o 84 neu'n is sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio;

**neu**

un sgôr o 84 neu is **ac** un sgôr rhwng 85 ac 89 sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio;

**neu**

Dwy sgôr neu fwy rhwng 85 ac 89 sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio*.

+

**Samplau o dystiolaeth at ddibenion arolygu**

- sampl o bapurau profion ysgol mewnol/ffug arholiadau mewn pynciau perthnasol yn dangos enghreifftiau o ddefnyddio'r 25% o amser ychwanegol;

**a**

- sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol yn nodi pam mae angen 25% o amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut mae'n defnyddio'r 25% o amser ychwanegol hwnnw.

*Bydd angen gwneud atgyfeiriad i'r corff dyfarnu perthnasol gan ddefnyddio Trefniadau mynediad ar-lein.

**Gofynion tystiolaeth pan ddefnyddir Ffurflen 8 neu Ffurflen 9 ar gyfer ailsefyll TGAU**

Pan fydd ymgeisydd yn cael ei gofrestru ar gyfer arholiadau TGAU yng nghyfres arholiadau Tachwedd 2025 neu Mehefin 2026 i wella ar radd flaenorol, gall y CAAA ddefnyddio Ffurflen 8 neu Ffurflen 9 bresennol. **Nid oes** angen samplau o dystiolaeth ychwanegol (sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu neu bapurau ffug arholiadau sy'n dangos defnyddio amser ychwanegol.)

Dylai CAAA gyfeirio at ddogfen y CGC *Canllawiau ynghylch trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol pan fydd ymgeisydd yn newid canolfan* am fwy o wybodaeth am y dystiolaeth sydd ei hangen pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll

yr un cymhwyster neu'n symud ymlaen o gymwysterau Lefel 2 i Lefel 3 p'un a yw hynny yn yr un ganolfan neu mewn canolfan newydd.

Mae'r ddogfen i'w gweld yn:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

## Mathau o anabledd neu anghenion mynediad

- Anghenion cyfathrebu a rhyngweithio;
- Anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol (HI, MSI, PD, VI)
- Anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (e.e. ADCG)
- Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)

**Rhaid** ystyried trefniant o egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth bob amser cyn prosesu cais ar-lein am 25% o amser ychwanegol. Gall hyn fod yn fwy priodol i ymgeiswyr ag amhariad heblaw am anhawster dysgu. (Gweler Pennod 5, adran 5.1, am fwy o fanylion.)

**Rhaid** i'r CAAA fod wedi treialu a disbyddu'r dewis o egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn ystod profion mewnol wedi'u hamseru a/neu ffug arholiadau cyn gwneud cais am 25% o amser ychwanegol. Mae'r CAAA o'r farn bod 25% o amser ychwanegol, yn hytrach nag egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth, yn drefniant mynediad/addasiad rhesymol priodol.

Gall fod angen egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth yn ogystal ar rai ymgeiswyr.

5.2.3 Lle mae gan ymgeisydd anghenion cymhleth, h.y.

- anghenion cyfathrebu a rhyngweithio; **neu**
- anhawster dysgu gydag EHCP (Lloegr) **cyfredol** neu Ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon) **cyfredol** neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) **cyfredol**; **neu**
- anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol; **neu**
- anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl;
- cyflwr meddygol sydd wedi derbyn diagnosis ffurfiol gan arbenigwr cofrestredig;

sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ei gyflymder gweithio, mae'n **rhaid** i dystiolaeth briodol o angen (fel isod) fod ar gael i'w harolygu yn y ganolfan. **Nid** yw Ffurflen 8 yn ofynnol ac **ni** ddylid ei defnyddio. **Nid oes** angen sgorau wedi'u safoni.

### Amhariad sylweddol – tystiolaeth o angen

Er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, **rhaid** i'r CAAA lenwi Ffurflen 9 er mwyn:

- ❖ rhoi manylion am anawsterau presennol yr ymgeisydd i ddangos sut maen nhw'n effeithio ar addysgu a dysgu a pherfformiad mewn arholiadau, gan grynhoi tystiolaeth o adborth gan athrawon a/neu staff cefnogi;

- ❖ cadarnhau mai 25% o amser ychwanegol yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio.

Ni ellir cofnodi sylwadau gan rieni o fewn Rhan 1 o Ffurflen 9.

Bydd y Ffurflen 9 yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth arbenigol yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd:

- llythyr/adroddiad gan CAMHS, seicolegydd sydd wedi cofrestru â HCPC, ymgynghorydd meddygol*, seiciatrydd, a Therapydd Iaith a Lleferydd; **neu**

- **Meddyg Teulu neu Meddyg Teulu Niwroddatblygiadol Arbenigol gyda rôl estynedig mewn anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), y mae'n rhaid iddo fod wedi cwblhau fframwaith Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer datblygu a chynnal rôl estynedig yn benodol mewn ADHD. Rhaid** darparu tystiolaeth **o hyn; neu**

- llythyr/adroddiad gan Wasanaeth Arbenigol yr Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd yr Awdurdod Lleol neu'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol†; **neu**

- EHCP (Lloegr) **cyfredol** neu Ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon) **cyfredol** neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) **cyfredol** sy'n cadarnhau anhawster dysgu, cyflwr meddygol, anabledd corfforol, amhariad synhwyrol neu aml-synhwyraidd yr ymgeisydd.

**a**

- sampl o bapurau profion ysgol mewnol/ffug arholiadau mewn pynciau perthnasol yn dangos enghreifftiau o ddefnyddio'r 25% o amser ychwanegol;

- sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol yn nodi pam mae angen 25% o amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut mae’n defnyddio’r 25% o amser ychwanegol hwnnw;

- tystiolaeth bod egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth wedi'u treialu a'u disbyddu.

*Dan amgylchiadau eithriadol gall y CAAA ddefnyddio llythyr cadarnhau/derbyn atgyfeiriad CAMHS/Ymddiriedolaeth y GIG sy'n cytuno i asesu'n ffurfiol, yn yr achosion hynny lle cafodd yr ymgeisydd ei atgyfeirio i CAMHS neu Ymddiriedolaeth y GIG gan y ganolfan neu'r meddyg teulu, ar y rhestr i'w sgrinio a/neu'n debygol o dderbyn diagnosis ffurfiol. Byddai hyn oherwydd hyd rhestrau aros CAMHS/Ymddiriedolaeth y GIG. Fodd bynnag, **rhaid** i'r CAAA roi darlun cymhellol o angen yn Rhan 1 Ffurflen 9. Bydd mwy o ddibyniaeth ar dystiolaeth gan y ganolfan megis sylwadau ac arsylwadau staff addysgu a staff cefnogi.

Os nad yw llythyr cadarnhad/derbyn atgyfeiriad CAMHS/Ymddiriedolaeth y GIG yn nodi cytundeb i asesu'n ffurfiol, yna yr unig opsiwn fyddai i'r CAAA lenwi Ffurflen 8.

†Er enghraifft, Therapydd Galwedigaethol sy'n arbenigo mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, anabledd dysgu, iechyd meddwl.

Rhaid i dystiolaeth arbenigol gadarnhau bod anabledd ar yr ymgeisydd. Fodd bynnag, nid oes angen i'r arbenigwr argymell 25% o amser ychwanegol yn yr adroddiad a gyflwynir. Gall y dystiolaeth arbenigol ymwneud ag
unrhyw oedran ar yr amod ei bod yn parhau i fod yn gyfredol. Gall y CAAA dderbyn diagnosis meddygol gan arbenigwr priodol sy'n gweithio naill ai yn y GIG neu mewn practis preifat.

Er y gall arbenigwr, e.e. ymgynghorydd meddygol, argymell trefniadau mynediad penodol, **lle'r CAAA yw penderfynu** ar drefniadau arholiadau'r ymgeisydd. Barn broffesiynol y CAAA ydyw sy'n seiliedig ar eu gwybodaeth am anabledd yr ymgeisydd, ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio mewn asesiadau wedi'u hamseru a sylwadau ac arsylwadau'r staff addysgu.

## Lle mae ymgeisydd â Ffurflen 9 bresennol yn symud o gymwysterau TGAU i TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill

**Rhaid** prosesu cais ar-lein newydd am 25% o amser ychwanegol pan fydd ymgeisydd â Ffurflen 9 bresennol yn symud o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

Er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, **rhaid** bod tystiolaeth ar gael gan y CAAA sy'n dangos yn glir bod angen hyd at 25% o amser ychwanegol o hyd ar gyfer cymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill. **Rhaid** cynnwys manylion tystiolaeth y ganolfan wedi'i diweddaru yn Rhan 1 y Ffurflen 9 newydd a rhaid i'r wybodaeth honno ymwneud yn benodol â chymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

Bydd y Ffurflen 9 newydd yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth arbenigol yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd **a**:

- sampl o bapurau profion ysgol mewnol/ffug arholiadau mewn pynciau perthnasol yn dangos enghreifftiau o ddefnyddio'r 25% o amser ychwanegol;

- sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol yn nodi pam mae angen amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut mae ef/hi'n defnyddio'r 25% o amser ychwanegol hwnnw.

Cwblhau Ffurflen 9 newydd lle mae'r ymgeisydd yn aros yn yr un ganolfan neu'n symud i ganolfan newydd.

### Ffactorau y mae'n rhaid i'r ganolfan eu hystyried

5.2.4 Lle bydd 25% o amser ychwanegol ar gael i ymgeisydd yn ei arholiadau, **rhaid** i'r ganolfan sicrhau bod trefniadau goruchwylio ac amserlennu priodol ar waith.

5.2.5 **Ni chaiff** amser ychwanegol ei ganiatáu mewn arholiadau sy'n profi'r amser ar gyfer perfformio sgìl, fel **asesiad ymarfer Dawns neu Drama**, perfformiad cerddorol neu chwaraeon, lle mae amser yn rhan hanfodol o'r amcan asesu.

Mewn achosion lle mae gan ymgeisydd ddiagnosis ffurfiol o gyflwr meddygol, anabledd corfforol neu amhariad synhwyraidd sy'n cael effaith sylweddol ac andwyol ar ei fedrusrwydd corfforol a/neu ei gydsymud corfforol, y byddai 25% o amser ychwanegol yn cael ei ddyfarnu mewn arholiad Celf wedi'i amseru. Mae'n amlwg bod yr ymgeisydd yn arafach wrth gymysgu paent, peintio a/neu braslunio er enghraifft.

**Mewn amgylchiadau prin ac eithriadol,** gall fod ymgeiswyr sy'n prosesu'n llawer arafach, mae eu sgiliau cof yn wael, maent yn cael anhawster yn dilyniannu ac/neu mae ganddynt wendidau canfyddiadol gweledol sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni'r sgil i'w lefel ddisgwyliedig pan fyddant dan amodau wedi'u hamseru,

5.2.6 **Efallai na fydd angen amser ychwanegol ar ymgeiswyr ar gyfer pob arholiad/asesiad a phob pwnc.** Fel mae pynciau a dulliau asesu'n amrywio, felly hefyd bydd y gofynion ar yr ymgeisydd yn amrywio.

Efallai **na** fydd amser ychwanegol yn briodol yn y canlynol:

- arholiadau ymarferol; neu
- asesiadau di-arholiad lle nad yw amhariad yr ymgeisydd yn cael fawr ddim effaith ar yr asesiad.

**Rhaid** gofalu o fewn y ganolfan i sicrhau nad yw ymgeiswyr (y mae eu ffyrdd arferol o weithio'n cynnwys defnyddio amser ychwanegol) yn cael eu rhoi o dan anfantais.

5.2.7 Ar gyfer arholiadau ar dâp/wedi'u recordio, mae'n rhaid i'r ganolfan wneud cais am recordiad ychwanegol gan y corff dyfarnu, oni fydd yn cael digon o dapiau dros ben fel arfer.

Lle mae gan ymgeisydd gais wedi'i gymeradwyo am amser ychwanegol hyd at 25%, dylid ceisio cyngor gan y corff dyfarnu perthnasol bob amser ynglŷn â sut i ddefnyddio'r amser ychwanegol mewn arholiad Gwrando a/neu Siarad.

**Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)**

Ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad, **nid** yw'n ofynnol i'r ganolfan sicrhau bod pob ymgeisydd wedi'i asesu'n unigol.

**Rhaid** i'r CAAA bennu'r angen am 25% o amser ychwanegol yn seiliedig ar sut mae'r ymgeisydd yn gweithio fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

## 5.3 Amser ychwanegol o hyd at 50% (rhwng 26% a 50% o amser ychwanegol)

Penderfynir ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar sail unigol. Mae'r rhain yn seiliedig ar y dystiolaeth asesu, anghenion yr ymgeisydd sydd wedi cael eu dangos yn y ganolfan a'u ffordd arferol o weithio. Os yw ymgeisydd sydd ag anawsterau prosesu yn gallu dangos y wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd ganddyn nhw gyda 25% o amser ychwanegol, yna ni fyddai'n briodol dyfarnu mwy na hyn. Ni fyddai hynny'n rhoi cyfle teg i bawb. Byddai'n rhoi mantais i'r ymgeisydd dros ei gyfoedion.

Ar gyfer y rhan fwyaf o ymgeiswyr sydd ag anghenion gwybyddol a dysgu, y mae angen amser ychwanegol arnynt, bydd 25% yn ddigon. **Rhaid** bod cyfiawnhad cryf pam mae angen mwy na 25% o amser ychwanegol, gan gynnwys **corff sylweddol o dystiolaeth gan y ganolfan**.

### Prosesu ceisiadau

5.3.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran ar derfynau amser, **rhaid** prosesu cais am hyd at 50% o amser ychwanegol gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

| |
|---|
| Bydd *Trefniadau mynediad ar-lein* yn gwrthod ceisiadau am fwy na 25% o amser ychwanegol yn awtomatig. Yna, rhaid i'r ganolfan wneud atgyfeiriad ar-lein i'r corff/cyrff dyfarnu perthnasol gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Caiff pob cais ei ystyried yn ôl anghenion yr ymgeisydd. Mae corff dyfarnu yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth gan y ganolfan a bydd yn disgwyl gweld cyfiawnhad cryf ar gyfer y trefniant. |

5.3.2 **Dim ond** yn yr amgylchiadau eithriadol canlynol y dylid gwneud cais am fwy na 25% a hyd at 50% o amser ychwanegol:

**a) Anawsterau dysgu (yn cynnwys ymgeisydd ag anhawster dysgu y ceir tystiolaeth ohono mewn EHCP (Lloegr) cyfredol, Datganiad o anghenion addysgol arbennig** (Gogledd Iwerddon cyfredol), neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) cyfredol: **Amhariad sylweddol iawn – tystiolaeth o angen**

- Ymgeisydd ag anhawster dysgu sy'n cael effaith andwyol sylweddol iawn a thymor hir ar ei gyflymder gweithio (yn ôl y dystiolaeth fanwl yn Rhan 1 Ffurflen 8).

  **Rhaid** rhoi'r canlyniadau fel sgorau wedi'u safoni. Er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, dim ond sgorau wedi'u safoni sy'n sylweddol iawn yn is na'r cyfartaledd o 69 neu is sy'n dderbyniol.

  **Rhaid** bod gan yr ymgeisydd **ddwy sgôr wedi'i safoni sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd** sy'n ymwneud â **dau faes gwahanol o gyflymder gweithio** fel isod:

  - cyflymder darllen **a** chyflymder ysgrifennu; **neu**
  - cyflymder darllen **a** phrosesu/rhuglder gwybyddol; **neu**
  - cyflymder ysgrifennu **a** phrosesu/rhuglder gwybyddol; **neu**
  - **dau faes gwahanol** o brosesu/rhuglder gwybyddol sy'n cael effaith sylweddol iawn a thymor hir ar gyflymder gweithio.

  **Rhaid** i'r ymgeisydd fod wedi'i asesu gan ddefnyddio fersiynau cyfredol o brofion wedi'u safoni'n genedlaethol a gynhaliwyd **o fewn 26 mis i'r arholiad terfynol** (gweler Pennod 7, adran 7.5). Bydd hyn yn ogystal â darlun cymhellol a sylweddol o angen, sy'n dangos beth yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio, fel y gwelir yn Rhan 1 Ffurflen 8.

  **Ni ellir** trosglwyddo Ffurflen 8 o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch neu gymwysterau Lefel 3 eraill lle mae angen ymgeisydd i gael amser ychwanegol o fwy na 25% (26% i 50%) yn mynd i barhau. **Rhaid** llenwi Ffurflen 8 newydd a **rhaid** ailasesu'r ymgeisydd.

### Pa bryd i ddefnyddio sgôr cyflymder darllen neu gyflymder ysgrifennu

Lle mae ymgeiswyr yn gallu darllen drostyn nhw eu hunain, gellir defnyddio mesur o gyflymder darllen fel un o'r ddwy sgôr ofynnol i gael hyd at 50% o amser ychwanegol. Caiff y canlyniad ei gofnodi yn Rhan 2 Ffurflen 8 'Tystiolaeth am amser ychwanegol, cyflymder Darllen (testun parhaus)'.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn defnyddio darllenydd cyfrifiadur, darllenydd neu ysgrifbin darllen arholiad, **ni ellir** defnyddio mesur o gyflymder darllen fel tystiolaeth ar gyfer amser ychwanegol o hyd at 50%.

Lle bydd ymgeisydd yn ysgrifennu â llaw, gellir defnyddio mesur o gyflymder ysgrifennu fel un o'r ddwy sgôr ofynnol ar gyfer amser ychwanegol o hyd at 50%. Caiff y canlyniad ei gofnodi yn Rhan 2 Ffurflen 8 o dan 'Tystiolaeth am amser ychwanegol, cyflymder Ysgrifennu (testun parhaus)'.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn defnyddio ysgrifennydd, technoleg adnabod llais neu brosesydd geiriau, **ni ellir** defnyddio mesur o gyflymder ysgrifennu fel tystiolaeth ar gyfer amser ychwanegol o hyd at 50%.

Gweler paragraffau 7.5.10 i 7.5.13 am ragor o wybodaeth am sgiliau darllen, sgiliau ysgrifennu a phrosesu gwybyddol.

## b) Cyflwr meddygol, anabledd corfforol, amhariad synhwyrol (amhariad ar y clyw, amhariad ar y golwg neu amhariad amlsynhwyraidd): Amhariad sylweddol iawn – tystiolaeth o angen

Ymgeisydd sydd â chyflwr meddygol sydd wedi derbyn diagnosis ffurfiol gan arbenigwr cofrestredig, anabledd corfforol, amhariad synhwyrol (amhariad ar y clyw, amhariad ar y golwg neu amhariad amlsynhwyraidd) sy'n rhwystro cyflymder gweithio yn sylweddol iawn.

Efallai y bydd angen yr amser ychwanegol hwn am amrywiaeth o resymau. Er enghraifft, gallai gymryd mwy o amser i ymgeisydd sydd ag amhariad amlsynhwyraidd sylweddol iawn ddarllen a phrosesu testun neu gweithio drwy bapur wedi'i addasu a'i fwyhau.

Lle mae ymgeisydd yn gallu darllen papur Braille yn **dda,** bydd cais i gael 50% o amser ychwanegol yn cael ei ystyried fesul achos.

Lle mae ymgeisydd yn gallu defnyddio papur addasedig wedi'i fwyhau yn **dda**, gyda neu heb ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd a/neu ysgrifennydd, bydd cais i gael 50% o amser ychwanegol yn cael ei ystyried fesul achos.

**Rhaid** bod darlun cymhellol a sylweddol o angen, a chadarnhad yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio, fel y gwelir yn Rhan 1 Ffurflen 9.

Er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, **rhaid** i'r CAAA lenwi Ffurflen 9 er mwyn:

- cadarnhau bod gan yr ymgeisydd anawsterau sylweddol a pharhaus iawn wrth gael mynediad at wybodaeth a'i phrosesu, **a'i fod** yn anabl o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010;
- rhoi manylion am anawsterau presennol yr ymgeisydd i ddangos sut maen nhw'n effeithio ar addysgu a dysgu a pherfformiad mewn arholiadau, gan grynhoi tystiolaeth o adborth gan athrawon a/neu staff cefnogi;
- nodi'r uchafswm o amser ychwanegol sydd ei angen, e.e. 40%;

- nodi p’un ai a fydd yr ymgeisydd yn gweithio’n annibynnol gyda phapurau Braille neu bapurau wedi’u haddasu a'u mwyhau;

- nodi p’un ai a fydd yr ymgeisydd yn defnyddio darllenydd cyfrifiadur/darllenydd a/neu ysgrifennydd a/neu brosesydd geiriau;

- cadarnhau mai hyd at 50% o amser ychwanegol yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio.

Fel uchod, bydd gwybodaeth fanwl y CAAA yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth arbenigol yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd:

- llythyr/adroddiad gan CAMHS, seicolegydd sydd wedi cofrestru â HCPC, ymgynghorydd meddygol*, seiciatrydd, a Therapydd Iaith a Lleferydd; **neu**
- llythyr/adroddiad gan Wasanaeth Arbenigol yr Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd yr Awdurdod Lleol neu'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol†; **neu**
- cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (Lloegr) **cyfredol**, Datganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon) **cyfredol** neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) **cyfredol** sy'n cadarnhau cyflwr meddygol, anabledd corfforol, amhariad synhwyrol (amhariad ar y clyw, amhariad ar y golwg neu amhariad amlsynhwyraidd) yr ymgeisydd.

†Er enghraifft, Therapydd Galwedigaethol sy'n arbenigo mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, anabledd dysgu, neu iechyd meddwl.

Rhaid i dystiolaeth arbenigol gadarnhau bod anabledd ar yr ymgeisydd. Fodd bynnag, nid oes angen i'r arbenigwr argymell mwy na 25% o amser ychwanegol yn yr adroddiad a gyflwynir. Gall y dystiolaeth arbenigol
ymwneud ag unrhyw oedran ar yr amod ei bod yn parhau i fod yn gyfredol. Gall y CAAA dderbyn diagnosis meddygol gan arbenigwr priodol sy'n gweithio naill ai yn y GIG neu mewn practis preifat.

Er y gall arbenigwr, e.e. ymgynghorydd meddygol, argymell trefniadau mynediad penodol, **lle'r CAAA yw penderfynu** ar drefniadau arholiadau'r ymgeisydd. Barn broffesiynol y CAAA ydyw sy'n seiliedig ar eu gwybodaeth am anabledd yr ymgeisydd, ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio mewn asesiadau wedi'u hamseru a sylwadau ac arsylwadau'r staff addysgu.

## 5.4 Amser Ychwanegol dros 50%

5.4.1 **Mewn amgylchiadau eithriadol iawn**, gall fod angen mwy na 50% o amser ychwanegol ar ymgeisydd er mwyn ymdopi ag amhariad **sylweddol iawn**.

Er enghraifft, ymgeisydd ag amhariad sylweddol ar y golwg sy'n araf iawn yn darllen papur sydd wedi'i addasu a'i fwyhau neu bapur Braille ac nad yw'n gallu cael mynediad at bapur cwestiynau electronig.

> Bydd *Trefniadau mynediad ar-lein* yn gwrthod ceisiadau am dros 50% o amser ychwanegol yn awtomatig. Yna, rhaid i'r ganolfan wneud atgyfeiriad ar-lein i'r corff/cyrff dyfarnu perthnasol gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Caiff pob cais ei ystyried yn ôl anghenion yr ymgeisydd. Mae corff dyfarnu yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth gan y ganolfan a bydd yn disgwyl gweld cyfiawnhad cryf ar gyfer y trefniant.

Mae'n **rhaid** darparu gwybodaeth fanwl i'r corff dyfarnu perthnasol, gan nodi natur **sylweddol iawn** amhariad yr ymgeisydd a pham nad yw 50% o amser ychwanegol yn ddigon.

Rhaid i'r CAAA lenwi Ffurflen 9 er mwyn:

- cadarnhau bod gan yr ymgeisydd anawsterau sylweddol a pharhaus iawn wrth gael mynediad at wybodaeth a'i phrosesu, **a'i fod** yn anabl o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010;
- rhoi manylion am anawsterau presennol yr ymgeisydd i ddangos sut maen nhw'n effeithio ar addysgu a dysgu a pherfformiad mewn arholiadau, gan grynhoi tystiolaeth o adborth gan athrawon a/neu staff cefnogi;
- nodi'r uchafswm o amser ychwanegol sydd ei angen, e.e. 75%;
- nodi p'un ai a fydd yr ymgeisydd yn gweithio'n annibynnol gyda phapurau Braille neu bapurau wedi'u haddasu a'u mwyhau;
- nodi p'un ai a fydd yr ymgeisydd yn defnyddio darllenydd cyfrifiadur/darllenydd a/neu ysgrifennydd a/neu brosesydd geiriau;
- cadarnhau bod amser ychwanegol o dros 50% yn ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio.

> Mae'n **rhaid** i gyfanswm yr amser ychwanegol y gwneir cais amdano fod yn rhesymol ac yn briodol i anghenion yr ymgeisydd.

> Dylai Cydlynwyr AAA nodi bod amser ychwanegol o dros 100% yn debygol o fod yn wrthgynhyrchiol o ran blinder. Dylid adnabod trefniadau mynediad eraill i wneud y trefniant hwn yn ddiangen, yn arbennig egwyliau gorffwys o dan oruchwyliaeth.

## Enghreifftiau – amser ychwanegol (anawsterau dysgu)

**Ymgeisydd nad yw'n cael amser ychwanegol**

- Er nad oes darlun o angen, nid 25% o amser ychwanegol yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio ac ni ellir cwblhau Rhan 1 Ffurflen 8, bydd myfyriwr TGAU Blwyddyn 11 yn cael ei asesu o hyd. Mae hyn yn nodi bod ei alluoedd gwybyddol sylfaenol o fewn yr ystod uchaf â sgôr o 125. Mae ei sgiliau llythrennedd yn yr ystod cyfartalog a'i sgorau prosesu gwybyddol yn yr ystod 94-96. **Ni ellir** parhau â chais am 25% o amser ychwanegol gan **nad** yw'n bodloni'r meini prawf a gyhoeddwyd.

**Ymgeisydd heb hanes o angen ar gyfer arholiadau TGAU**

- Yn dilyn adborth gan athrawon pwnc yr ymgeisydd yn ystod Blwyddyn 12, mae'r CAAA yn penderfynu treialu a monitro 25% o amser ychwanegol ac yn cofnodi ei effaith a'i ddefnydd. Erbyn mis Mawrth ym Mlwyddyn 13, mae darlun o angen a thystiolaeth o ffordd arferol o weithio wedi'u sefydlu'n gadarn. Mae'r CAAA nawr, ar ôl casglu data drwy gydol y cyfnod monitro, yn gallu cwblhau Rhan 1 Ffurflen 8. Yna mae'r ymgeisydd yn cael ei asesu gan aseswr penodedig y ganolfan sy'n cadarnhau sgorau prosesu gwybyddol/rhuglder yn yr ystod is na'r cyfartaledd (sgorau wedi'u safoni o 80 ac 83). Mae'r CAAA yn prosesu cais ar-lein am 25% o amser ychwanegol,

**Defnyddio tystiolaeth o anawsterau prosesu gwybyddol**

- Caiff myfyriwr TGAU asesiad sy'n cadarnhau bod cof gweithio gwan, is na'r cyfartaledd a chyflymder prosesu ffonolegol is na'r cyfartaledd (sgorau wedi'u safoni o 77 ac 82). Mae ei hathrawon eisoes wedi sylwi ei bod yn araf wrth hel ei meddyliau at ei gilydd i'w rhoi ar bapur, yn enwedig mewn amodau arholiad sy'n cael ei amseru. Maent yn cadarnhau bod angen ailadrodd cyfarwyddiadau llafar ar ei chyfer yn rheolaidd. Hefyd, mae papurau profion dosbarth yn dangos bod ansawdd ei hatebion ysgrifenedig a faint mae'n ei ysgrifennu'n gwella'n sylweddol wrth dderbyn lwfans o 25% o amser ychwanegol. Mae'r CAAA yn prosesu cais ar-lein am 25% o amser ychwanegol ar sail ei dwy sgôr wedi'u safoni is na'r cyfartaledd, fel y'u cofnodwyd ar Ran 2 Ffurflen 8, a **darlun o angen** i'w gofnodi yn Rhan 1 Ffurflen 8.

**Ailasesu ym Mlwyddyn 12 – dwy sgôr wedi'u safoni cyfartaledd isel (85-89)**

- Canfuwyd bod gan fyfyriwr Safon Uwch anawsterau dysgu ym Mlwyddyn 9. Caiff ei ailasesu pan mae'n dechrau yn y Chweched Dosbarth a chanfyddir bod ei gywirdeb darllen a'i sgiliau deall ymhell o fewn yr ystod gyfartalog. Ni fu ei gyflymder ysgrifennu'n broblem erioed, ond derbyniodd rywfaint o amser ychwanegol mewn arholiadau lle bu gofyn darllen yn estynedig yn y gorffennol. Nid yw'r asesiad newydd yn dangos cyflymdra gweithio is na'r cyfartaledd. Maent yn perthyn i'r ystod gyfartalog isel (h.y. 85-89), gydag un mesur prin o fewn yr ystod gyfartalog. Ei gyflymder darllen testunau parhaus yw 89, ei gyflymder darllen geiriau yw 86, ei rwyddineb prosesu ffonolegol yw 91 a'i sgôr am ei gof gweithio yw 88. Mae'r CAAA yn ystyried ei hanes o angen. Defnyddiodd amser ychwanegol yn gyson mewn arholiadau lle mae gofyn darllen yn estynedig ac mae amser estynedig yn cael ei ganiatáu i ddarllen yn y dosbarth. Ar ôl cadw samplau o dystiolaeth, mae'r CAAA yn prosesu cais ar-lein am 25% o amser ychwanegol. Bydd angen atgyfeirio'r cais ar-lein gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* at y corff/cyrff dyfarnu perthnasol.

**Yn enghreifftiau 2, 3 a 4 (fel uchod) byddai gan y CAAA sampl o bapurau prawf a ffug arholiadau mewnol ar draws pynciau perthnasol sy'n dangos y defnydd o 25% o amser ychwanegol a sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol ynghylch pam mae angen 25% o amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut mae'n defnyddio'r 25% o amser ychwanegol a roddwyd.**

**Ymgeisydd sydd ag amhariad ar y golwg sy'n defnyddio papurau Braille**

- Mae ymgeisydd dall yn defnyddio papurau Braille. Mae llawer o destun i'w ddarllen mewn arholiadau TGAU Hanes ac mae llawer o ddiagramau a thablau mewn arholiadau TGAU Gwyddoniaeth. Mae amhariad ar olwg yr ymgeisydd yn amharu'n sylweddol iawn ar ei gyflymder gweithio.

  Mae'r CAAA yn prosesu cais am gynorthwyydd ymarferol, darllenydd (er mwyn cynorthwyo'r ymgeisydd mewn arholiadau sy'n cynnwys diagramau, graffiau a thablau) a 100% o amser ychwanegol. Mae'r system ar-lein yn gwrthod y cais yn awtomatig. Mae'r CAAA yn cyfeirio'r cais ar-lein i'r cyrff dyfarnu perthnasol.

  Bydd y cyrff dyfarnu yn ystyried y cais yng ngoleuni anghenion penodol yr ymgeisydd.

**Ymgeisydd sydd ag amhariad ar ei olwg sy'n defnyddio papurau wedi'u haddasu a'u mwyhau**

- Mae ymgeisydd sydd ag amhariad ar ei olwg yn defnyddio maint print sy'n fwy na fformatau'r papurau sydd wedi'u haddasu a'u mwyhau. Mae ei ffordd arferol o weithio yn golygu mwyhau deunydd wedi'i sganio ar liniadur er mwyn ei ddarllen. Mae'r CAAA yn archebu papurau A4 wedi'u haddasu a'u mwyhau sydd â phrint trwm 18 pwynt mewn fformat electronig nad yw'n rhyngweithiol (PDF) y bydd yr ymgeisydd yn ei fwyhau ar sgrin. Bydd angen 50% o amser ychwanegol hefyd ar yr ymgeisydd oherwydd bod y amhariad ar ei golwg yn amharu'n sylweddol iawn ar ei chyflymder gweithio.

  Mae'r CAAA yn prosesu cais am 50% o amser ychwanegol sy'n cael ei wrthod yn awtomatig gan y system ar-lein. Mae'r CAAA yn cyfeirio'r cais ar-lein at y cyrff dyfarnu perthnasol a fydd yn ystyried y cais ar sail anghenion yr ymgeisydd.

**Ymgeisydd sydd ag atal dweud**

- Ni all ymgeisydd TGAU Blwyddyn 11 sy'n atal dweud ateb y cwestiynau yn ei asesiad TGAU Siarad Sbaeneg o fewn yr amser a ganiateir. Cymryd llawer mwy o amser i siarad yw ei ffordd arferol o weithio. Mae'n atal dweud hyd yn oed yn fwy pan fydd terfyn amser llym ar gyfer tasg siarad neu pan gaiff ei farnu yn ôl ei eiriau. Mae hefyd yn atal dweud mwy ar eiriau y mae angen iddo eu dweud ar alw, fel geirfa arholiad allweddol.

  Mae'r CAAA yn cwblhau Ffurflen 9 yn cadarnhau bod 100% o amser ychwanegol wedi'i roi yn ei ffug asesiad TGAU Sbaeneg diweddar yn ogystal â rhoi adborth gan ei athro Sbaeneg. Mae'r CAAA yn gofyn am 100% o amser ychwanegol i roi'r amser sydd ei angen ar yr ymgeisydd i weithio drwy ei asesiad Siarad TGAU Sbaeneg, gan y bydd bob amser yn atal dweud yn ystod yr asesiad.

  Bydd cais ar-lein am 100% o amser ychwanegol yn cael ei wrthod yn awtomatig gan y system ar-lein. Mae'r CAAA yn cyfeirio'r cais at y corff dyfarnu perthnasol a fydd yn ystyried y cais ar sail anghenion yr ymgeisydd.

## 5.5 Darllenydd/Darllenydd cyfrifiadur

### Prosesu ceisiadau

5.5.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran ar derfynau amser, **rhaid** prosesu cais am ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. **Rhaid** i dystiolaeth briodol o angen fod ar gael yn y ganolfan i'w harolygu (gweler paragraff 5.5.5).

Gall ymgeisydd sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur/cyfrifiadur.

I ymgeisydd sydd ag anawsterau darllen, mae'n bosibl y bydd darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu iddo ddangos ei gyrhaeddiad yn fwy effeithiol ac annibynnol nag a fyddai'n bosibl gyda darllenydd. Fodd bynnag, **rhaid** i ddarllenydd cyfrifiadur fod yn briodol i anghenion yr ymgeisydd. **Rhaid** bod digon o amser a hyfforddiant i sicrhau bod yr ymgeisydd yn gallu defnyddio darllenydd cyfrifiadur yn effeithiol.

### Darllenydd cyfrifiadur

5.5.2 Gellir defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol sy'n darllen testun yn uchel, (gan gynnwys meddalwedd lleferydd synthetig ar ffon gof) ond **nad yw**'n ei ddadgodio nac yn ei ddadansoddi fel darllenydd cyfrifiadur.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau **nad yw'r** cyfrifiadur a ddefnyddiwyd yn cynnwys unrhyw feddalwedd y gallai'r ymgeisydd ei ddefnyddio ac y gallai fod o gymorth gyda'r arholiad.
**Efallai y bydd methu â gwneud hyn yn cael ei ystyried yn gamymddwyn.**

Caniateir darllenydd cyfrifiadur mewn papurau (neu adrannau o bapurau) sy'n profi darllen.

Mewn achosion lle nad yw ddarllenydd cyfrifiadur yn gallu adnabod gair ac felly ddarllen gair unigol, caniateir i ddarllenydd dynol ddarllen y gair yn uchel i'r ymgeisydd.

Os cymeradwyir cais am ddarllenydd cyfrifiadur, caniateir i'r ganolfan agor y pecyn papurau cwestiynau **yn yr ystafell ddiogel** hyd at 90 munud cyn amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad. Caniateir hyn yn benodol er mwyn sganio copi caled o'r papur cwestiynau i fformat PDF. **Mae'n bosibl y bydd torri ar hyn mewn unrhyw ffordd yn cael ei ystyried yn gamymddwyn.**

Fodd bynnag, os cymeradwyir cais am ddarllenydd cyfrifiadur, argymhellir yn gryf y dylai'r ganolfan ddefnyddio papur cwestiynau electronig nad yw'n rhyngweithiol (gweler Pennod 6, adran 6.7).

### Darllenydd

5.5.3 Mae darllenydd yn oedolyn priodol a chyfrifol sy'n darllen cyfarwyddiadau'r papur cwestiynau a'r cwestiynau i'r ymgeisydd. Gallai hyn gynnwys darllen y papur cyfan i'r ymgeisydd neu efallai mai dim ond ychydig eiriau y bydd yr ymgeisydd am iddo eu darllen. (Gweler y rheolau – defnyddio darllenydd yn yr adran hon.)

5.5.4 **Nid** yw darllenydd yn gynorthwyydd ymarferol, anogwr, ysgrifennydd nac yn Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion. Gall yr un person weithredu fel cynorthwyydd ymarferol, anogwr, darllenydd, ysgrifennydd a/neu Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion os rhoddwyd caniatâd ar gyfer y trefniadau hyn (lle bo angen). Rhaid cadw'n gaeth at reoliadau defnyddio pob trefniant.

## Mathau o anabledd neu anghenion mynediad

- Anghenion gwybyddiaeth a dysgu (anawsterau dysgu)
- Anghenion cyfathrebu a rhyngweithio;
- Saesneg fel iaith ychwanegol
- Anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol
- Anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (e.e. ADCG)
- Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)

## Tystiolaeth o angen ar gyfer pob math o anabledd/anghenion mynediad

5.5.5 **Rhaid** i'r CAAA gynhyrchu datganiad yn cadarnhau natur amhariad yr ymgeisydd a bod y defnydd o ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd yn adlewyrchu **ei ffordd arferol a phresennol o weithio yn y ganolfan**.

**Rhaid** i'r CAAA fod wedi'i fodloni bod gwir angen i'r ymgeisydd gael darllenydd cyfrifiadur/darllenydd oherwydd ei sgiliau darllen gwael. Nid oes angen samplau o dystiolaeth at ddibenion archwilio.

| Mathau o anabledd neu anghenion mynediad | Tystiolaeth o angen |
|---|---|
| Anawsterau dysgu, lle **nad** yw ymgeisydd yn destun Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal, Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (Gogledd Iwerddon) neu Gynllun Datblygiad Personol (Cymru) a bod angen darllenydd cyfrifiadur/darllenydd arno yn ychwanegol at amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd. | Rhan 1, Ffurflen 8, yn cadarnhau anawsterau dysgu'r ymgeisydd ac yn nodi bod defnyddio darllenydd cyfrifiadur/darllenydd yn adlewyrchu **ffordd arferol a chyfredol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan.**<br>**Nid oes** angen sgorau wedi'u safoni ar gyfer darllenydd cyfrifiadur/darllenydd. |
| **Pan fydd ymgeisydd yn symud ymlaen o gymwysterau TGAU i TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill** ac yn parhau i fod angen darllenydd cyfrifiadur/darllenydd yn ogystal â 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd, gall y Ffurflen 8 gael ei throsglwyddo. **Rhaid** i'r CAAA gwblhau Ffurflen 8. | Byddai Ffurflen 8RF wedi'i llenwi gan y CAAA, yn cael ei chysylltu â Ffurflen 8 yn cadarnhau natur amhariad yr ymgeisydd a bod y defnydd o ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd yn parhau i adlewyrchu **ffordd arferol a phresennol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan.**<br>**Noder** Rhaid i Ffurflen 8RF hefyd roi manylion y dystiolaeth wedi'i diweddaru gan y ganolfan ar gyfer 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd. |
| Anawsterau dysgu, lle mae **angen darllenydd cyfrifiadur/darllenydd ar yr ymgeisydd ond nad oes angen amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd ar yr unigolyn.**<br>**neu**<br>• Anghenion cyfathrebu a rhyngweithio<br>• Saesneg fel iaith ychwanegol<br>• Cyflwr meddygol (sydd wedi derbyn diagnosis ffurfiol gan arbenigwr cofrestredig) | Ffurflen 9 wedi'i chwblhau gan y CAAA, yn cadarnhau natur amhariad yr ymgeisydd a bod y defnydd o ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd yn adlewyrchu **ffordd arferol a phresennol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan.**<br>**Nid oes** angen sgorau wedi'u safoni ar gyfer darllenydd cyfrifiadur/darllenydd. |

| | |
|---|---|
| • Anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol<br>• Anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl<br>• Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu | Pan fo'r ymgeisydd **angen darllenydd/darllenydd cyfrifiadur ond nid oes angen amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd**, **nid** oes angen tystiolaeth arbenigol, fel EHCP neu ddiagnosis ffurfiol o gyflwr meddygol, **at ddibenion arolygu.** |

**Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)**

Ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad, **rhaid** i'r CAAA bennu'r angen am ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd ar sail sut mae'r ymgeisydd yn gweithio fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

**Ni** chaniateir darllenydd yng nghydran Darllen Tystysgrif Lefel Mynediad Saesneg. Gellir defnyddio darllenydd cyfrifiadur yng nghydran Darllen Tystysgrif Lefel Mynediad Saesneg lle mai hynny yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan.

Gellir caniatáu hyd at 50% o amser ychwanegol i ymgeisydd a fyddai fel arfer yn gymwys i gael darllenydd, ond **nad** yw'r trefniant hwn ar gael iddo.

Dylid **bob amser** ystyried yr angen am 25% o amser ychwanegol ochr yn ochr â defnyddio darllenydd cyfrifiadur/darllenydd. Os bydd angen 25% o amser ychwanegol ar yr ymgeisydd, **rhaid** iddo fodloni'r meini prawf cyhoeddedig. **Rhaid** i'r dystiolaeth sydd ei hangen fod ar gael i gefnogi cais ar-lein am 25% o amser ychwanegol.

### Papurau (neu rannau o bapurau) sy'n profi darllen

5.5.6 Caniateir darllenydd cyfrifiadur mewn papurau (neu rannau o bapurau) sy'n profi darllen.

Mae darllenydd cyfrifiadur yn drefniant derbyniol gan ei fod yn caniatáu i'r ymgeisydd gwrdd yn annibynnol â gofynion y safonau darllen.
(Gweler y tabl Caniatâd yn yr adran hon ar y defnydd o ddarllenwyr cyfrifiadur/darllenwyr mewn cymwysterau TGAU a TAG UG a Safon Uwch.)

5.5.7 **Ni** chaniateir darllenydd i ddarllen cwestiynau neu destun mewn papurau (neu rannau o bapurau) sy'n profi darllen.

Gall ymgeisydd a fyddai fel arfer yn gymwys am ddarllenydd ond na chaniateir y trefniant hwn iddo mewn papur (neu ran o bapur) sy'n profi darllen, er enghraifft, ymgeisydd byddar nad yw'n gallu cael mynediad gorau posibl at sain darllenydd cyfrifiadur, gael amser ychwanegol o hyd at 50%. (Lle mae ymgeisydd yn defnyddio darllenydd cyfrifiadur neu ysgrifbin darllen arholiad, **ni** all y CAAA ganiatáu hyd at uchafswm o 50% o amser ychwanegol.)

Bydd cais wedi'i gymeradwyo am ddarllenydd yn caniatáu i'r CAAA roi hyd at 50% o amser ychwanegol i ymgeisydd mewn papur (neu ran o bapur) sy'n profi darllen. Lle mae darllen ac ysgrifennu yn cael eu hasesu yn yr un papur, **dim ond** i'r adran ddarllen y dylid dyrannu'r lwfans uchaf o 50% o amser ychwanegol.

Dylai canolfannau gyfrifo cyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarllen yn seiliedig ar nifer y marciau a ddyrennir i'r cwestiynau darllen ac adio hyd at uchafswm o 50% i'r amser hwnnw. Efallai y bydd angen ceisio cyngor gan y corff dyfarnu perthnasol.

Mewn papur (neu adran o bapur) sy'n profi darllen, gall darllenydd ddarllen yn ôl, ar gais, yr hyn y mae'r ymgeisydd wedi'i ysgrifennu heb roi unrhyw bwyslais ar gamgymeriadau. Fel arall, gall yr ymgeisydd ddarllen ei atebion yn uchel.

5.5.8 Byddai darllenydd yn dod â'i ddehongliad ei hun i ddisgrifiad o ddiagram. Gallai hyn effeithio ar ymateb ymgeisydd a chyfaddawdu dibynadwyedd y cymhwyster. Dylai darllenydd ddim ond helpu ymgeisydd ag amhariad ar ei olwg i adalw gwybodaeth a geir mewn diagramau, graffiau, mapiau a thablau mewn ymateb i gais gan yr ymgeisydd.

### Ffactorau y mae'n rhaid i'r ganolfan eu hystyried

5.5.9 Y ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau na all ymgeiswyr eraill glywed yr hyn mae'r ymgeisydd a'r darllenydd yn ei ddweud, ac nad yw eu presenoldeb yn amharu ar ymgeiswyr eraill. (Bydd hyn hefyd yn berthnasol os yw ymgeisydd yn defnyddio darllenydd cyfrifiadur).

Os yw'r ymgeisydd a'r darllenydd yn cael eu lleoli mewn ystafell arall, ar sail **un i un**, **ni all** y darllenydd weithredu fel goruchwyliwr hefyd os yw'n athro pwnc, Cynorthwyydd Cefnogaeth Dysgu neu gynorthwyydd addysgu i'r ymgeisydd.

5.5.10 Gall darllenwyr weithio gyda mwy nag un ymgeisydd, ond **rhaid iddo beidio** darllen yr un papur i grŵp o ymgeiswyr ar yr un pryd, gan fod hyn yn gorfodi amseru'r papur ar yr ymgeiswyr.

Gall tri neu bedwar ymgeisydd rannu un darllenydd. Bydd angen i bob ymgeisydd godi ei law neu ddefnyddio cerdyn ysgogi pan fydd am gael help gyda'r darllen. Os rhoddir y grŵp mewn ystafell arall, i ffwrdd o'r brif ystafell arholi, bydd angen goruchwyliwr ar wahân.

**Rhaid** i bob ymgeisydd yn y grŵp fodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer darllenydd gyda chais ar-lein wedi'i gymeradwyo.

Lle mae angen i ymgeiswyr ddarllen geiriau neu ymadroddion achlysurol yn unig, gallant ddefnyddio ysgrifbin darllen arholiad (gweler adran 5.6).

## Y rheolau – defnyddio darllenydd

- **gall** helpu ymgeisydd ag amhariad ar ei olwg i adalw gwybodaeth a geir mewn diagramau, graffiau, mapiau a thablau fel bod ganddo fynediad at yr un wybodaeth weledol ag ymgeisydd sy'n gallu gweld. **Rhaid** i'r ymgeisydd nodi'n glir pa gymorth sydd ei angen arno;

- **gall** ddarllen rhifau wedi eu hargraffu mewn ffigurau fel geiriau (e.e. byddai 356 yn cael ei ddarllen fel tri chant pum deg a chwech, ond dylid pwyntio at y rhif ar y papur cwestiynau wrth ei ddarllen).
Eithriad i hynny fyddai pan mae'r cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr ysgrifennu rhif mewn geiriau (e.e. ysgrifennwch y rhif 356 mewn geiriau);

- **gall** ddadgodio symbolau a thalfyriadau uned mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth i ymgeiswyr sydd angen y trefniant hwn er mwyn cael eu hasesu, gan adlewyrchu eu ffordd arferol a chyfredol o weithio yn y ganolfan;

- **gall** y darllenydd, ar gais, sillafu gair sy'n ymddangos ar y papur ond fel arall **ni ddylid** sillafu geiriau;

- **gall** y darllenydd, ar gais, ddarllen yn ôl yr hyn a ysgrifennwyd gan yr ymgeisydd heb roi pwyslais ar unrhyw wallau;

- **rhaid** i ddarllenydd ddarllen yn gywir;

- **rhaid** meddu ar wybodaeth briodol am y pwnc er mwyn gweithredu'n effeithiol fel darllenydd mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth, a datgodio symbolau a fformiwlâu yn gywir;

- **rhaid** i ddarllenydd **ddarllen** cyfarwyddiadau'r papur(au) cwestiynau a'r cwestiynau a rhaid iddo beidio ag esbonio nac egluro;

- **rhaid** i'r darllenydd beidio ailadrodd y cyfarwyddiadau a roddir ar y papur cwestiynau neu gwestiynau ond pan fydd yr ymgeisydd yn nodi bod angen cymorth arno;

- **rhaid** i'r darllenydd ddarllen cyfarwyddiadau/cyfarwyddyd papur sy'n profi darllen yn unig ac **ni ddylai** ddarllen cwestiynau unigol na thestun;

- **rhaid cadw at y rheoliadau gan y gall methiant i wneud hynny arwain at ddiarddel yr ymgeisydd;**

- **ni ddylai'r** darllenydd roi cyngor i'r ymgeisydd o ran pa gwestiynau i'w cwblhau, pryd i symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf, nac ym mha drefn y dylid ateb y cwestiynau;

- **ni ddylai** ddadgodio unrhyw symbolau mewn arholiad Cerddoriaeth.

Mae awgrym ar gyfer cymorth cof i ddarllenydd ar gael yn Atodiad 1.

## Cofiwch

**Ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad** lle defnyddir darllenydd, rhaid llwytho Ffurflen 13 i lawr o'r Porth Gweinyddu Canolfannau. Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

**Rhaid** rhoi Ffurflen 13 y tu mewn i sgript yr ymgeisydd.

## Enghreifftiau – Darllenwyr cyfrifiadur a Darllenwyr

- Caniateir i ymgeisydd sydd ar y sbectrwm awtistig ag **anawsterau darllen sylweddol a thymor hir** gael help darllenydd. Mae'n clywed y geiriau a ddarllenir gan y darllenydd ond ni all ddeall y cwestiwn. Mae'n gofyn i'r darllenydd esbonio. Mae'r darllenydd yn ailddarllen y cwestiwn ond nid yw'n cael cynnig unrhyw esboniad. **Gall darllenydd ond darllen y testun ac nid ei esbonio.**

- Mae ymgeisydd ag amhariad ar y golwg sylweddol a thymor hir yn gofyn am bapur A4 wedi'i addasu â phrint wedi'i fwyhau i 24 pwynt, ac mae'r CAAA yn ei archebu. Gan fod ei gyflwr yn un sy'n dirywio, mae wedi bod yn defnyddio tabled gyda meddalwedd darllen cyfrifiadur (darllenydd cyfrifiadur). Mae'r CAAA yn prosesu cais am ddarllenydd cyfrifiadur sy'n cael ei gymeradwyo gan y *Trefniadau mynediad ar-lein*. Caniateir iddo gael darllenydd cyfrifiadur yn ei arholiadau, gan gynnwys y rhai sy'n profi darllen.

- Mae gan ymgeisydd, sy'n fyddar ers ei eni, oedi o ran datblygiad iaith cysylltiedig. Dangosir hyn yn rhannol gan **anawsterau sylweddol a pharhaus** wrth ddeall iaith gymhleth. Mae ei hoedran darllen wedi bod yn gyson is nag oedran darllen ei chyfoedion sy'n gallu clywed. Mae hi dan **anfantais sylweddol.** Mae'n cael cefnogaeth reolaidd i ddarllen yn y dosbarth ac mae adnoddau addysgu'n cael eu haddasu gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu. Mae ganddi hefyd anawsterau ymddygiadol yn yr ysgol. Caniateir iddi gael darllenydd cyfrifiadur ym mhob arholiad, oni bai am y rhai sy'n profi darllen. Bydd defnyddio darllenydd yn cael gwared â'i **hanfantais sylweddol**. (Nid yw darllenydd cyfrifiadur yn briodol i'w anghenion oherwydd ei bod yn dibynnu ar ddarllen gwefusau.) Mewn papur (neu adran o bapur) sy'n profi darllen, bydd y CAAA yn rhoi 50% o amser ychwanegol gyda'r ymgeisydd yn darllen yn uchel.

- Mae gan ymgeisydd ag Anghenion Iaith a Lleferydd anhwylder iaith gymhleth. Mae'n cael **anawsterau sylweddol a pharhaus** wrth alw brawddegau i gof. Gan y bydd hyn yn cael **effaith andwyol a sylweddol** ar y cyflymder y bydd yn gallu prosesu gwybodaeth lafar, caniateir darllenydd iddo.

- Mae ymgeisydd ag ADHD yn cael defnyddio gliniadur â meddalwedd darllen cyfrifiadur (darllenydd cyfrifiadur) ym mhob pwnc, gan gynnwys y rhai sy'n profi darllen, gan fod hyn yn adlewyrchu ei ffordd arferol o weithio yn y ganolfan ers Blwyddyn 7. Gall y CAAA lunio datganiad gan ddefnyddio Ffurflen 9 yn cadarnhau natur amhariad yr ymgeisydd a bod y defnydd o ddarllenydd cyfrifiadur yn adlewyrchu ei **ffordd arferol a phresennol o weithio yn y ganolfan**.

- Mae angen cyfuniad o addasiadau rhesymol ar ymgeisydd dall mewn arholiadau Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach. Mae'r ganolfan yn archebu papurau Braille a diagramau cyffyrddol. Mae cais am gynorthwyydd ymarferol, darllenydd ac ysgrifennydd yn cael ei gymeradwyo gan y corff dyfarnu ar ôl cael ei wrthod yn awtomatig gan y system ar-lein. Bydd y darllenydd yn galluogi'r ymgeisydd i adnabod y diagramau'n gywir. Bydd y cynorthwyydd ymarferol yn tywys llaw'r ymgeisydd o dan gyfarwyddyd at y graffiau cyffyrddol. Bydd yr ysgrifennydd yn tynnu llinell syth rhwng y pwyntiau y mae'r ymgeisydd wedi'u plotio'n annibynnol ar y graffiau cyffyrddol. Bydd yr un person yn gweithredu fel darllenydd, ysgrifennydd a chynorthwyydd ymarferol. Dylai'r oedolyn cefnogol fod yn gyfarwydd â'r pwnc sy'n cael ei arholi a ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio.

- Mae ymgeisydd yn astudio am dri chymhwyster Safon Uwch (Bioleg, Cemeg a Ffiseg). Mae ganddi **anghenion dysgu cymhleth** – ASD, Dyslecsia a Dyspracsia. Mae gan yr ymgeisydd Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal **cyfredol** ac mae wedi bod yn derbyn cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth ers Blwyddyn 7. Ei ffordd arferol o weithio yw darllenydd a 25% o amser ychwanegol (gan fod ganddi **anawsterau sylweddol a pharhaus** wrth ddilyn y darllenydd oherwydd **anawsterau iaith a geirfa sylweddol**). Mae'r CAAA yn prosesu cais ar-lein am ddarllenydd oherwydd heb y trefniant hwn byddai'r ymgeisydd o dan **anfantais sylweddol** – gallai cael gwared â'r darllenydd achosi adwaith andwyol difrifol. Gall y CAAA gynhyrchu darlun o'r angen am ddarllenydd gan ddefnyddio Ffurflen 9 (gweler paragraff 5.5.5).

- Mae ymgeisydd sydd ag amhariad ar ei olwg yn gofyn i'r darllenydd a oes gan siâp heb ei labelu ar ddiagram bum ochr ac ai pentagon yw'r siâp. Gall y darllenydd nodi sawl ochr sydd gan y siâp ond **ni all** gadarnhau ei fod yn bentagon. Gall darllenydd ond helpu i adalw gwybodaeth weledol y mae gan ymgeiswyr sy'n gallu gweld fynediad ato.

- Daeth myfyriwr 16 mlwydd oed o ddwyrain Ukrain i'r DU ym mis Mehefin 2022 dan y cynllun nawdd Ukrain y DU. Mae'n byw gyda'i fam a'i chwaer yng nghartref teulu lleol. Ukraineg yw ei iaith gyntaf, Rwsieg yw ei ail iaith ac yn yr iaith honno yr oedd ei addysg nôl yn Ukrain. Astudiodd Saesneg yn yr ysgol ers iddo fod yn 12 oed. Mae'r Saesneg llafar sylfaenol oedd ganddo pan gyrhaeddodd y DU wedi gwella'n sylweddol gan ei fod yn siarad Saesneg gyda'r teulu y mae'n byw gyda nhw, a hefyd â'i gyfoedion ac athrawon yn yr ysgol. Mae ysgrifennu Saesneg wedi bod yn anodd iddo, yn rhannol oherwydd bod angen symud o'r wyddor Gyrilig i'r wyddor Ladin. Mae darllen yn Saesneg yn her iddo ac mae'n deall llawer mwy pan fydd yn gwrando ar rywun yn darllen testun yn uchel ac yntau'n dilyn yr un testun wedi'i argraffu ar y dudalen. Ar ôl ymgynghori ag athrawon, mae'r cydlynydd trefniadau mynediad yn penderfynu cyflwyno cais iddo ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur yn ei arholiadau.

**Tabl caniatâd i ddefnyddio darllenwyr a darllenwyr cyfrifiadur mewn** cymwysterau Sgiliau Gweithredol Saesneg, TGAU a TAG

| | Y Sefyllfa Bresennol | | Rhesymeg dros y sefyllfa ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|
| **Cymhwyster** | **Rhaid i'r ymgeisydd ddarllen** drosto'i hun | **Caniateir darllenydd** | |
| Safon Uwch Saesneg Iaith | Nac ydy | Ydy | Ar gyfer Safon Uwch Saesneg Iaith, mae 'darllen' yn ei hanfod yn un o'r gofynion ar gyfer deall y testun. Byddai darllenydd neu ddarllenydd cyfrifiadur yn cael ei ganiatáu er mwyn cefnogi'r ymgeisydd i ddeall y testun. |
| **Safon Uwch Llenyddiaeth Saesneg** | Nac ydy | Ydy | Ymateb yr ymgeisydd i lenyddiaeth a thestunau sy'n cael ei asesu, yn hytrach na darllen. Byddai darllenydd neu ddarllenydd cyfrifiadur yn cael ei ganiatáu er mwyn cefnogi'r ymgeisydd i ddeall y testun. |
| **Safon Uwch Iaith a Llenyddiaeth Saesneg** | Nac ydy | Ydy | Mae'r un peth yn wir am Safon Uwch Saesneg Iaith neu Safon Uwch Llenyddiaeth Saesneg. Byddai darllenydd neu ddarllenydd cyfrifiadur yn cael ei ganiatáu er mwyn cefnogi'r ymgeisydd i ddeall y testun. |
| **Safon Uwch Cymraeg** | Nac ydy | Ydy | Mae Safon Uwch Cymraeg yn gyfuniad o gydrannau Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg. Er bod darllen yn ofyniad, erbyn y lefel hon (mewn iaith gyntaf) tybir bod dysgwyr wedi camu y tu hwnt i gymryd ystyr o'r dudalen o destun. Byddai darllenydd neu ddarllenydd cyfrifiadur yn cael ei ganiatáu. |
| **Safon Uwch Cymraeg ail iaith** | Oes, mewn cydrannau sy'n asesu darllen | Gwneir, heblaw am y cydrannau sy'n asesu darllen | Mae amcanion asesu Cymraeg ail iaith yn dangos bod rhaid i ddysgwyr 'ddarllen' a dangos dealltwriaeth o'r iaith ysgrifenedig. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol cymryd ystyr o'r dudalen o destun neu Braille. **Ni** fyddai darllenwyr yn cael eu caniatáu am gydrannau sy'n asesu darllen.<br><br>**DS** Gall ymgeisydd fodd bynnag ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur mewn cydrannau sy'n asesu darllen. Mae darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu i ymgeisydd fodloni gofynion y safonau darllen yn annibynnol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Manylebau Safon Uwch ieithoedd tramor modern | Oes, mewn papurau darllen ITM | Gwneir, heblaw am y papurau darllen ITM | Mae’r amcanion asesu yn dangos bod rhaid i ddysgwyr 'ddeall ac ymateb, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i iaith ysgrifenedig' (AA2). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol cymryd ystyr o’r dudalen o destun neu Braille. Mae'n dderbyniol defnyddio darllenydd i ddarllen y cyfarwyddyd Saesneg Iaith. Fodd bynnag, **ni** fyddai darllenwyr yn cael caniatâd i ddarllen yr Iaith Dramor Fodern berthynol gan y byddai'n newid y dasg yn dasg wrando.<br><br>**DS** Gall ymgeisydd fodd bynnag ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur, os ydynt ar gael, mewn papur Darllen ITM. Mae darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu i ymgeisydd fodloni gofynion y safonau darllen yn annibynnol. |
| **TGAU Saesneg Iaith** | Oes, yn adran y papur sy’n asesu darllen | Gwneir, heblaw am adran y papur sy’n asesu darllen | Mae amcanion asesu TGAU Saesneg Iaith yn dangos bod rhaid i ddysgwyr 'ddarllen' a dangos dealltwriaeth o’r iaith ysgrifenedig. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol cymryd ystyr o’r dudalen o destun neu Braille. **Ni** fyddai darllenwyr yn cael eu caniatáu am gydrannau sy’n asesu darllen.<br><br>**DS** Gall ymgeisydd fodd bynnag ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur yn y rhan o'r papur sy'n asesu darllen. Mae darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu i ymgeisydd fodloni gofynion y safonau darllen yn annibynnol. |
| **TGAU Llenyddiaeth Saesneg** | Nac ydy | Ydy | Nid oes asesiad darllen yn y TGAU Llenyddiaeth Saesneg. Byddai darllenydd neu ddarllenydd cyfrifiadur yn cael ei ganiatáu. |
| **TGAU Cymraeg iaith gyntaf** | Oes, mewn cydrannau sy’n asesu darllen | Gwneir, heblaw am y cydrannau sy’n asesu darllen | Mae TGAU Cymraeg yn gofyn bod dysgwyr yn darllen ac yn dangos dealltwriaeth o’r iaith ysgrifenedig, gan gymryd ystyr o’r dudalen o destun neu Braille. **Ni** fyddai darllenwyr yn cael eu caniatáu am gydrannau sy’n asesu darllen.<br><br>**DS** Gall ymgeisydd fodd bynnag ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur mewn cydrannau sy'n asesu darllen. Mae darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu i ymgeisydd fodloni gofynion y safonau darllen yn annibynnol. |
| **TGAU Llenyddiaeth Gymraeg** | Nac ydy | Ydy | Mewn TGAU Llenyddiaeth Gymraeg mae’n ofynnol bod ymgeiswyr yn tynnu’r ystyr llenyddol. Byddai darllenydd neu ddarllenydd cyfrifiadur yn cael ei ganiatáu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TGAU Cymraeg Ail Iaith** | Oes, mewn cydrannau sy'n asesu darllen | Gwneir, heblaw am y cydrannau sy'n asesu darllen | Mae amcanion asesu TGAU Cymraeg ail iaith yn dangos bod rhaid i ddysgwyr 'ddarllen' a dangos dealltwriaeth o'r iaith ysgrifenedig. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol cymryd ystyr o'r dudalen o destun neu Braille. **Ni** fyddai darllenwyr yn cael eu caniatáu am gydrannau sy'n asesu darllen.<br><br>**DS** Gall ymgeisydd fodd bynnag ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur mewn cydrannau sy'n asesu darllen. Mae darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu i ymgeisydd fodloni gofynion y safonau darllen yn annibynnol. |
| **Manylebau TGAU Ieithoedd Tramor Modern** | Oes, mewn papurau darllen ITM | Gwneir, heblaw am y papurau darllen ITM | Fel gyda Safon Uwch Ieithoedd Tramor Modern, mae'r amcanion asesu yn dangos bod rhaid i ddysgwyr 'ddeall iaith ysgrifenedig'. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol cymryd ystyr o'r dudalen o destun neu Braille. **Ni** fyddai darllenydd yn cael ei ganiatáu gan y byddai'n newid y dasg hon yn dasg wrando.<br><br>**DS** Gall ymgeisydd fodd bynnag ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur, os ydynt ar gael, mewn papur Darllen ITM. Mae darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu i ymgeisydd fodloni gofynion y safonau darllen yn annibynnol. |
| **Sgiliau Hanfodol (Gogledd Iwerddon) Cyfathrebu (Lefelau 1 a 2) Papur darllen ac ysgrifennu** | Oes, mewn cydrannau sy'n asesu darllen | Gwneir, heblaw am y cydrannau sy'n asesu darllen | Diffinnir darllen fel datgodio a deall iaith ysgrifenedig yn annibynnol. **Ni** fyddai darllenwyr yn cael eu caniatáu am gydrannau sy'n asesu darllen.<br><br>**DS** Gall ymgeisydd fodd bynnag ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur. Mae darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu i ymgeisydd fodloni gofynion y safonau darllen yn annibynnol. |
| **Sgiliau Hanfodol (Cymru) Cyfathrebu** | Oes, mewn cydrannau sy'n asesu darllen | Gwneir, heblaw am y cydrannau sy'n asesu darllen | Diffinnir darllen fel datgodio a deall iaith ysgrifenedig yn annibynnol. **Ni** fyddai darllenwyr yn cael eu caniatáu am gydrannau sy'n asesu darllen.<br><br>**DS** Gall ymgeisydd fodd bynnag ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur. Mae darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu i ymgeisydd fodloni gofynion y safonau darllen yn annibynnol. |
| **Sgiliau Gweithredol Saesneg (pob lefel)** | Ie, yn y papur Darllen | Ie heblaw yn y papur Darllen | Caiff 'Darllen' o fewn cymwysterau Sgiliau Gweithredol Saesneg ei ddiffinio fel dealltwriaeth annibynnol o iaith ysgrifenedig mewn cyd-destunau penodol. Gellir dangos hyn drwy ddefnyddio testunau ar sgrin neu ar bapur. **Ni** fyddai darllenwyr yn cael eu caniatáu am gydrannau sy'n asesu darllen.<br><br>**DS** Gall ymgeisydd fodd bynnag ddefnyddio darllenydd cyfrifiadur yn y papur Darllen. Mae darllenydd cyfrifiadur yn caniatáu i ymgeisydd fodloni gofynion y safonau darllen yn annibynnol. |

## 5.6 Darllen yn uchel a/neu ddefnyddio ysgrifbin darllen arholiad

Nid oes gofyniad i brosesu cais ar gyfer darllen yn uchel a/neu ddefnyddio ysgrifbin darllen arholiad gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Nid oes angen tystiolaeth i gefnogi'r trefniant at ddibenion arolygu.

### Darllen yn uchel

5.6.1 Gall darllen yn uchel wneud gwahaniaeth sylweddol i ymgeisydd sy'n cael trafferth deall yr hyn y mae wedi'i ddarllen. Pan fydd ymgeisydd yn darllen testun anodd, efallai y bydd yn gweithio'n fwy effeithiol os gall glywed ei hun yn darllen.

5.6.2 **Rhaid** i'r trefniant gyfleu **ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio** mewn profion mewnol a ffug arholiadau yn yr ysgol.

5.6.3 **Rhaid** i ymgeisydd sy'n darllen yn uchel iddo'i hun gael ei roi mewn ystafell arall, i ffwrdd o'r brif ystafell arholiadau.

5.6.4 Gall ymgeisydd a fyddai fel arfer yn gymwys i gael darllenydd ond na chaniateir y trefniant hwn iddo mewn papur (neu ran o bapur) sy'n profi darllen gael amser ychwanegol o hyd at 50% i ddarllen yn uchel.

### Ysgrifbin darllen arholiad

5.6.5 Rhaid sicrhau **nad** oes gan ysgrifbin darllen arholiad a ganiateir eiriadur neu thesawrws, neu gyfleuster cadw data, yn rhan ohono.

Gallai defnyddio ysgrifbin darllen arholiad, **sydd wedi'i ddarparu gan y ganolfan**, fod o fudd i'r ymgeiswyr hynny sydd am weithio'n annibynnol. Efallai y bydd yn cynyddu annibyniaeth ymgeiswyr yr oedd angen darllenydd arnynt ar gyfer cywirdeb yn hytrach na dealltwriaeth.

Dylid ystyried defnyddio ysgrifbin darllen arholiad bob amser i'r ymgeiswyr hynny sydd ond angen i ambell air neu ymadrodd gael ei ddarllen iddynt.

Gan y gellir defnyddio ysgrifbin darllen arholiad mewn papurau (neu adrannau o bapurau) sy'n profi darllen, **ni ellir** hefyd rhoi hyd at uchafswm o 50% o amser ychwanegol i'r ymgeisydd yn lle'r darllenydd.

### Enghraifft – ysgrifbin darllen arholiad

Canfuwyd bod gan fyfyriwr Safon Uwch ddyslecsia ysgafn ym Mlwyddyn 7. Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio darllenydd mewn profion ysgol mewnol bob amser.

Fodd bynnag, mae'r CAAA yn treialu'r defnydd o ysgrifbin darllen arholiad ac mae hynny wedyn yn dod yn **ffordd arferol o weithio** iddi yn y ganolfan. Mae'r trefniant hwn yn un effeithiol, ac yn briodol i'w hanghenion.

## 5.7 Ysgrifennydd / technoleg adnabod llais

### Prosesu ceisiadau

5.7.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran ar derfynau amser, **rhaid** prosesu cais am ysgrifennydd neu dechnoleg adnabod llais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. **Rhaid** i dystiolaeth briodol o angen fod ar gael yn y ganolfan i'w harolygu.

Os prosesydd geiriau (gyda'r gwirydd sillafu a gramadeg wedi'i ddiffodd) yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan, yna dylid ei ddefnyddio mewn arholiadau er mwyn annog gweithio'n annibynnol ac ennill marciau a roddir am sillafu, atalnodi a gramadeg (gweler adran 5.8).

**Dim ond** lle nad yw ymgeisydd yn ddigon cymwys neu hyderus yn defnyddio prosesydd geiriau gyda'r gwirydd sillafu a gramadeg neu'r cyfleuster rhagfynegi testun wedi'i ddiffodd y gellir defnyddio ysgrifennydd.

Bydd rhai ymgeiswyr yn gallu defnyddio prosesydd geiriau yn y rhan fwyaf o'u pynciau ond efallai y bydd angen ysgrifennydd arnynt mewn pynciau fel Mathemateg a Gwyddoniaeth.

**Ni chaniateir** ysgrifennydd na thechnoleg adnabod llais os achosir anawsterau llythrennedd ymgeisydd yn bennaf gan y ffaith nad yw Cymraeg, Saesneg neu Wyddeleg yn iaith gyntaf iddo.

### Ysgrifennydd

5.7.2 Mae ysgrifennydd yn oedolyn priodol a chyfrifol sydd, mewn asesiadau di-arholiad a/neu mewn arholiadau (ond nid mewn Prawf Siarad), yn teipio neu'n ysgrifennu atebion i'r cwestiynau y bydd yr ymgeisydd yn eu harddweud. (Gweler y rheolau – defnyddio ysgrifennydd yn yr adran hon.)

Os bydd ymgeisydd yn arddweud atebion ar dâp, **rhaid** i'r ysgrifennydd deipio neu ysgrifennu atebion yr ymgeisydd i'r cwestiynau wedi'u harddweud. **Rhaid** i'r ymgeisydd fod yn bresennol pan fydd yr ysgrifennydd yn teipio neu'n ysgrifennu'r atebion wedi'u harddweud ganddo. (**Rhaid** cwblhau taflen glawr ysgrifennydd.)

**Rhaid** i ymgeiswyr ymateb yn Gymraeg, Saesneg neu Wyddeleg fel y bo'n briodol, er mwyn bodloni asesiad cyfathrebu ysgrifenedig mewn Cymraeg, Saesneg neu Wyddeleg.

5.7.3 **Nid** yw ysgrifennydd yn gynorthwyydd ymarferol, yn anogwr nac yn ddarllenydd. Gall yr un person weithredu fel ysgrifennydd, darllenydd, cynorthwyydd ymarferol a/neu anogwr os rhoddwyd caniatâd am y trefniadau. **Rhaid cadw'n gaeth at reoliadau defnyddio pob trefniant.**

### Defnyddio technoleg adnabod llais

5.7.4 Os bydd y ganolfan wedi cael cymeradwyaeth i ddefnyddio ysgrifennydd a bod hynny'n adlewyrchu ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan, fel y bo'n briodol i'wanghenion, gall yr ymgeisydd ddewis defnyddio'r canlynol:

- technoleg adnabod llais sy'n gallu rhagfynegi testun pan fydd yr ymgeisydd yn arddweud i mewn i brosesydd geiriau. Gellir defnyddio meddalwedd (darllenydd sgrin) i ddarllen yn ôl a chywiro'r atebion y bydd yr ymgeisydd wedi'u harddweud.
(**DS Ni** chaiff y trefniant hwn ei ganiatáu mewn manylebau TLM, TGAU a TAG UG a Safon Uwch Ieithoedd Tramor Modern. Gweler paragraff 5.7.7.)

- meddalwedd cyfrifiadur sy'n cynhyrchu lleferydd er mwyn arddweud i ysgrifennydd.

Fodd bynnag, ni **fydd** gan yr ymgeisydd fynediad at farciau sy'n cael eu dyfarnu ar gyfer sillafu, atalnodi a/neu ramadeg oni bai ei fod wedi arddweud y sillafu, yr atalnodi a/neu'r gramadeg yn annibynnol, a bod hyn wedi ei gofnodi ar daflen glawr yr ysgrifennydd.

### Defnyddio prosesydd geiriau gyda'r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg wedi'i droi ymlaen

5.7.5 Os bydd y ganolfan wedi cael cymeradwyaeth i ddefnyddio ysgrifennydd a bod hynny'n adlewyrchu ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan, fel y bo'n briodol i'w anghenion, gall yr ymgeisydd ddewis defnyddio'r canlynol:

- prosesydd geiriau gyda chyfleuster gwirio sillafu a/neu gramadeg a/neu destun rhagfynegol wedi'i droi ymlaen.

Os **nad** yw ymgeisydd ag anawsterau dysgu yn destun i Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal (Lloegr) **cyfredol**, Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (Gogledd Iwerddon) **cyfredol**, neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) **cyfredol**, rhaid i Ffurflen 8 ddangos sgôr cywirdeb sillafu wedi'i safoni is na'r cyfartaledd (sgôr wedi'i safoni o 84 neu lai) gyda sillafiadau na ellir eu hadnabod.

**DS Ni chaiff** y trefniant hwn ei ganiatáu mewn manylebau TLM, TGAU a TAG UG a Safon Uwch Ieithoedd Tramor Modern. Gweler paragraff 5.7.7.

**Ni fydd** y marciau sydd ar gael am sillafu, atalnodi a gramadeg ar gael i'r ymgeisydd.

| **Rhaid** cwblhau taflen glawr ysgrifennydd bob tro. |
|---|

## Mathau o anabledd neu anghenion mynediad

- Anghenion gwybyddiaeth a dysgu (anawsterau dysgu)
- Anghenion cyfathrebu a rhyngweithio;
- Anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol
- Anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (e.e. ADCG)
- Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)

Er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y caniateir ysgrifennydd:

- mae amhariad yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ysgrifennu'r ymgeisydd; **neu**

- nid yw ymgeisydd yn gallu ysgrifennu, teipio neu ysgrifennu Braille yn annibynnol, neu ar gyflymder digonol i gofnodi ei atebion hyd yn oed gydag amser ychwanegol, oherwydd amhariad sylweddol a thymor hir.

Mae'n rhaid i'r defnydd o ysgrifennydd adlewyrchu ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan yn sgil ei amhariad sylweddol a thymor hir.

**DS** Mae nifer o ymgeiswyr sy'n cynhyrchu sillafu gwallus yn ysgrifennu'n eglur gan eu bod yn gwneud brasamcan seinegol o'r gair dan sylw, y gellir ei ddarllen gan yr arholwr. Mae'n annhebygol y bydd angen ysgrifennydd ar yr ymgeiswyr hyn oni bai bod ganddynt anawsterau ysgrifennu sylweddol a thymor hir eraill.

### Anawsterau dysgu

Lle mae gan ymgeisydd anawsterau dysgu, ac **nid** yw'n destun Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (Lloegr) **cyfredol**, Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (Gogledd Iwerddon) **cyfredol** neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) **cyfredol**, **rhaid** cwblhau Ffurflen 8.

Mae angen **asesiad nid cynharach na dechrau Blwyddyn 9** (Rhan 2 Ffurflen 8) mewn perthynas â sgiliau ysgrifennu'r ymgeisydd. (Gweler Pennod 7, paragraff 7.5.11 am fwy o fanylion.)

At ddibenion arholi, caiff amhariad sylweddol ei ddehongli fel ymgeisydd â'r canlynol:

- Sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd ar gyfer cywirdeb sillafu (sgôr wedi'i safoni o 84 neu lai) gydag ymgeisiau sillafu amhosibl i'w hadnabod†; **neu**
- sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd ar gyfer cyflymder ysgrifennu (sgôr wedi'i safoni o 84 neu lai).

Mewn rhai achosion, mae ysgrifennu'r ymgeisydd yn annarllenadwy neu'n annealladwy yn ramadegol, ond mae'n gwella'n sylweddol pan ddefnyddir ysgrifennydd. Os na cheir tystiolaeth o'r anawsterau hyn gan sgôr cywirdeb sillafu wedi'i safoni is na'r cyfartaledd, neu sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd ar gyfer cyflymder ysgrifennu, ni fydd *Trefniadau Mynediad Ar-lein* yn cymeradwyo'r cais. Gall y CAAA benderfynu cyfeirio'r cais at y corff/cyrff dyfarnu. (gweler paragraff 8.4, Enghraifft 2.)

† Er mwyn defnyddio prosesydd geiriau gyda'r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg wedi'i droi ymlaen, **rhaid** i Ffurflen 8 ddangos sgôr cywirdeb sillafu is na'r cyfartaledd gyda sillafiadau amhosibl i'w hadnabod.

**Anghenion cyfathrebu a rhyngweithio, anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol, anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl**

Lle mae gan ymgeisydd anghenion cymhleth, h.y.

- anghenion cyfathrebu a rhyngweithio; **neu**
- anhawster dysgu gydag EHCP (Lloegr) **cyfredol** neu Ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon) cyfredol neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) **cyfredol; neu**
- anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol; **neu**
- anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl;

**nid oes** angen asesu sgiliau ysgrifennu'r ymgeisydd. **Nid** yw Ffurflen 8 yn ofynnol ac **ni** ddylid ei defnyddio. **Nid oes** angen sgorau wedi'u safoni.

Fodd bynnag, mae'n **rhaid** i'r CAAA gwblhau Ffurflen 9 i ddangos bod gan yr ymgeisydd amhariad sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ei ysgrifennu.

## Amhariad sylweddol – tystiolaeth o angen

### Anghenion cyfathrebu a rhyngweithio, anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol, anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl

Ar gyfer y cymwysterau hynny sydd wedi'u rhestru yn yr adran ar derfynau amser, mae'n rhaid i dystiolaeth briodol o angen fod ar gael yn y ganolfan i'w harchwilio.

Er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, **rhaid** i'r CAAA lenwi Ffurflen 9 yn ymdrin â'r pwyntiau bwled isod:

- rhoi manylion am anawsterau presennol yr ymgeisydd i ddangos sut maen nhw'n effeithio ar addysgu a dysgu a pherfformiad mewn arholiadau, gan grynhoi tystiolaeth o adborth gan athrawon a/neu staff cefnogi;
- cadarnhau mai ysgrifennydd yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio.

Fel uchod, bydd gwybodaeth fanwl y CAAA yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth arbenigol yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd:

- llythyr/adroddiad gan CAMHS, seicolegydd sydd wedi cofrestru â HCPC, ymgynghorydd meddygol*, seiciatrydd, a Therapydd Iaith a Lleferydd; **neu**
- llythyr/adroddiad gan Wasanaeth Arbenigol yr Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd yr Awdurdod Lleol neu'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol†; **neu**
- Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (Lloegr) **cyfredol**, Datganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon) **cyfredol** neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) **cyfredol** sy'n cadarnhau anhawster dysgu, cyflwr meddygol, anabledd corfforol, amhariad synhwyrol (amhariad ar y clyw, amhariad ar y golwg neu amhariad amlsynhwyraidd) yr ymgeisydd.

†Er enghraifft, Therapydd Galwedigaethol sy'n arbenigo mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, anabledd dysgu, neu iechyd meddwl.

Rhaid i dystiolaeth arbenigol gadarnhau bod anabledd ar yr ymgeisydd. Fodd bynnag, nid oes angen i'r arbenigwr argymell ysgrifennydd yn yr adroddiad a gyflwynir. Gall y dystiolaeth arbenigol fod yn berthnasol i unrhyw oedran ar yr amod ei bod yn parhau'n gyfredol. Gall y CAAA dderbyn diagnosis meddygol gan arbenigwr priodol sy'n gweithio naill ai yn y GIG neu mewn practis preifat.

Er y gall arbenigwr, e.e. ymgynghorydd meddygol, argymell trefniadau mynediad penodol, **lle'r CAAA yw penderfynu** ar drefniadau arholiadau'r ymgeisydd. Barn broffesiynol y CAAA ydyw sy'n seiliedig ar eu gwybodaeth am anabledd yr ymgeisydd, ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio mewn asesiadau wedi'u hamseru a sylwadau ac arsylwadau'r staff addysgu.

## Lle mae ymgeisydd â Ffurflen 8 bresennol yn symud o gymwysterau TGAU i TAG **UG**, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill

**Rhaid** prosesu cais ar-lein newydd am ysgrifennydd pan fydd ymgeisydd â Ffurflen 8 bresennol yn symud o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

Bydd asesiad a gynhaliwyd **ddim cynharach na dechrau Blwyddyn 9** (Rhan 2 Ffurflen 8) yn argymell ysgrifennydd ar gyfer arholiadau TGAU yn ddilys ar gyfer TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

Gallai Ffurflen 8 gyflawn (Rhannau 1, 2 a 3), wedi'i llofnodi a'i dyddio, gael ei throsglwyddo o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.†. Nid oes angen asesiad pellach.

Fodd bynnag, er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, rhaid bod tystiolaeth ar gael gan y CAAA neu'r aseswr sy'n gweithio yn y ganolfan, sy'n dangos yn glir bod angen ysgrifennydd o hyd ar gyfer cymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill. (**Rhaid** cwblhau'r dystiolaeth wedi'i diweddaru hon gan y ganolfan gan ddefnyddio Ffurflen 8RF a rhaid ei chysylltu'n benodol ag TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

**Rhaid** i'r CAAA roi manylion ynghylch:

- anawsterau presennol yr ymgeisydd i ddangos sut maen nhw'n effeithio ar addysgu a dysgu a pherfformiad mewn arholiadau, gan grynhoi tystiolaeth o adborth gan athrawon a/neu staff cefnogi;
- y gefnogaeth ac addasiadau sydd yn eu lle i'r ymgeisydd yn yr ystafell ddosbarth, profion ac arholiadau.

†Gellir trosglwyddo Ffurflen 8 o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill lle bydd yr ymgeisydd yn aros yr un ganolfan neu'n symud i ganolfan wahanol.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn newid canolfan, **rhaid** darparu'r Ffurflen 8 wreiddiol wedi'i chwblhau neu gopi PDF ohoni, ynghyd â thystiolaeth o gymhwyster yr aseswr. **Rhaid** i'r CAAA ddarparu'r dystiolaeth hon i gynorthwyo eu cyfoedion mewn colegau AB a Chweched Dosbarth.

Dylid ystyried y Ffurflen 8 fel 'pasbort' yr ymgeisydd i drefniadau mynediad sy'n teithio gyda'r ymgeisydd.

**Rhaid** i'r CAAA wirio Ffurflen 8 yn drylwyr **cyn** ei hanfon ymlaen i ganolfan arall, gan sicrhau ei bod yn gyflawn, ac wedi'i llofnodi a'i dyddio.

**Ni ddylai'r** CAAA yn y ganolfan dderbyn ddefnyddio Ffurflen 8 anghyflawn. **Rhaid** edrych ar Ffurflen 8 i sicrhau bod pob rhan o'r ffurflen wedi'i chwblhau a'i bod wedi'i llofnodi a'i dyddio.

**Ni ellir** newid y ffurflen yn ôl-weithredol. Lle darparwyd Ffurflen 8 anghyflawn, yna rhaid ailasesu'r ymgeisydd i benderfynu'r angen am ysgrifennydd.

**Rhaid** i'r CAAA, neu aelod cyfatebol o staff mewn coleg AB, sicrhau:

- bod ysgrifennydd yn dal i fod yn briodol, ymarferol a rhesymol;
- bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig **cyfredol** ar gyfer ysgrifennydd, h.y. rheoliadau 2025/26 y CGC, **cyn** y caiff cais ar-lein newydd am ysgrifennydd ei brosesu.

Lle mae ymgeisydd â Ffurflen 9 bresennol yn symud o gymwysterau TGAU i TAG **UG**, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill

**Rhaid** prosesu cais ar-lein newydd am 25% o ysgrifennydd pan fydd ymgeisydd â Ffurflen 9 bresennol yn symud o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

Er mwyn peidio â rhoi mantais annheg, rhaid bod tystiolaeth ar gael gan y CAAA sy'n dangos yn glir bod angen ysgrifennydd o hyd ar gyfer cymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill. **Rhaid** cynnwys manylion tystiolaeth y ganolfan wedi'i diweddaru yn Rhan 1 y Ffurflen 9 newydd a **rhaid** i'r wybodaeth honno ymwneud yn benodol â chymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

Bydd y Ffurflen 9 newydd yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth arbenigol yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd.

Dylid cwblhau Ffurflen 9 newydd lle mae'r ymgeisydd yn aros yn yr un ganolfan neu'n symud i ganolfan newydd.

### Defnyddio ysgrifennydd – Arholiadau Ieithoedd Tramor Modern

5.7.6 Mewn arholiadau Iaith Dramor Fodern, rhaid i ymgeiswyr ddarparu eu sillafiadau eu hunain. Felly, dim ond os yw'r ymgeisydd yn arddweud pob gair fesul llythyren. Gan fod y broses hon yn cymryd llawer o amser ac na ellir ei chwblhau'n realistig o fewn y lwfans amser safonol, mae cais cymeradwy am ysgrifennydd yn galluogi'r CAAA i roi hyd at 50% o amser ychwanegol. Mae'r amser ychwanegol hwn yn cael ei roi yn benodol i ganiatáu digon o amser i'r ymgeisydd arddweud sillafiadau i'r ysgrifennydd fesul llythyren. Mewn llawer o achosion, mae sillafu gair yn cyfleu gwybodaeth am ramadeg, fel amser y ferf, a all effeithio'n sylweddol ar y broses farcio.

Gellir recordio arddweud yr ymgeisydd. Bydd hyn yn helpu'r ymgeisydd i gael llif yr Iaith Dramor Fodern berthnasol. Pan fydd yr ymgeisydd wedi gorffen arddweud ei ymateb gellir ail-redeg y recordiad, gan alluogi'r ymgeisydd i roi union sillafiad y geiriau a arddywedir.

Os yw'r ymgeisydd yn teipio, byddai'n teipio sillafiadau'r geiriau ei hun, nid yn arddweud y sillafiad fesul llythyren i ysgrifennydd deipio neu ysgrifennu, felly ni fyddai'n cael 50% o amser ychwanegol. Yn ogystal, **ni chaniateir** testun rhagfynegol a gwirwyr sillafu mewn arholiadau Ieithoedd Tramor Modern.

5.7.7 Mewn arholiadau Ysgrifennu Ieithoedd Tramor Modern, caiff ymgeiswyr eu marcio am ansawdd eu hiaith sydd nid yn unig yn ymwneud ag ystod a chymhlethdod yr iaith, ond hefyd cywirdeb eu hiaith a'u sillafu. Mae felly'n hanfodol fod y geiriau'n cael eu sillafu mewn arholiadau o'r fath.

Caniateir ysgrifennydd mewn arholiadau Darllen a Gwrando Ieithoedd Tramor Modern lle mae'n ofynnol rhoi'r atebion yn Gymraeg neu Saesneg.

### Defnyddio ysgrifennydd – mewn pynciau sy'n asesu safon cyfathrebu ysgrifenedig neu sillafu, atalnodi a gramadeg

5.7.8 Mewn pynciau sy'n asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig (ACY), neu'n asesu sillafu, atalnodi a gramadeg (SAG) ymgeiswyr, caniateir ysgrifennydd.

Caniateir ysgrifennydd ym mhapurau ysgrifenedig y pynciau canlynol:

- TGAU Saesneg Iaith (gan gynnwys yr adran Ysgrifennu);
- TGAU Llenyddiaeth Saesneg;
- TGAU Daearyddiaeth;
- TGAU Hanes;
- TGAU Astudiaethau Crefyddol;
- Sgiliau Gweithredol Saesneg (yn cynnwys y papur Ysgrifennu).

Fodd bynnag, pan fydd ysgrifennydd yn cael ei ddefnyddio mewn arholiad sy'n asesu sillafu, atalnodi a gramadeg, dim ond os gall yr ymgeisydd ddangos ei fod wedi defnyddio'r sgiliau sy'n cael eu hasesu y gellir dyfarnu marciau.

(Mae hyn yn berthnasol hefyd os yw ymgeisydd yn defnyddio ysgrifennydd oherwydd bod ganddo/ganddi anaf dros dro adeg yr arholiad.)

| |
|---|
| Er nad yw'n cael ei argymell, mewn amgylchiadau arbennig, os bydd ymgeisydd yn dewis arddweud ei sillafiadau a/neu atalnodi, gellir dyfarnu hyd at 50% o amser ychwanegol. (Bydd cais wedi'i gymeradwyo am ysgrifennydd yn caniatáu i'r CAAA roi amser ychwanegol hyd at 50% i'r ymgeisydd lle mae sillafu, atalnodi a gramadeg yn cael eu hasesu.)<br><br>**Rhaid** ei gofnodi ar daflen glawr yr ysgrifennydd fod yr ymgeisydd wedi arddweud y sillafiadau a/neu'r atalnodi. |
| **Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)**<br>Ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad, **nid** yw'n ofynnol i'r ganolfan sicrhau bod pob ymgeisydd wedi'i asesu'n unigol.<br>**Rhaid** i'r CAAA bennu'r angen am ysgrifennydd neu dechnoleg adnabod llais ar y sail o sut mae'r ymgeisydd yn gweithio fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.<br>Ni chaniateir ysgrifennydd ar gyfer cymhwyster Tystysgrif Lefel Mynediad Saesneg AQA. |

### Ffactorau y mae'n rhaid i'r ganolfan eu hystyried

5.7.9 **Ni** chaniateir i ysgrifennydd gyflawni tasgau sy'n rhan o'r amcanion asesu. Am wybodaeth bellach holwch y corff dyfarnu.

5.7.10 Mewn achosion lle mae ymgeisydd yn gweithio gydag ysgrifennydd am hyd cyfan yr arholiad dylid bob amser ystyried hyd at 25% o amser ychwanegol. Yn aml, bydd yr ysgrifennydd angen i'r ymgeisydd ailadrodd yr hyn mae'n ei arddweud tra mae'n dal i fyny ac i sicrhau bod ymateb yr ymgeisydd wedi'i gofnodi'n gywir. **Nid oes rhaid** prosesu cais ar wahân, na dangos sgorau prosesu araf i ddyfarnu 25% o amser ychwanegol ochr yn ochr ag ysgrifennydd. Fodd bynnag, **rhaid** i'r CAAA neu'r aseswr sy'n gweithio gyda'r ganolfan esbonio'r angen am 25% o amser ychwanegol wrth ddefnyddio ysgrifennydd, er enghraifft drwy Ran 1 Ffurflen 8. Wrth brosesu cais am ddarllenydd gan ddefnyddio Trefniadau mynediad ar-lein, dylid ateb y cwestiwn 'A fydd yr ymgeisydd yn cael 25% o amser ychwanegol oherwydd ei fod yn arddweud wrth ysgrifennydd am gyfnod yr arholiad i gyd?' gyda 'Bydd'.

Lle mae angen 25% o amser ychwanegol ar ymgeisydd heb ddefnyddio darllenydd, mae cais ar wahân am 25% o amser ychwanegol yn ofynnol. **Rhaid** i'r ymgeisydd fodloni'r meini prawf cyhoeddedig am 25% o amser ychwanegol.

5.7.11 Lle mae gan ymgeisydd anaf dros dro ar adeg yr arholiad ac angen ysgrifennydd **rhaid** i'r ganolfan:

- brosesu'r trefniant trwy *Trefniadau Mynediad Ar-lein*;
- sicrhau bod datganiad wedi'i deipio ar ffeil sy'n cadarnhau anaf dros dro yr ymgeisydd a'r angen am ysgrifennydd;
- glynu wrth y rheolau;
- sicrhau bod y daflen glawr ysgrifennydd wedi ei llenwi.

5.7.12 Y ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau na all ymgeiswyr eraill glywed yr hyn mae'r ymgeisydd a'r ysgrifennydd yn ei ddweud, ac nad yw eu presenoldeb yn amharu ar ymgeiswyr eraill. (Bydd yr un trefniadau'n berthnasol os bydd yr ymgeisydd yn defnyddio technoleg adnabod llais.)

Fel rheol, bydd yr ymgeisydd a'r ysgrifennydd yn cael eu rhoi mewn ystafell ar wahân, i ffwrdd o'r brif ystafell arholiadau.

Os yw'r ymgeisydd a'r ysgrifennydd yn cael eu lleoli mewn ystafell arall, ar sail un i un, ni all y darllenydd weithredu fel goruchwyliwr hefyd os yw'n athro pwnc, Cynorthwyydd Cefnogaeth Dysgu neu gynorthwyydd addysgu i'r ymgeisydd.

## Y rheolau – defnyddio ysgrifennydd

Ysgrifennydd penodedig:

- **rhaid** teipio neu ysgrifennu yn gywir, ac ar gyflymder rhesymol, yr hyn a ddywedodd yr ymgeisydd;
- **rhaid** lluniadu neu ychwanegu at fapiau, diagramau a graffiau yn gwbl unol â chyfarwyddiadau'r ymgeisydd. Os yw'r ymgeisydd yn sefyll papur dylunio, dim ond gyda rhannau ysgrifenedig y papur y caniateir i ysgrifennydd ei gynorthwyo;
- **rhaid cadw at y rheoliadau gan y gall methiant i wneud hynny arwain at ddiarddel yr ymgeisydd;**
- **rhaid** i ysgrifennydd ysgrifennu neu airbrosesu cywiriad ar deipysgrif neu daflen Braille os gofynnir iddo wneud hynny gan yr ymgeisydd;
- **rhaid** i gynorthwyydd ymarferol gyfeirio unrhyw broblemau cyfathrebu a geir yn ystod yr arholiad at y goruchwyliwr neu'r swyddog arholiadau ar unwaith;
- **ni ddylai** ysgrifennydd roi cymorth ffeithiol i'r ymgeisydd na nodi pan fo ateb wedi'i gyflawni;
- **ni ddylai** ysgrifennydd roi cyngor i'r ymgeisydd ynglŷn â pha gwestiynau i'w hateb, pa bryd i symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf, na threfn ateb y cwestiynau;
- **gall** ysgrifennydd ar gais yr ymgeisydd ddarllen yn ôl yr hyn a gofnodwyd.

Mae awgrym ar gyfer cymorth cof ar gyfer ysgrifennydd i'w gael yn Atodiad 2.

### Cofiwch

Pan fo cais yn cael ei brosesu gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*, e.e. Ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG, **rhaid** argraffu taflen glawr ysgrifennydd wedi'i llenwi ymlaen llaw o'r system.

Ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad, **rhaid** llwytho Ffurflen 13 i lawr o'r Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

**Rhaid** i'r daflen glawr:

*nodi a gwblhawyd y graffiau a'r diagramau gan yr ymgeisydd neu'r ysgrifennydd;
*cael ei llofnodi gan yr ysgrifennydd a'i gwrthlofnodi gan bennaeth y ganolfan neu'r swyddog arholiadau;
*cael ei rhoi y tu mewn i sgript orffenedig yr ymgeisydd pan fo wedi'i hysgrifennu â llaw.

Lle mae sgript orffenedig yr ymgeisydd wedi'i theipio, cyfeiriwch at gyfarwyddiadau'r corff dyfarnu perthnasol gan fod trefniadau prosesu gwahanol yn berthnasol.

Hefyd **rhaid** atodi taflen glawr **yn ddiogel** at unrhyw asesiad di-arholiad a gaiff ei gwblhau gyda chymorth ysgrifennydd. **Rhaid** anfon y gwaith at y cymedrolwr yn ogystal â'r sampl y gwnaed cais amdano.
Mae'n **rhaid** i'r daflen glawr gael ei llofnodi gan yr ysgrifennydd a'i gwrthlofnodi gan bennaeth y ganolfan neu'r swyddog arholiadau.

## Enghreifftiau – ysgrifenyddion

- Mae ymgeisydd, sydd ag **anawsterau dysgu sylweddol**, yn methu ysgrifennu'n ddealladwy. Fodd bynnag, gall ddefnyddio prosesydd geiriau, gyda'r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg wedi'i ddiffodd i gofnodi ei atebion. Mae'r CAAA yn caniatáu i'r ymgeisydd ddefnyddio prosesydd geiriau yn ei arholiadau, gan ei fod yn adlewyrchu sut y bydd yn gweithio fel arfer yn y ganolfan ac y bydd yn caniatáu iddo weithio'n annibynnol.

- Ni all ymgeisydd â pharlys yr ymennydd ddefnyddio ei ddwylo. Ni all ddefnyddio technoleg adnabod llais oherwydd ei fod yn siarad yn aneglur. Mae cais ar-lein wedi'i gymeradwyo yn caniatáu defnyddio ysgrifennydd ym mhob pwnc heblaw arholiadau Ieithoedd Tramor Modern. Bydd yn rhy anodd iddo sillafu pob gair fesul llythyren.

- Ni all ymgeisydd â dyspracsia ddefnyddio prosesydd geiriau oherwydd bod ei sgiliau symud yn wan. Gall arddweud geiriau yn Sbaeneg, yr Iaith Dramor Fodern o'i dewis, fesul llythyren. Caniateir iddi gael ysgrifennydd yn yr arholiad Ysgrifennu Sbaeneg os bydd yn sillafu'r geiriau fesul llythyren wrth arddweud. Mewn pynciau eraill, caniateir iddi ddefnyddio technoleg adnabod llais heb sillafu'r geiriau, oni bai eu bod yn eiriau anghyffredin. Dyfernir marciau iddi am y sgiliau y mae hi wedi'u dangos.

- Caiff ymgeisydd ag **anawsterau dysgu sylweddol** ei asesu gan aseswr penodedig y ganolfan. Mae'n cyflawni sgôr sillafu wedi'i safoni is na'r cyfartaledd, sef 73. Gan nad yw llawer o'i sillafiadau anghywir yn adnabyddadwy, mae'r CAAA yn penderfynu gwneud cais am ysgrifennydd sy'n adlewyrchu ei ffordd arferol o weithio mewn profion mewnol yn yr ysgol. Mae'r CAAA yn prosesu cais ar-lein am ysgrifennydd, a chymeradwyir y cais hwn.

- Mae'r CAAA wedi cael pryderon ynglŷn â disgybl am amser. Mae wedi derbyn diagnosis anhwylder y sbectrwm awtistig. Mae'r disgybl yn cael **anawsterau sylweddol a pharhaus** wrth ganolbwyntio ac nid yw'n gallu ysgrifennu mewn unrhyw fanylder. Mae ei sgiliau llafar galw i gof yn dda iawn. Mae athrawon wedi dangos pryder ond am nad yw ei lawysgrifen yn annarllenadwy nac yn amhosibl ei adnabod, ni ddyfarnwyd ysgrifennydd iddo. Pan oedd yr ymgeisydd yn sefyll ei set olaf o ffug arholiadau dangosodd pob athro bryder. Mae'n gallu ateb cwestiynau dewis lluosog ond mae'n methu'n glir ag ysgrifennu atebion manwl. Trefnodd y CAAA i'w ffug arholiadau TGAU Saesneg Iaith gael eu cynnal eto gydag ysgrifennydd er mwyn gweld a fyddai'n gwneud gwahaniaeth. Roedd yn gallu ateb cwestiynau na geisiodd eu hateb y tro cyntaf ac mae'n ymddangos bod hyn wedi cynyddu ei siawns o ennill gradd yn y pwnc yn sylweddol. Mae'r CAAA yn penderfynu prosesu cais ar-lein am ysgrifennydd, a chymeradwyir y cais hwn.

## 5.8 Prosesydd geiriau

**Nid yw'n** ofynnol prosesu cais am brosesydd geiriau gan ddefnyddio Trefniadau mynediad ar-lein. Nid oes angen tystiolaeth i gefnogi'r trefniant at ddibenion arolygu. (Mae hyn hefyd yn berthnasol lle mae ymgeisydd yn defnyddio prosesydd geiriau dros dro oherwydd anaf dros dro.)

5.8.1 Caniateir i ganolfannau ddarparu prosesydd geiriau gyda'r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg/rhagfynegi testun wedi'i ddiffodd i ymgeisydd os mai dyma ei ffordd arferol o weithio yn y ganolfan.

Er enghraifft, oherwydd problemau cynllunio a threfniadaeth yr ymgeisydd wrth ysgrifennu â llaw, mae ansawdd ei iaith yn gwella'n sylweddol wrth ddefnyddio prosesydd geiriau.

(Mae hyn hefyd yn estyn y defnydd o beiriannau Braille electronig a llechi.)

Dylai canolfannau gyfeirio at **baragraff 5.7.5** ar gyfer defnyddio prosesydd geiriau gyda'r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg wedi'i droi ymlaen.

5.8.2 Ystyrir ei bod yn arfer safonol defnyddio proseswyr geiriau mewn cydrannau asesiad di-arholiad onid yw'r fanyleb yn gwahardd hynny.

5.8.3 Caniateir i ymgeisydd ddefnyddio prosesydd geiriau mewn arholiad i deipio cwestiynau sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig, a gall ysgrifennu atebion byrrach â llaw.

**DS** Arholiadau sy'n cynnwys swm sylweddol o ysgrifennu yw'r rhai lle y bydd ymgeiswyr yn aml angen teipio, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n rhoi mwy o alw ar yr angen i drefnu'r meddwl a chynllunio atebion estynedig. Mae arholiadau sy'n gofyn am atebion symlach yn aml yn haws i'w hysgrifennu â llaw yn y llyfryn atebion gan fod yr ymgeisydd yn osgoi'r anhawster sy'n gysylltiedig â symud yn ôl ac yn ymlaen rhwng edrych ar y papur cwestiynau a'r sgrin gyfrifiadurol.

5.8.4 Ar gyfer y rheoliadau ar ddefnyddio prosesydd geiriau mewn arholiadau ysgrifenedig, gweler ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* (y cyfeirir ato'n gyffredin fel y dogfen 'ICE' y CGC):http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations

Gall corff dyfarnu ei gwneud yn ofynnol i gwblhau dalen flaen prosesydd geiriau.

**Ni** ellir caniatáu prosesydd geiriau i ymgeisydd dim ond am ei fod bellach am deipio yn hytrach nag ysgrifennu mewn arholiadau neu'n gallu gweithio'n gyflymach ar fysellfwrdd, neu oherwydd ei fod yn defnyddio gliniadur gartref.

Mae'n **rhaid** i'r defnydd o brosesydd geiriau adlewyrchu ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan. Er enghraifft, lle mae'r cwricwlwm yn cael ei ddarparu'n electronig ac mae'r ganolfan yn darparu proseswyr geiriau i'r holl ymgeiswyr.

Efallai y bydd y ganolfan yn dymuno nodi'r mathau o ymgeisydd y bydd y ganolfan yn ystyried y byddai'n fuddiol iddynt ddefnyddio prosesydd geiriau. Er enghraifft, ymgeisydd â'r canlynol:

- anhawster dysgu sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ei allu i ysgrifennu'n ddarllenadwy;
- cyflwr meddygol;
- anabledd corfforol;
- amhariad synhwyrol;
- problemau cynllunio a threfnu wrth ysgrifennu â llaw;
- llawysgrifen wael.

**Nid** yw'r rhestr hon yn gyflawn.

**Rhaid** i aelod o uwch dîm arweinyddiaeth y ganolfan lunio polisi prosesydd geiriau, penodol i'r ganolfan, sy'n rhoi manylion y meini prawf y mae'r ganolfan yn eu defnyddio i ddyfarnu a dyrannu proseswyr geiriau ar gyfer arholiadau. **Rhaid** i'r polisi hwn fod ar gael i'w archwilio.

Enghreifftiau – prosesydd geiriau

- Mae ymgeisydd na all ysgrifennu'n ddarllenadwy oherwydd bod ganddi anawsterau dysgu sylweddol yn gwneud cais i ddefnyddio prosesydd geiriau mewn arholiadau. **Dyma ei ffordd arferol o gynhyrchu gwaith ysgrifenedig yn y ganolfan** oherwydd ni all ei hathrawon ddarllen ei hysgrifen. Mae hi'n fedrus iawn yn defnyddio prosesydd geiriau. Mae'r CAAA yn caniatáu iddi ddefnyddio prosesydd geiriau yn ei harholiadau.

- Nid oes gan ymgeisydd anhawster dysgu ond mae'n ysgrifennwr 'anniben'. Mae ei lawysgrifen yn anodd ei deall. Mae'n gwneud cais i gael defnyddio prosesydd geiriau. Caniateir hyn gan y CAAA am ei fod yn adlewyrchu ei **ffordd arferol o weithio yn y ganolfan**.

- Mae ymgeisydd am ddefnyddio prosesydd geiriau yn ei harholiadau gan mai dyna'i **ffordd arferol o weithio yn y ganolfan.** Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd hefyd am ddefnyddio'r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg. O dderbyn nad yw hi'n bodloni'r meini prawf sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer ysgrifennydd, ni all yr ymgeisydd ddefnyddio'r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg. Mae'r CAAA yn caniatáu iddi ddefnyddio prosesydd geiriau yn unol â'r rheoliadau fel y nodir yn nogfen 'ICE' y CGC.

- Mae gan ymgeisydd sydd ag anawsterau dysgu sylweddol ysgrifen eithaf darllenadwy. Fodd bynnag, mae'n gadael llawer o bethau allan ac ni all roi trefn briodol ar ei syniadau. Mae ei sgriptiau ysgrifenedig yn ddarllenadwy ond maent yn frith o farciau croesi allan a hepgoriadau. Mae'n gofyn am gael defnyddio prosesydd geiriau ac mae'r CAAA yn caniatáu hynny. Mae'r defnydd o brosesydd geiriau'n ei alluogi i gywiro testun, cyflwyno'r atebion yn y drefn iawn ac mae'n **adlewyrchu ei ffordd arferol o weithio yn y ganolfan**.

- Mae ymgeisydd dall yn gofyn am gael defnyddio prosesydd geiriau yn ei arholiadau. Hefyd mae'n gofyn am gael defnyddio darllenydd sgrin er mwyn gallu 'darllen' yn ôl a gwirio'r atebion a deipiwyd. Caiff y trefniadau hyn eu caniatáu wrth ddefnyddio prosesydd geiriau yn ei arholiadau. **Fodd bynnag, os yw'r ymgeisydd hefyd am ddefnyddio cyfleuster rhagfynegi testun a/neu wirydd sillafu a gramadeg rhaid iddo fodloni'r meini prawf sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer ysgrifennydd, gyda chais wedi'i gymeradwyo.**

## Enghreifftiau – Prosesydd geiriau a 25% o amser ychwanegol

- Mae gan ymgeisydd gyflymder ysgrifennu rhydd sy'n is na'r cyfartaledd wrth ysgrifennu â llaw. Fodd bynnag, defnyddio prosesydd geiriau yw ei **ffordd arferol o weithio yn y ganolfan**. Wrth deipio, gall gynhyrchu ei gwaith ysgrifenedig yn effeithiol. Mae'r CAAA yn caniatáu defnyddio prosesydd geiriau gan ei fod yn dileu'r rhwystr a achosir gan ei llawysgrifen araf. Bydd y CAAA yn ystyried a oes angen 25% o amser ychwanegol pan fydd yn ysgrifennu â llaw, er enghraifft wrth sefyll arholiadau TGAU Mathemateg a Gwyddoniaeth. Bydd angen asesu gallu prosesu gwybyddol yr ymgeisydd gan y bydd angen dwy sgôr wedi'u safoni is na'r cyfartaledd neu un sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd arni **ac** un sgôr wedi'i safoni cyfartaledd isel er mwyn cael 25% o amser ychwanegol wedi'i ddyfarnu.

- Mae gan ymgeisydd sydd ag anawsterau dysgu sylweddol gyflymder ysgrifennu â llaw sy'n is na'r cyfartaledd ac yn is na'r sgôr cyfartalog ym meysydd prosesu gwybyddol a chyflymder darllen. Gan ddefnyddio prosesydd geiriau yn ei **ffordd arferol o weithio yn y ganolfan**, mae wedi gallu gwella ei gyflymder teipio i gyfateb â'r gyfradd ysgrifennu â llaw gyfartalog gyfatebol. Fodd bynnag, mae ganddo **anawsterau parhaus a sylweddol** wrth ddehongli cwestiynau a llunio ei atebion teipiedig. Rhoddir 25% o amser ychwanegol iddo, a'r defnydd o brosesydd geiriau, gan fod y ddau drefniad yn briodol i'w anghenion.

## 5.9 Trawsgrifiad Braille

Nid yw'n ofynnol prosesu cais am drawsgrifiad Braille gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Nid oes angen tystiolaeth i gefnogi'r trefniant at ddibenion arolygu.

5.9.1 Bydd angen trawsgrifio i brint ar rai sy'n defnyddio peiriant braille â llaw. **Rhaid** i'r ganolfan drawsgrifio pob sgript Braille.

5.9.2 Ar gyfer y rheoliadau ar ddefnyddio trawsgrifiad Braille, gweler ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations

## 5.10 Anogwr

Nid yw'n ofynnol prosesu cais am anogwr gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Nid oes angen tystiolaeth i gefnogi'r trefniant at ddibenion arolygu.

5.10.1 Caniateir anogwr lle mae gan ymgeisydd amhariad andwyol sylweddol a thymor hir wrth ganolbwyntio neu lle mae pethau'n tynnu ei sylw'n gyson o ganlyniad i hyn.

Er enghraifft, mae'r ymgeisydd:

- yn meddu ar synnwyr prin o amser, os o gwbl (e.e. ymgeiswyr ag ADHD neu ASD); **neu**
- yn colli'r gallu i ganolbwyntio yn gyson; **neu**
- yn cael ei effeithio gan anhwylder gorfodaeth obsesiynol sy'n arwain iddynt ddal i adolygu cwestiwn yn lle symud ymlaen i gwestiynau eraill.

Gall ymgeisydd gael ei gynorthwyo gan anogwr a all ei helpu i ganolbwyntio ar yr angen i ateb cwestiwn ac yna symud ymlaen i ateb y cwestiwn nesaf.

5.10.2 Ar gyfer y rheoliadau ar ddefnyddio anogwr, gweler ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations

### Enghreifftiau – anogwyr

- Nid oes gan ymgeisydd ag ASD unrhyw synnwyr o amser. Mae'r anogwr yn gweld nad yw'r ymgeisydd yn gwneud unrhyw beth. Mae hi'n dweud "Jake, canolbwyntia ar y cwestiwn, mae 15 munud ar ôl".
- Mae ymgeisydd ag anhwylder gorfodaeth obsesiynol yn mynd dros y cwestiwn cyntaf dro ar ôl tro. Mae'r anogwr yn taro'r ddesg bob chwarter awr. Mae'r ymgeisydd yn gwybod faint o gwestiynau y mae'n rhaid eu cwblhau o fewn yr amser hwnnw ac mae'n ceisio symud ymlaen.
- Mae ymgeisydd ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio â Gorfywiogrwydd yn gweithio am rai munudau ac yna'n edrych allan trwy'r ffenestr. Gan ei bod yn sefyll ei harholiad mewn ystafell arall, gall yr anogwr alw ei henw allan er mwyn tynnu ei sylw'n ôl at y papur cwestiynau.

## 5.11 Addasydd Iaith

5.11.1 **Nid** yw *Trefniadau Mynediad ar-lein* yn cynnwys Addasydd Iaith. Fodd bynnag, gall canolfannau gyfeirio ceisiadau at gyrff dyfarnu. I ddechrau, dylai'r ganolfan ddewis 'Arall'. Bydd hyn yn arwain at wrthod y cais yn awtomatig. Yna rhaid i'r ganolfan atgyfeirio'r achos ar-lein at y corff dyfarnu perthnasol a fydd yn ystyried y cais ar sail anghenion yr ymgeisydd.

Dylid ystyried Addasydd Iaith fel trefniant prin ac eithriadol. Dim ond ar gyfer yr ymgeiswyr hynny y mae eu hanabledd yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir iawn sy'n arwain at anawsterau sylweddol a pharhaol iawn wrth gael mynediad at a phrosesu gwybodaeth y dylid ei ystyried.

Dim ond pan fetho popeth arall y dylid ystyried Addasydd Iaith fel addasiad. Dim ond ar ôl i bob addasiad perthnasol arall gael ei ystyried a'i nodi fel addasiad anaddas neu anymarferol y dylid gwneud cais. **Rhaid** bod cyfiawnhad cryf iawn dros fod angen Addasydd Iaith.

### Amhariad sylweddol – addasrwydd a thystiolaeth o angen

5.11.2 Fel rhan o'r dystiolaeth ategol i gorff dyfarnu, **rhaid** i'r ymgeisydd gael sgôr wedi'i safoni o 69 neu lai (sgôr wedi'i safoni sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd) mewn perthynas â darllen a deall a/neu eirfa. Bydd yr ymgeisydd wedi'i asesu gan ddefnyddio fersiynau cyfredol o brofion wedi'u safoni'n genedlaethol a'u cynnal **o fewn 26 mis i'r arholiad terfynol**. (Mae'n bosibl i'r ymgeisydd gael ei asesu gan Athro Cymwys i Blant a Phobl Ifanc Byddar, a fydd yn cofnodi canlyniadau ei asesiad yn Rhan 2 Ffurflen 8.)

Mae'n **rhaid** i'r addasiad helaeth i'r iaith adlewyrchu ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan, yn unol â'r dystiolaeth sydd yn Rhan 1 Ffurflen 8.

Mae corff dyfarnu yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth gan y ganolfan.

### Addasydd Iaith

5.11.3 Mae Addasydd Iaith yn oedolyn priodol a chyfrifol a all egluro'r cyfarwyddiadau a ddefnyddir yn y papur arholiad pan ofynnir am hyn gan ymgeisydd.

**Ni** ddylai'r Addasydd Iaith esbonio termau technegol na thermau penodol i'r pwnc. Mae'r gallu i ddeall y termau hyn yn rhan o'r asesiad. Os caiff termau o'r fath eu hesbonio wrth yr ymgeisydd caiff gofynion y cwestiwn eu cyfaddawdu a gall hyn fod yn ymarfer annheg. (Gweler Y rheolau – defnyddio Addasydd Iaith yn yr adran hon.)

Gall Addasydd Iaith hefyd fod yn ddarllenydd (gweler adran 5.5). **Nid oes angen** cais ar wahân am ddarllenydd.

### Papurau (neu rannau o bapurau) sy'n profi darllen

5.11.4 **Ni** chaniateir i Addasydd Iaith ddarllen cwestiynau neu destun mewn papurau (neu rannau o bapurau) sy'n profi darllen.

Gellir rhoi amser ychwanegol o hyd at 50% i ymgeisydd a fyddai fel arfer yn gymwys i gael Addasydd Iaith, ond lle **na** chaniateir y trefniant hwn mewn papur (neu rannau o bapur) sy'n profi darllen. Bydd cais wedi'i gymeradwyo am Addasydd Iaith yn caniatáu i'r CAAA roi hyd at 50% o amser ychwanegol i ymgeisydd mewn papur (neu rannau o bapur) sy'n profi darllen.

Lle mae Addasydd Iaith yn defnyddio dehongliad iaith arwyddion, gall arwyddo'r cyfarwyddiadau, ond **nid** y cwestiynau, mewn arholiadau Ieithoedd Tramor Modern, Iaith Gymraeg, Saesneg a Gwyddeleg. **Ni ddylai** deunydd testun/ffynhonnell neu ddarnau llenyddol gael eu harwyddo i'r ymgeisydd.

### Ffactorau y mae'n rhaid i'r ganolfan eu hystyried

5.11.5 Mae'n **rhaid** i'r ganolfan gofio bod gweithredu fel Addasydd Iaith yn gofyn am lawer mwy o sgiliau na'r rhan fwyaf o drefniadau eraill.

**<u>Rhaid</u>** i Addasydd Iaith gael y canlynol:

- hyfforddiant achrededig wedi'i gwblhau'n llwyddiannus; (Bydd Arolygwr Canolfannau CGC yn gofyn am gael gweld tystiolaeth o hyfforddiant achrededig wedi'i gwblhau'n llwyddiannus.)
- gwybodaeth am y pwnc sy'n cael ei arholi er mwyn adnabod geirfa benodol i'r pwnc a thermau technegol;
- gwybodaeth weithredol dda o strwythurau gramadegol yr iaith Saesneg;
- dealltwriaeth o effaith geiriau gorchymyn a disgwyliadau arholwr o ateb ymgeisydd.

Gall Athro Cymwys i Blant a Phobl Ifanc Byddar weithredu fel Addasydd Iaith heb fod angen cwblhau hyfforddiant achrededig yn llwyddiannus.

5.11.6 Lle bo'n bosibl, dylai'r ymgeisydd fod yn gyfarwydd â'r Addasydd Iaith. (Bydd hyn yn hanfodol i ymgeiswyr ag awtistiaeth ac ymgeiswyr byddar a/neu drwm eu clyw a fydd yn dibynnu ar y dulliau cyfathrebu arferol a ddefnyddir yn yr ystafell ddosbarth.

Lle nad hyn yw'r achos, **rhaid** i'r ymgeisydd:

- gael cyfle i ddod yn gyfarwydd â'r Addasydd Iaith gan ddefnyddio cyflwyniad prawf; **a**
- bod yn gysurus gyda'r dull o gyfathrebu.

5.11.7 Dylai'r ymgeisydd a'r Addasydd Iaith fod mewn ystafell arall, i ffwrdd o'r brif ystafell arholiadau.

5.11.8 **<u>Rhaid</u>** i Addasydd Iaith a goruchwyliwr ar wahân fod ar gael i bob ymgeisydd. **Rhaid** i'r goruchwyliwr wrando'n ofalus ac arsylwi ar ymddygiad yr Addasydd Iaith drwy gydol yr arholiad. **Rhaid** i'r goruchwyliwr wrthlofnodi'r daflen glawr gan sicrhau ei bod yn adlewyrchiad clir o sut gweithredodd yr Addasydd Iaith yn ystod yr arholiad.

5.11.9 Lle y byddant ar gael, **rhaid bob amser** archebu papurau â'r iaith wedi'i haddasu i ymgeiswyr sy'n defnyddio Addasydd Iaith. (Gweler Pennod 6, adran 6.6.)

5.11.10 Bydd cais wedi'i gymeradwyo am Addasydd Iaith yn caniatáu i'r ganolfan agor y pecyn papur cwestiynau yn yr ystafell ddiogel un awr cyn yr amser a gyhoeddwyd gan y corff dyfarnu ar gyfer dechrau'r arholiad. Dylai'r papur cwestiynau fod ar gael i'r Addasydd Iaith i'w alluogi i:

- nodi ac uwcholeuo termau technegol neu benodol i'r pwnc a geiriau gorchymyn **nad** oes modd eu haddasu;
- wneud nodiadau ar y papur cwestiynau os yw'n sylwi, er enghraifft, ar iaith a allai fod yn broblemus.

**Dim ond** os bydd yr ymgeisydd yn nodi'n glir **nad** yw'n deall geiriad cwestiwn penodol y dylai'r Addasydd Iaith addasu mewn arholiad.

**Rhaid** i gopi'r Addasydd Iaith o'r papur cwestiynau:

- gael ei anodi dim ond yn yr ystafell arholiadau ac **ni chaniateir** ei ddangos i unrhyw un arall heblaw am Addasydd Iaith arall sy'n gweithio yn yr un ystafell; **a**
- gael ei gadw gan y ganolfan tan y bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adolygiadau o'r marcio wedi mynd heibio i'r gyfres arholiadau perthnasol.

## Cofiwch

**Ar wahân i Gymwysterau TLM, rhaid** argraffu **Ffurflen 6A** (taflen glawr yr Addasydd Iaith) o wefan y CGC:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/forms

Ar gyfer Cymwysterau TLM, **rhaid** llwytho Ffurflen 13 i lawr o'r Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

**Rhaid** hefyd rhoi Ffurflen 6A neu Ffurflen 13 y tu mewn i sgript gyflawn yr ymgeisydd.

### Y rheolau – defnyddio Addasydd Iaith

Addasydd Iaith penodedig:

- **gall** yr Addasydd Iaith Lafar fynd trwy'r cyfarwyddiadau a darllen y cwestiynau i'r ymgeisydd; (Lle y caniateir, mae darllen i ymgeiswyr yn rhan o rôl yr Addasydd Iaith.)
- **dim ond** pan fydd ymgeisydd yn nodi **angen penodol am gymorth** y dylai aralleirio neu esbonio cyfarwyddiadau'r papur cwestiynau;
- rhaid i Addasydd Iaith lafar **beidio ag** aralleirio neu egluro iaith dechnegol neu benodol i'r pwnc gan y gallai hyn roi mantais neu anfantais i'r ymgeisydd;
- **rhaid iddo beidio** â newid deunydd ffynhonnell sy'n profi gallu'r ymgeisydd i ddeall y wybodaeth. Mae deunydd ffynhonnell yn aml yn ddyfyniad a gall fod cydnabyddiaeth o'r ffynhonnell wreiddiol;
- **rhaid** iddo fod yn ofalus iawn wrth addasu geiriau 'gorchymyn' mewn cwestiynau megis *disgrifiwch, esboniwch* ac *awgrymwch* gan y gallai newid geiriau o'r fath newid natur y cwestiwn a rhoi'r ymgeisydd o dan anfantais. Yn y rhan fwyaf o achosion **ni** ddylid addasu geiriau gorchymyn;
- **rhaid** sicrhau bod y dull o gyfathrebu a ddefnyddir yn adlewyrchu dull arferol yr ystafell ddosbarth.
  Gall hyn gynnwys dweud y gair neu'r ymadrodd, Saesneg wedi'i chodio â llaw, h.y. sillafu â bys neu SSE (Saesneg wedi'i gefnogi ag arwyddion), y defnydd o Lefaru wedi'i Giwio, y defnydd o BSL neu'r defnydd o ysgrifen i esbonio ystyr gair neu ymadrodd;
- **rhaid** cofnodi unrhyw aralleirio neu esbonio ar y daflen glawr Addasydd Iaith. Os na fu unrhyw aralleirio neu eglurhad, **rhaid** nodi hyn hefyd ar y ddalen glawr;
- **rhaid** tanlinellu ar ddiwedd yr arholiad unrhyw eiriau neu ymadroddion ar y papur cwestiynau a gafodd eu haralleirio neu a eglurwyd i'r ymgeisydd. Os yw'r papur cwestiynau ar wahân i'r llyfryn ateb, **rhaid** ei gysylltu wrth lyfryn ateb yr ymgeisydd;
- **rhaid** sicrhau bod nodyn o'r dull cyfathrebu a ddefnyddir, e.e. siarad, ysgrifenedig, neu BSL, yn cael ei wneud ar y daflen glawr Addasydd Iaith.

Mae awgrym ar gyfer cymorth cof i Addasydd Iaith ar gael yn Atodiad 3.

## 5.12 Siaradwr byw ar gyfer cydrannau arholiadau wedi'u recordio ymlaen llaw

**Nid yw'**n ofynnol prosesu cais am Siaradwr Byw gan ddefnyddio Trefniadau mynediad ar-lein. Nid oes angen tystiolaeth i gefnogi'r trefniant at ddibenion arolygu.

5.12.1 Caniateir i'r CAAA ddarparu siaradwr byw ar gyfer cydrannau arholiadau wedi'u recordio, e.e. arholiadau Gwrando ITM, i ymgeisydd pan mai hyn yw ei ffordd arferol o weithio yn y ganolfan. Bydd yr ymgeisydd yn cael **anawsterau parhaus a sylweddol** wrth ddilyn iaith lafar ar gyflymder cyffredin.

5.12.2 Ar gyfer profion clywedol, gall fod angen mwyhad clir er mwyn gwella gallu'r ymgeisydd i glywed, neu gellir darllen trawsgrifiad o'r arholiad darllen er mwyn galluogi'r ymgeiswyr hefyd i ddarllen gwefusau/lleferydd. (Gweler Pennod 6, paragraff 6.6.5 am wybodaeth bellach ar archebu trawsgrifiadau o brofion.) Dylai'r CAAA ymgynghori ag athro arbenigol wrth ystyried trefniadau i ymgeiswyr ag amhariad synhwyraidd h.y. Athro Plant a Phobl Ifanc Byddar cymwysedig.

5.12.3 Bydd y siaradwr byw yn siarad, yn darllen yn uchel neu'n annog yn yr iaith sy'n cael ei hasesu, e.e. Ffrangeg wedi'i hannog, cynnwys y CD neu'r tâp mewn arholiad Gwrando.

5.12.4 Lle mae'n hawdd cymysgu llythrennau dechreuol geiriau, e.e. deux fois a neuf fois, gall y siaradwr byw:

- ddal cerdyn i fyny'n dangos y llythyren gyntaf, h.y. 'd' neu 'n';
- ysgrifennu 'n' neu 'd' ar y bwrdd;
- sillafu â bys llythyren flaen y gair.

5.12.5 Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai athro pwnc neu athro arbenigol yr ymgeisydd weithredu fel siaradwr byw.
Fodd bynnag, **rhaid** i oruchwyliwr fod yn yr ystafell arholiadau **bob amser**.

5.12.6 Yn ddelfrydol dylai siaradwr byw weithio gydag un ymgeisydd. **Rhaid i'r ganolfan bob amser** ystyried galluoedd ymgeiswyr fel darllenwyr gwefusau/lleferydd wrth ofyn iddyn nhw rannu siaradwr byw. **Ni** ddylid byth neilltuo mwy na chwe ymgeisydd i un siaradwr byw, a dylid eu rhoi i eistedd mewn ffordd sy'n sicrhau'r budd mwyaf o'r siaradwr byw.

5.12.7 Lle caiff cryno ddisgiau neu drawsgrifiadau o arholiadau eu defnyddio, dylid caniatáu i'r siaradwr byw gael y cryno ddisg neu'r trawsgrifiad **awr cyn yr amser a gyhoeddwyd gan y corff dyfarnu ar gyfer dechrau'r arholiad.**

Bwriad hyn yw caniatáu amser i'r siaradwr byw baratoi. Gall fod angen oedi dechrau'r arholiad i'r ymgeisydd/ymgeiswyr o dan sylw. **Rhaid** i'r ymgeisydd/ymgeiswyr gael eu rhoi o dan oruchwyliaeth y ganolfan pan fydd y siaradwr byw'n paratoi at yr arholiad.

5.12.8 Caniateir ailadrodd ychwanegol, os oes ei angen, er mwyn cymryd i ystyriaeth bod yr ymgeisydd yn dioddef diffyg canolbwyntio yn **barhaus** neu i alluogi'r ymgeisydd i brosesu'r wybodaeth yn haws.

Gallai fod angen hyd at 25% o amser ychwanegol oherwydd yr ailadrodd ychwanegol ac **anawsterau sylweddol a pharhaus** yr ymgeisydd wrth ddilyn iaith ar lafar ar gyflymder cyffredin. (Gweler Pennod 5, paragraff 5.2.3.)

Mewn **amgylchiadau prin ac eithriadol iawn**, gall fod angen hyd at 50% o amser ychwanegol ar yr ymgeisydd. (Gweler Pennod 5, adran 5.3.)

**Rhaid** prosesu cais am amser ychwanegol ar-lein **bob amser**.

5.12.9 Os yw'r recordiad yn cynnwys defnyddio dau neu ragor o gymeriadau, gellid defnyddio siaradwr byw gwahanol am bob rôl. Fodd bynnag, os teimlir ei bod yn ddymunol defnyddio un siaradwr byw am y prawf cyfan, **rhaid** ei gwneud yn glir pa gymeriad sy'n siarad.

## 5.13 Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion

Nid yw'n ofynnol prosesu cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* nac i gofnodi bod y trefniant yn cael ei ddefnyddio. Nid oes angen tystiolaeth i gefnogi'r trefniant.

5.13.1 Caniateir i'r CAAA ddarparu Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion i ymgeisydd lle mai hynny yw ei ffordd arferol o weithio yn y ganolfan.

### Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion

5.13.2 Rôl y Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion yw cyflwyno'r cwestiynau mewn iaith wahanol heb:

- newid yr ystyr; **a/neu**
- rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol; **neu**
- roi esboniad am yr hyn y mae'r cwestiwn am ei gael gan yr ymgeisydd.

5.13.3 Bydd Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion yn gweithio'n 'fyw' ym mhresenoldeb yr ymgeisydd yn ystod yr arholiad er mwyn caniatáu am amrywiadau rhanbarthol yr ymgeisydd o ran arwyddion BSL/Iaith Arwyddion Iwerddon. O ganlyniad, ni all y corff dyfarnu wirio'r dehongliad iaith arwyddion am gywirdeb. **Rhaid bod yn ofalus iawn na fydd yr ymgeisydd yn cael mantais nac anfantais trwy hyn.** Dylai'r canolfannau greu fideo o'r Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion wrthi er mwyn dangos cywirdeb.

### Y rheolau – y defnydd o Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion

5.13.4 **Rhaid** i'r Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion fod yn hyddysg wrth ddefnyddio iaith arwyddo'r ymgeisydd, a rhaid iddo yn ddelfrydol fod yn gymwys i BSL/Iaith Arwyddion Iwerddon Lefel 3 **o leiaf** (ac ymgyrraedd tuag at Lefel 6). **Rhaid** i'r Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion fod ar lefel briodol ar gyfer yr arholiad. Cynghorir bod y Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion yn Addasydd Iaith Lafar cymwys hefyd. **Rhaid** i'r Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion fod yn gyfarwydd i'r ymgeisydd a **rhaid** iddo weithio ar gyflymder yr ymgeisydd **bob amser**.

5.13.5 **Rhaid** i'r Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion fod yn gyfarwydd â'r pwnc sy'n cael ei arholi a ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio. Bydd hyn yn sicrhau **nad** yw ystyr y cwestiwn yn cael ei newid a bod termau technegol a phenodol i'r pwnc yn cael eu hadnabod a'u sillafu â'r bysedd. (**Ni** ddylid arwyddo termau technegol a phenodol i'r pwnc.)

(Mae gallu'r ymgeisydd i adnabod a deall fersiwn Saesneg (neu Gymraeg) o dermau technegol neu rai penodol i'r pwnc yn rhan o'r asesiad. Os bydd termau o'r fath yn cael eu harwyddo yn hytrach na'u sillafu â'r bysedd, yna bydd gofynion y cwestiwn wedi'u cyfaddawdu. **Mae hyn yn gamymddwyn.**)

5.13.6 **Nid** yw Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion yn ddarllenydd. Fodd bynnag, gall yr un person fod yn ddarllenydd ac yn Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion. Rhaid bod caniatâd wedi'i roi i ddefnyddio Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion a darllenydd. Rhaid cadw'n gaeth at y rheoliadau ar gyfer defnyddio pob trefniant. (Gweler Pennod 5, adran 5.5 am reolau defnyddio darllenydd.)

5.13.7 Gall y Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion arwyddo'r cyfarwyddiadau a'r cwestiynau i ymgeiswyr sy'n sefyll papurau ysgrifenedig heblaw mewn arholiadau Ieithoedd Tramor Modern neu Saesneg, Gwyddeleg neu Gymraeg Iaith.

5.13.8 Mewn arholiadau Ieithoedd Tramor Modern neu Saesneg, Gwyddeleg neu Gymraeg Iaith dim ond arwyddo'r cyfarwyddiadau y gall y gweithiwr proffesiynol Iaith Arwyddion ei wneud, ni all arwyddo'r cwestiynau.

5.13.9 **Ni ddylai'r** gweithiwr proffesiynol Iaith Arwyddion arwyddo testunau/deunydd ffynhonnell na detholiadau llenyddol.

## Iaith Arwyddion Proffesiynol

5.13.10 Gall y Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion ddefnyddio ailadrodd os yw'r ymgeisydd yn gofyn am hyn. Gellir darparu arwyddion amgen o'r cyfarwyddiadau. Fodd bynnag, ni ellir mewn unrhyw amgylchiadau roi esboniad o'r cwestiwn neu eglurhad o'r cyfarwyddiadau. Bernir y byddai gweithredu fel hyn yn rhoi mantais annheg i'r ymgeisydd a **gallai fod yn achos o gamymddwyn**.

5.13.11 Ni ellir ond caniatáu i ymgeiswyr arwyddo eu hatebion mewn papurau cwestiynau neu mewn asesiadau di-arholiad pan fydd yn bosibl sillafu'r atebion â'r bysedd neu lle mae'r atebion yn rhai un gair.

Mae awgrym ar gyfer cymorth cof i Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion i'w gael yn Atodiad 4.

### Ffactorau y mae'n rhaid i'r ganolfan eu hystyried

5.13.12 Gallai fod angen 25% o amser ychwanegol oherwydd yr ailadrodd ychwanegol ac **anawsterau sylweddol a pharhaus** yr ymgeisydd. (Gweler Pennod 5, paragraff 5.2.3.)

5.13.13 Lle bo ar gael, **rhaid bob amser** archebu papur arholiad â'r iaith wedi'i haddasu i ymgeiswyr sy'n defnyddio Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion (gweler Pennod 6, adran 6.6).

5.13.14 Gellir agor y pecyn papurau cwestiynau **yn yr ystafell ddiogel un awr cyn yr amser a gyhoeddwyd gan y corff dyfarnu ar gyfer amser dechrau'r arholiad.** Dylid darparu papur cwestiynau i'r Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion er mwyn caniatáu i'r sawl dan sylw baratoi at yr arholiad. **Ni ddylid trafod na dangos cynnwys y papur i berson arall yn ystod y cyfnod hwn gan y byddai hyn yn gamymddwyn.**

5.13.15 Efallai y bydd angen rhoi ymgeiswyr y mae angen iddynt ddefnyddio Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion mewn ystafell arall, ar wahân i'r brif ystafell arholiadau, ac os felly, bydd angen goruchwyliwr ar wahân.

**Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)**

Mewn Profion Siarad a Gwrando Cymraeg, Saesneg a Gwyddeleg **ni chaniateir** defnyddio Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion.

**Ni chaniateir** Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion mewn papurau ysgrifenedig Cymraeg, Saesneg a Gwyddeleg ar wahân i roi cyfarwyddiadau'r papurau cwestiynau, onid yw hyn wedi'i ganiatáu'n benodol gan y fanyleb ar lefelau penodol.

Ni chaniateir arwyddo unrhyw ran o brofion darllen Saesneg, Gwyddeleg neu Gymraeg i ymgeiswyr. Fodd bynnag, gall yr ymgeisydd ddefnyddio iaith arwyddion yn benodol i ddangos ei fod wedi darllen y darn yn gywir. Dylid cysylltu â'r corff dyfarnu am gyngor.

## Cofiwch

Ar wahân i gymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad, rhaid argraffu Ffurflen 6 (taflen glawr Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion) o wefan CGC:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/forms

**Ar gyfer Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad, rhaid** llwytho Ffurflen 13 i lawr o Borth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

**Rhaid** hefyd rhoi Ffurflen 6 neu Ffurflen 13 y tu mewn i sgript gyflawn yr ymgeisydd.

## 5.14 Cynorthwyydd ymarferol

### Prosesu ceisiadau

5.14.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran ar derfynau amser, **rhaid** prosesu cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

5.14.2 Bydd *Trefniadau mynediad ar-lein* yn gwrthod yn awtomatig unrhyw geisiadau i ddefnyddio cynorthwyydd ymarferol. Yna mae'n **rhaid** i'r ganolfan wneud atgyfeiriad ar-lein.

Cyn prosesu cais ar-lein am gynorthwyydd ymarferol, **rhaid** ymgynghori ag athrawon pynciau. Bydd hyn yn sicrhau na fyddai'r tasgau arfaethedig y byddai'r cynorthwyydd ymarferol yn eu cyflawni mewn arholiad, neu asesiad di-arholiad, yn annilysu'r amcanion asesu cyhoeddedig a'r sgiliau y mae angen i ymgeisydd eu dangos yn annibynnol.

Wrth gyfeirio cais at gorff dyfarnu, **rhaid** darparu gwybodaeth fanwl sy'n rhestru'r tasgau y byddai'r cynorthwyydd ymarferol yn eu cyflawni. Bydd hyn yn caniatáu i'r corff dyfarnu sicrhau nad yw'r amcanion asesu'n cael eu cyfaddawdu, yn enwedig mewn pynciau fel Daearyddiaeth, Mathemateg a'r Gwyddorau.

5.14.3 **Ni** ddylid caniatáu i gynorthwyydd ymarferol ymgymryd â thasgau corfforol na dangos galluoedd corfforol lle maent yn rhan o'r amcanion asesu. Bydd mwy o gyfyngiadau ar rôl cynorthwyydd ymarferol mewn pynciau fel Celf a Dylunio, Dylunio a Thechnoleg a Cherddoriaeth.

5.14.4 Os cymeradwyir cynorthwyydd ymarferol, bydd yn cyflawni tasgau ymarferol ar gyfarwyddyd yr ymgeisydd.
(Gweler Y rheolau – defnyddio cynorthwyydd ymarferol yn yr adran hon.)

Er enghraifft**:**

- Efallai y bydd angen i ymgeisydd â chydlyniad symud gwael iawn gael help i ddal pren mesur, rhoi pren mesur yn y man priodol i dynnu llinell neu droi tudalennau'r sgript. Efallai y bydd angen cymorth ar yr ymgeisydd hefyd wrth ddefnyddio offer Mathemategol.

- Efallai y bydd angen i ymgeisydd ag amhariad sylweddol ar ei olwg gael arwain ei law at y dudalen neu'r adran berthnasol o destun mewn papur cwestiynau. **Rhaid cymryd gofal i beidio ag arwain yr ymgeisydd at yr ateb**.

- Efallai y bydd angen cynorthwyydd ymarferol ar ymgeisydd dall i gofnodi safle pwyntiau neu linellau sy'n cael eu dynodi ar graff cyffyrddol gan ddefnyddio pinnau a bandiau elastig.

### Ffactorau y mae'n rhaid i'r ganolfan eu hystyried

5.14.5 **Nid** yw cynorthwyydd ymarferol yn ddarllenydd nac yn ysgrifennydd. Gall yr un person weithredu fel cynorthwyydd ymarferol, darllenydd a/neu ysgrifennydd os rhoddwyd caniatâd am y trefniadau. Rhaid cadw'n gaeth at reoliadau defnyddio pob trefniant.

5.14.6 Efallai y bydd angen rhoi ymgeiswyr sy'n defnyddio cynorthwyydd ymarferol mewn ystafell arall, i ffwrdd o'r brif ystafell arholiadau.

Os yw'r ymgeisydd a'r cynorthwyydd ymarferol yn cael eu lleoli mewn ystafell arall, ar sail **un i un**, **ni all** y cynorthwyydd ymarferol weithredu fel goruchwyliwr hefyd os yw'n athro pwnc, Cynorthwyydd Cefnogaeth Dysgu neu gynorthwyydd addysgu i'r ymgeisydd.

5.14.7 **Rhaid** i'r cynorthwyydd ymarferol fod yn ymwybodol, cyn yr arholiad, o'r dasg/tasgau y bydd yn ei/u gwneud fel y'i/y'u cymeradwywyd gan y corff dyfarnu.

## Y rheolau – defnyddio cynorthwyydd ymarferol

Cynorthwyydd ymarferol penodedig:

- **rhaid** iddo wneud tasgau ymarferol **fel sydd wedi'i gymeradwyo gan y corff dyfarnu** ac yn unol â chyfarwyddyd yr ymgeisydd, oni bai bod y sgìl sydd i'w berfformio yn ganolbwynt yr asesiad, (ac os felly **ni chaniateir** y cynorthwyydd ymarferol) neu byddai'r weithdrefn yn anniogel;

- **rhaid** i gynorthwyydd ymarferol gyfeirio unrhyw broblemau cyfathrebu a geir yn ystod yr asesiad at y goruchwyliwr neu'r swyddog arholiadau ar unwaith;

- **rhaid cadw at y rheoliadau gan y gall methiant i wneud hynny arwain at ddiarddel yr ymgeisydd;**

- **rhaid** i gynorthwyydd ymarferol sicrhau diogelwch yr ymgeisydd a'r rhai o'i gwmpas;

- **ni ddylai** cynorthwyydd ymarferol roi help ffeithiol i'r ymgeisydd na dweud pryd bydd y dasg yn gyflawn;

- **ni ddylai** ysgrifennydd roi cyngor i'r ymgeisydd ynglŷn â pha gwestiynau i'w hateb, pa bryd i symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf, na threfn ateb y cwestiynau;

- **gall** cynorthwyydd ymarferol ofyn i'r ymgeisydd ailadrodd cyfarwyddyd os nad ydynt yn glir.

### Cofiwch

Pan fo cais yn cael ei brosesu gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*, e.e. Ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG, **rhaid** argraffu taflen glawr Cynorthwyydd Ymarferol a lenwyd eisoes o'r system a **rhaid** ei rhoi y tu mewn i sgript yr ymgeisydd.

Ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad, **rhaid** llwytho Ffurflen 13 i lawr o'r Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

**Rhaid** rhoi Ffurflen 13 y tu mewn i sgript yr ymgeisydd.

**Rhaid** atodi taflen glawr **yn ddiogel** at unrhyw asesiad di-arholiad a gaiff ei gwblhau gyda chymorth cynorthwyydd ymarferol. **Rhaid** anfon y gwaith at y cymedrolwr yn ogystal â'r sampl y gwnaed cais amdano.

Mae'n **rhaid** i'r dalennau clawr nodi'r cymorth a roddwyd gan y cynorthwyydd ymarferol.

Mae'n **rhaid** i'r daflen glawr gael ei llofnodi gan y cynorthwyydd ymarferol a'i gwrthlofnodi gan bennaeth y ganolfan neu'r swyddog arholiadau.

## Enghreifftiau – cynorthwyydd ymarferol

- Mae gan ymgeisydd barlys yr ymennydd ac ni all ddefnyddio ei ddwylo. Mae am gael ei gynnwys ar gwrs TGAU Dylunio a Thechnoleg ond ni all berfformio unrhyw sgiliau gwneud dyluniadau. Mae ei athro'n ei helpu yn ystod y cwrs. Gan na chaiff ei gredydu gydag unrhyw farciau am y sgiliau a gaiff eu cyflawni gan gynorthwyydd ymarferol, penderfynir y dylai gwblhau'r cwrs heb gofrestru am y fanyleb.

- Mae ymgeisydd am ddilyn cwrs TGAU Celf a Dylunio ond ni all gyflawni unrhyw sgiliau ymarferol yn annibynnol. Mae'r ganolfan yn gwneud cais am ganiatâd i ddefnyddio cynorthwyydd ymarferol. Gwrthodir y cais. Sylweddolir bod y fanyleb yn gofyn am sgiliau eraill na all eu cyflawni. Mae'r ymgeisydd felly'n penderfynu dilyn y cwrs er mwyn ei haddysg ond nid yw'n cofrestru am y fanyleb.

- Mae ymgeisydd sy'n astudio TGAU Addysg Gorfforol yn defnyddio cadair olwyn. Mae'n gallu arddangos ei sgiliau perfformio mewn digwyddiadau'r trac a maes mewn athletau. Mae angen cymorth cynorthwyydd ymarferol arni i osod ei chadair olwyn ac offer arall er mwyn gwneud y gorau o'i pherfformiad. Ni fernir bod cyfraniad y cynorthwyydd ymarferol yn rhoi mantais annheg ac felly caiff ei ganiatáu.

- Mae ymgeisydd ag anawsterau sgiliau echddygol manwl a bras yn astudio cymhwyster Technegol Lefel 2 mewn Plastro. Mae angen cynorthwyydd ymarferol arno i ddal tâp mesur ond gall gwblhau pob agwedd arall ar y tasgau ymarferol heb gymorth. Caniateir hyn, gan nad yw'n effeithio ar asesu ei sgiliau ymarferol.

## 5.15 Safle arall ar gyfer cynnal arholiadau

Caniateir trefniant mewn safle arall i gynnal arholiadau ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
- AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- BTEC Lefel 2 Technegol
- Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt
- TLM
- FSMQ
- TAG (UG a Safon Uwch)
- TGAU
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Lefelau T (Manylebau Pearson a CBAC)
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol
- CBAC Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
- CBAC Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu a Diplomâu Estynedig (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen)

**Rhaid** i'r CAAA gysylltu â'r swyddog arholiadau y bydd angen iddo gyfeirio at gyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations

5.15.1 Bydd goruchwyliwr yn cynnal arholiad yr ymgeisydd mewn cyfeiriad preswyl neu mewn ysbyty nad yw wedi'i gofrestru'n ganolfan, oherwydd, er enghraifft:

- mae gan yr ymgeisydd gyflwr meddygol difrifol; **neu**
- anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.

Mae gan yr ymgeisydd:

- amhariad sy'n cael **effaith andwyol sylweddol a thymor hir** sy'n golygu bod **anawsterau sylweddol a pharhaus** yn bresennol; **neu**
- salwch neu anaf dros dro ar adeg yr arholiad(au).

**Rhaid** i'r CAAA, neu uwch aelod o staff gyda chyfrifoldebau bugeiliol, fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn gallu sefyll ei arholiadau.

**Nid** oes gofyniad i brosesu cais am safle arall gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Rhaid i **ganolfannau beidio â phrosesu** cais ar-lein gan ddefnyddio 'Arall'. Fodd bynnag, **rhaid** i'r swyddog arholiadau gyflwyno ffurflen safle arall ar-lein gan ddefnyddio Porth Gweinyddu'r Ganolfan (CAP). Dim ond proses hysbysu yw hon ac nid proses gymeradwyo.

## 5.16 Trefniadau eraill ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anableddau

Ar gyfer y trefniadau a nodir isod, **nid** oes gofyniad i brosesu cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Nid oes angen unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r trefniant at ddibenion arolygu.

- Trefniadau ystafell arall, e.e. ystafell ar gyfer grŵp llai o ymgeiswyr gydag anghenion tebyg.
- Offer mwyhau.
- Taflen wag o bapur ar gyfer dwdlan, lle mae gan ymgeisydd anawsterau canolbwyntio parhaus a sylweddol (rhaid cynnwys hwn gyda llyfryn ateb yr ymgeisydd wedi'i gwblhau).
- Peiriannau Braille.
- Lliwiau yn cael eu henwi gan y goruchwyliwr ar gyfer ymgeiswyr sy'n lliwddall.
- Troshaenau lliw (byddai hyn yn cynnwys riwliau darllen, troshaenau rhithiol a riwliau darllen rhithiol).
- Papur cwestiynau arholiad ar bapur lliw a/neu wedi'i fwyhau o A4 i A3 (dylai CAAA gyfeirio at baragraff 6.5.3).
- Teganau ffidlan a pheli straen.
- Cymorth golwg isel/chwyddhadur.
- Amddiffynwyr clustiau/plygiau clustiau nad ydynt yn electronig.
- Clustffonau nad ydynt yn electronig.
- Sganwyr Darllen Nodau Optegol (OCR).
- amserydd ar ddesg ymgeisydd – cloc bach sy'n cyfrif i lawr, cloc analog neu ddigidol bach, amserydd digidol, amserydd tywod neu stopwatsh (rhaid sefydlu bod gan ymgeisydd anhawster a rhaid iddo reoli'r ddyfais ei hun).
- Papur sgwariau ar gyfer ymgeisydd ag anawsterau gweledol gofodol.

**Rhaid** i'r CAAA wneud ei benderfyniad yn seiliedig ar:

- p'un a oes gan yr ymgeisydd amhariad sylweddol a thymor hir sy'n cael effaith andwyol; **ac**
- ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio o fewn y ganolfan.

Yn achos trefniadau ystafell arall, mae anabledd yr ymgeisydd **wedi'i sefydlu yn y ganolfan** (gweler Pennod 4, paragraff 4.1.4). Mae hyn yn golygu ei fod yn hysbys i'r Tiwtor Dosbarth, Pennaeth Blwyddyn, y CAAA neu uwch aelod o staff â chyfrifoldebau bugeiliol. Er enghraifft, cyflwr meddygol tymor hir sy'n effeithio'n sylweddol ac yn andwyol.

**Rhaid** i'r trefniadau ystafell arall gyfleu ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio mewn profion mewnol a ffug-arholiadau yn yr ysgol.

**Nid** yw nerfusrwydd, gorbryder ar lefel isel neu bryder ynghylch arholiadau yn ddigon o sail i gael goruchwyliaeth ar wahân o fewn y ganolfan.

**Dim ond** pan fo'r ymgeisydd â chyflwr meddygol difrifol y gellir defnyddio ystafell amgen gyda goruchwyliaeth un i un a'r defnydd o ystafell arall yn achos ymgeisydd â chyflwr meddygol difrifol fel ffitiau niferus, syndrom Tourette neu broblemau ymddygiadol a fyddai'n amharu ar ymgeiswyr eraill yn yr ystafell arholi.

**Enghreifftiau o drefniadau ystafell arall**

- Mae ymgeisydd wedi cael diagnosis ffurfiol o anhwylder gwingo. Mae hyn yn achosi iddo rochian ar adegau a hefyd i weiddi geiriau allan yn uchel. Ym marn y CAAA byddai trefniant ystafell arall yn briodol ar sail ei anawsterau wedi'u sefydlu.

- Mae ymgeisydd wedi cael diagnosis ffurfiol o misoffonia (*misophonia*) gan arbenigwr. Gan fod gan yr ymgeisydd atgasedd eithriadol i synau, sy'n peri trallod iddo, mae'r CAAA o'r farn bod trefniant ystafell arall yn addasiad priodol a rhesymol. Bydd y swyddog arholiadau yn sicrhau y bydd synau anghymhellol yn yr ystafell lle bydd yr ymgeisydd yn gwneud ei arholiadau TGAU, fel ticio cloc, yn cael eu lleihau.

- Mae gan ymgeisydd amhariad amlsynhwyraidd sy'n effeithio ar y clyw a'r golwg. Mae'r CAAA yn astudio argymhellion yr Athro Amhariad Amlsynhwyraidd Cymwysedig. Penderfynir y bydd yr ymgeisydd yn sefyll yr arholiadau, yn rhan o grŵp llai gydag anghenion tebyg, i ffwrdd o'r brif ystafell arholi. Mae hwn yn addasiad priodol a rhesymol sy'n adlewyrchu ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio mewn asesiadau wedi'u hamseru.

Mae'r CGC wedi llunio blog ar ddeall gofynion ystafell arall:
https://www.jcq.org.uk/exams-office/blogs/

Am ragor o wybodaeth gweler Adran 14 cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau:*
http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations

I gael gwybodaeth am bapurau lliw/wedi'u mwyhau, gweler Pennod 6, adran 6.5.

## 5.17 Eithriadau

5.17.1 Mae eithriad yn gytundeb y deuir iddo gan gorff dyfarnu, cyn yr arholiad, i ymgeisydd anabl fethu cydran neu gydrannau. Bydd nodyn yn cael ei roi ar dystysgrif yr ymgeisydd i ddangos nad oedd yr holl amcanion asesu yn hygyrch.

5.17.2 **Rhaid** cyflwyno cais am eithriad yn unol â'r terfynau amser a gyhoeddwyd a restrir yn y ddogfen hon.

5.17.3 **Rhaid** i eithriad:

- beidio â thanseilio dilysrwydd y cymhwyster;
- ond cael ei ganiatáu fel dewis olaf pan nad oes unrhyw drefniant arall ar gael;
- ond bod yn gymwys i gydrannau cyfan;
- ond bod yn gymwys lle nad yw'r ymgeisydd yn gallu dangos unrhyw un o'r sgiliau;
- ffurfio dim mwy na 40% o gymhwyster TGAU neu TAG llinol neu unedol. **Rhaid** cwblhau o leiaf un uned U2 mewn cymhwyster TAG Safon Uwch unedol;
- ond bod yn gymwys mewn cymwysterau cyffredinol (gweler Pennod 1, adran 1.6 ac adran 1.8 am y rhestr o gymwysterau cyffredinol y mae deddfwriaeth cydraddoldeb yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn berthnasol iddynt).

**Ni** fydd eithriad yn cael ei ganiatáu os oes llwybr arall hygyrch drwy gymhwyster ar gael i'r ymgeisydd.

**Rhaid** bod wedi cwblhau o leiaf un gydran ar gyfer Sgiliau Gweithredol Saesneg.

5.17.4 **Nid** yw *Trefniadau mynediad ar-lein* yn cynnwys eithriadau. Fodd bynnag, mae'n galluogi canolfannau i gyfeirio ceisiadau unigol at gyrff dyfarnu.

I ddechrau, dylai'r ganolfan ddewis 'Eithriad'. Bydd hyn yn arwain at wrthod y cais yn awtomatig. Yna, **rhaid** i'r ganolfan wneud atgyfeiriad ar-lein i'r corff dyfarnu perthnasol gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

**Rhaid** i'r ganolfan nodi anabledd yr ymgeisydd fel bod gan y corff dyfarnu'r wybodaeth angenrheidiol wrth law wrth ystyried cais am eithriad. **Rhaid** i'r corff dyfarnu fod yn sicr bod yr eithriad yn drefniant yn niffyg dim arall.

Yn ogystal, mewn perthynas â ffurflen CGC *Cais am Eithriad*:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/forms
rhaid ei uwchlwytho i *Trefniadau mynediad ar-lein,* ynghyd â'r holl ddogfennaeth berthnasol arall, er mwyn ategu'r cais ar-lein am eithriad.

5.17.5 Yn y gymeradwyaeth ymarferol ar gyfer TAG Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg neu Ffiseg neu'r gymeradwyaeth ar gyfer Iaith Lafar TGAU Saesneg Iaith lle na all ymgeisydd gael mynediad at y gymeradwyaeth oherwydd amhariad sylweddol, rhaid cyflwyno cais am eithriad i'r corff dyfarnu perthnasol. Mae'r rheoleiddwyr yn ei gwneud hi'n ofynnol na all ymgeisydd sydd wedi'i eithrio rhag elfen cymeradwyaeth ymarferol cymhwyster gael unrhyw eithriadau eraill yn y cymhwyster hwnnw.

## 5.18 Geiriadur cyfieithu dwyieithog â 25% o amser ychwanegol

**Nid** yw'n ofynnol prosesu cais am eiriadur cyfieithu dwyieithog (heb 25% o amser ychwanegol) gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Nid oes angen unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r trefniant at ddibenion arolygu.

Ar gyfer y rheoliadau ar ddefnyddio geiriadur dwyieithog, yn cynnwys y pynciau hynny lle na chaniateir geiriadur dwyieithog, gweler dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau:* https://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations (ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC)

### Prosesu ceisiadau

5.18.1 Nid yw geiriadur dwyieithog **gyda** 25% o amser ychwanegol ar gael fel arfer i ymgeiswyr sy'n cael eu cofrestru am y cymwysterau Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2, ac sydd hefyd yn bodloni'r holl feini prawf cyhoeddedig ym mharagraff 5.18.6:

- AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- BTEC Lefel 2 Technegol
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt (Lefel 2)
- Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)
- Sgiliau Hanfodol (Lefelau 1 a 2)
- TGAU
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
- CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol

5.18.2 Lle defnyddir geiriadur cyfieithu dwyieithog gyda 25% o amser ychwanegol yn y cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 canlynol, rhaid prosesu cais ar-lein gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein:* Ni fydd angen rhagor o dystiolaeth i'w harchwilio.

- AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- BTEC Lefel 2 Technegol
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt (Lefel 2)
- Sgiliau Hanfodol (Lefelau 1 a 2)
- TGAU
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
- CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol

Ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad, gweler Pennod 8.

5.18.3 **Nid yw** geiriadur dwyieithog **gyda** 25% o amser ychwanegol ar gael fel arfer i ymgeiswyr sy'n cael eu cofrestru am y cymwysterau Lefel 3 canlynol:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
- Cymwysterau Technegol Lefel 3 AQA
- Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
- Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt (Lefel 3)
- Sgiliau Hanfodol (Lefel 3)
- Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Lefelau T
- CBAC Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu a Diplomâu Estynedig (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen).

Mewn **amgylchiadau prin ac eithriadol** lle mae ymgeisydd y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddo wedi cyrraedd y Deyrnas Unedig oherwydd **amgylchiadau personol lliniarol a heriol**, gall y ganolfan ddewis 'Arall' gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Bydd hyn yn arwain at wrthod y cais yn awtomatig. Yna mae'n **rhaid** i'r ganolfan wneud atgyfeiriad ar-lein i'r corff dyfarnu perthnasol.

**Rhaid** i'r Cydlynydd Saesneg fel iaith ychwanegol neu'r CAAA lunio rhesymeg cymhellol sy'n nodi amgylchiadau eithriadol yr ymgeisydd. Dylid cyfeirio at baragraff 5.18.6.

5.18.4 **Rhaid** i'r Cydlynydd Saesneg fel iaith ychwanegol neu'r CAAA bennu anghenion yr ymgeisydd unigol. Ni fydd angen i bob ymgeisydd y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddo ddefnyddio geiriadur cyfieithu dwyieithog. Prin iawn fydd nifer y defnyddwyr geiriaduron cyfieithu dwyieithog y mae angen 25% o amser ychwanegol arnynt.

Mae hwn yn drefniant anghyffredin ac eithriadol arbennig ar gyfer ymgeisydd a ddaeth i'r Deyrnas Unedig lai na thair blynedd cyn amser yr arholiad(au), heb unrhyw wybodaeth flaenorol o'r Iaith Saesneg. (Caiff cyfnodau gwyliau eu cynnwys yn y rheol tair blynedd.)

Atgoffir canolfannau y bydd 'dyddiad diweddu cymeradwyo cais' yn cael ei roi yn awtomatig ar geisiadau sy'n 26 mis o ddyddiad prosesu'r cais ac nid dyddiad dod i mewn i'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, bydd y trefniant yn cael ei gymeradwyo am dair blynedd o'r dyddiad y cyrhaeddodd y Deyrnas Unedig. Lle bo'r cyfnod o dair blynedd ers i'r ymgeisydd ddod i'r Deyrnas Unedig yn digwydd o fewn cyfres arholiadau, caniateir i'r ymgeisydd gwblhau'r gyfres honno yn llawn gan ddefnyddio geiriadur dwyieithog gyda 25% o amser ychwanegol.

5.18.5 Mewn pynciau lle na chaniateir geiriadur dwyieithog, **bydd** 25% o amser ychwanegol ar gael**o hyd**. Mae hyn er mwyn helpu i wneud iawn am ddiffyg mynediad at y geiriadur dwyieithog. Bydd cais ar-lein wedi'i gymeradwyo am eiriadur dwyieithog gyda 25% o amser ychwanegol yn caniatáu i'r CAAA roi 25% o amser ychwanegol i'r ymgeisydd yn yr arholiadau hynny lle **na chaniateir** geiriadur dwyieithog.

5.18.6 **Dim ond** lle mae'r canlynol i gyd yn bodoli y dylai'r Cydlynydd Saesneg fel iaith ychwanegol neu'r CAAA wneud cais am 25% o amser ychwanegol:

- **nid** Cymraeg, Saesneg na Gwyddeleg yw iaith gyntaf yr ymgeisydd;
- daeth yr ymgeisydd i'r Deyrnas Unedig o fewn tair blynedd i'r arholiad(au), mae dysgu yn yr iaith Saesneg yn newydd iddo ac nid oes ganddo ddigon o wybodaeth flaenorol a chyfredol o Saesneg academaidd. Efallai fod yr ymgeisydd wedi'i asesu pan gyrhaeddodd gan nodi bod Saesneg yn newydd iddo (Band A ar raddfeydd yr AA) neu ar gamau caffael cynnar datblygiad iaith (Band B ar raddfeydd yr AA).
- **Nid** yw Saesneg yn un o'r ieithoedd sy'n cael ei siarad yng nghartref y teulu†;
- **cyn iddo gyrraedd yn y Deyrnas Unedig**, **nid oedd** yr ymgeisydd:
    - wedi derbyn addysg mewn ysgol ryngwladol lle y cyflwynwyd rhywfaint o'r cwricwlwm neu'r cwricwlwm cyfan yn Saesneg;
    - wedi paratoi neu wedi'i gofrestru ar gyfer cymwysterau IGCSE lle roedd y papurau cwestiwn wedi'u gosod yn Saesneg;
    - wedi paratoi yn Saesneg ar gyfer cymwysterau eraill, e.e. Cymwysterau IELTS neu Cynbrofion Saesneg;
- rhaid i'r ymgeisydd gyfeirio at y geiriadur dwyieithog **mor aml** fel bod amser arholiad yn cael ei ddefnyddio i'r diben hwn, gan olygu bod oedi cyn ateb y cwestiynau;
- mae'r ddarpariaeth o 25% o amser ychwanegol yn adlewyrchu ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio gyda'r geiriadur. (Caiff diffiniad o ystyr y ffordd arferol o weithio ei roi ym Mhennod 4, paragraff 4.2.5.)

†Pe byddai ymgeisydd **heb unrhyw wybodaeth flaenorol o'r Iaith Saesneg** yn cael ei osod mewn cartref maeth pan fydd yn cyrraedd y Deyrnas Unedig, **ni** fyddai'n cael ei ystyried yn rhywun sy'n byw yn eu cartref teuluol

5.18.7 Lle **nad** yw ymgeisydd â Saesneg yn iaith ychwanegol yn defnyddio geiriadur dwyieithog ond y bydd angen 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd arnyn nhw, **rhaid** i'r CAAA ddefnyddio Ffurflen 8 i ddangos bod anhawster dysgu sylfaenol neu Ffurflen 9 i ddangos bod rhyw amhariad sylweddol arall, **cyn** prosesu cais ar-lein.

## 5.19 Mynediad at ffôn symudol at ddibenion meddygol

5.19.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran terfynau amser, **rhaid** prosesu cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

5.19.2 **Rhaid** i'r CAAA lenwi Ffurflen 9 yn cadarnhau cyflwr meddygol yr ymgeisydd a'r angen i gael mynediad i'w ffôn symudol yn ystod arholiad. **Rhaid** i dystiolaeth ffurfiol fod ar gael i gadarnhau cyflwr meddygol yr ymgeisydd.

5.19.3 Bydd *Trefniadau mynediad ar-lein* yn cymeradwyo ceisiadau lle mae cyflwr meddygol ar ymgeisydd ac yn cael ei oruchwylio'n unigol pan fydd y goruchwyliwr yn rhoi ei ffôn symudol iddo i wirio'r cyflwr hwn.

5.19.4 **Nid** yw'r ffaith bod gan ymgeisydd fynediad at ffôn symudol at ddibenion meddygol yn rhoi hawl awtomatig i 25% o amser ychwanegol iddo.

## 5.20 Goruchwylio o bell gan ddefnyddio technoleg e.e. Microsoft Teams neu Zoom

5.20.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran terfynau amser, **rhaid** prosesu cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

**Nid** yw goruchwyliaeth o bell yn golygu bod goruchwyliwr yn mynd i gartref yr ymgeisydd i gynnal pob arholiad. Trefniant safle arall yw hyn. Dylid cyfeirio at adran 5.15. Goruchwyliaeth o bell yw cynnal arholiad gan ddefnyddio technoleg, fel Microsoft Teams neu Zoom, lle mae'r goruchwyliwr a'r ymgeisydd mewn gwahanol leoliadau corfforol.

5.20.2 Bydd *Trefniadau mynediad ar-lein* yn gwrthod yn awtomatig unrhyw geisiadau i ddefnyddio goruchwylio o Bell. Yna mae'n rhaid i'r ganolfan wneud atgyfeiriad ar-lein.

5.20.3 Gall goruchwylio arholiadau o bell fod yn dderbyniol mewn **amgylchiadau eithriadol** i gefnogi ymgeisydd na fyddai'n gallu sefyll ei arholiadau fel arall. Mae gan yr ymgeisydd:

- cyflwr meddygol sydd wedi derbyn diagnosis ffurfiol; **neu**
- anabledd corfforol; **neu**
- anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl; **neu**
- afiechyd dros dro neu anaf dros dro sylweddol iawn.

**Rhaid** i dystiolaeth ffurfiol fod ar gael i gadarnhau amhariad yr ymgeisydd.

5.20.4 Fel rhan o'r broses atgyfeirio ar-lein mae'n **rhaid** i'r CAAA lenwi Ffurflen 9 yn cadarnhau bod y canlynol **i gyd** wedi'u hystyried:

- yr ymgeisydd sy'n sefyll ei arholiadau yn y ganolfan drwy drefniadau ystafell arall;
- goruchwyliwr sy'n mynd i gartref yr ymgeisydd i gynnal pob arholiad(trefniant safle arall);
- nad yw'r ymgeisydd wedi cwblhau rhai arholiadau yn barod ac a fyddai felly'n gallu bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer ystyriaeth arbennig.

5.20.5 **Rhaid** i bennaeth y ganolfan gadarnhau bod modd rhedeg arholiad wedi'i oruchwylio o bell yn unol â gofynion y corff dyfarnu a hefyd y disgwyliadau a nodwyd yng nogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.

5.20.6 Dim ond pan fydd corff dyfarnu wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw y gellir defnyddio goruchwylio o bell. Rhaid i'r corff dyfarnu fod yn fodlon bod modd cynnal uniondeb a diogelwch yr arholiad. **Ni fydd** yn cael ei ganiatáu ar ddiwrnod arholiad.

5.20.7 Mae Canllawiau i ganolfannau ar oruchwylio o bell i'w gweld yn: http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

## 5.21 Amrywiad ar yr amserlen i ymgeisydd ag anabledd sy'n gofyn am oruchwyliaeth dros nos

5.21.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran terfynau amser, **rhaid** prosesu cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

5.21.2 Gellir prosesu cais am amrywiad i amserlen mewn amgylchiadau eithriadol lle bo gan ymgeisydd:

- gyflwr meddygol sydd wedi derbyn diagnosis ffurfiol; **neu**
- anabledd corfforol; **neu**
- anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl; **neu**
- amhariad ar y golwg.

**Rhaid** i dystiolaeth ffurfiol fod ar gael i gadarnhau amhariad yr ymgeisydd.

5.21.3 **Rhaid** i'r CAAA lenwi Ffurflen 9 yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd a'r angen am amrywiad i amserlen.

5.21.4 Bydd *trefniadau mynediad ar-lein* yn cymeradwyo ceisiadau lle mai dim ond un arholiad yn y gyfres sy'n cael ei drosglwyddo o'r sesiwn brynhawn swyddogol i'r bore canlynol i'r bore canlynol.

Bydd gofyn i'r ganolfan gadarnhau y bydd yr ymgeisydd a'i riant (rhieni) / gofalw(y)r yn cadw at y gofynion ar gyfer goruchwyliaeth dros nos. **Rhaid** i ffurflen datganiad o oruchwyliaeth dros nos gael ei llenwi a bod ar gael i'w harolygu.

5.21.5 Bydd *trefniadau mynediad ar-lein* yn gwrthod ceisiadau'n awtomatig lle cynigir y bydd angen mwy nag un amrywiad ar yr amserlen yn ystod y gyfres arholiadau. Yna mae'n **rhaid** i'r ganolfan wneud atgyfeiriad ar-lein.

5.21.6 **Ni ddylid** prosesu cais ar-lein nes y bydd wedi'i bennu pa arholiadau'r ymgeisydd fydd yn destun amrywiad ar yr amserlen.

**Rhaid** cofnodi manylion llawn holl arholiadau'r ymgeisydd a fydd yn destun amrywiad ar yr amserlen fel rhan o'r atgyfeiriad ar-lein i'r corff dyfarnu. Rhaid darparu dyddiad a sesiwn arfaethedig pob arholiad.

Pan fo'r ganolfan yn 'torri a gludo' gwybodaeth am yr amserlen o gronfa ddata, rhaid iddynt sicrhau bod holl arholiadau'r ymgeisydd a fydd yn destun amrywiad ar yr amserlen wedi'u rhestru.

## 5.22 Amrywiad ar yr amserlen ar ddiwrnod yr arholiad i ymgeisydd ag anabledd

5.22.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran terfynau amser, **rhaid** prosesu cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

5.22.2 Gellir prosesu cais am amrywiad i amserlen mewn amgylchiadau eithriadol lle bo gan ymgeisydd:

- gyflwr meddygol sydd wedi derbyn diagnosis ffurfiol; **neu**
- anabledd corfforol; **neu**
- anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl; **neu**
- amhariad ar y golwg;

sy'n golygu eu bod yn gorfod sefyll arholiad ar amser hwyrach na gynharach ar ddiwrnod cyhoeddedig yr arholiad.

**Rhaid** i dystiolaeth ffurfiol fod ar gael i gadarnhau amhariad yr ymgeisydd.

5.22.3 Gellir prosesu cais am amrywiad i amserlen mewn **amgylchiadau eithriadol** lle mae:

- angen i ymgeisydd ddechrau arholiad prynhawn yn gynharach na 1 pm, oherwydd bod angen amser ychwanegol a/neu egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth arno a fyddai'n golygu bod hyd yr arholiad yn mynd tu hwnt i'r amser swyddogol ar gyfer cludiant ysgol; **neu**

- darparwr addysg neu awdurdod lleol wedi nodi bod yr ymgeisydd yn agored i niwed ac felly angen dechrau arholiad prynhawn yn gynharach na 1 pm, oherwydd bod hyd arholiad prynhawn yn mynd tu hwnt i'r amser swyddogol ar gyfer cludiant ysgol.

5.22.4 **Ni ddylid** prosesu cais ar-lein nes y bydd wedi'i bennu pa arholiadau'r ymgeisydd fydd yn destun amrywiad ar yr amserlen.

Rhaid i fanylion llawn holl arholiadau'r ymgeisydd a fydd yn destun amrywiad ar yr amserlen gael eu cofnodi. Rhaid rhestru dyddiad a sesiwn pob arholiad.

Pan fo'r ganolfan yn 'torri a gludo' gwybodaeth am yr amserlen o gronfa ddata, rhaid iddynt sicrhau bod holl arholiadau'r ymgeisydd a fydd yn destun amrywiad ar yr amserlen wedi'u rhestru.

5.22.5 Rhaid i'r CAAA lenwi Ffurflen 9 yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd a'r angen am amrywiad i amserlen.

5.22.6 Bydd *Trefniadau Mynediad ar-lein* yn cymeradwyo ceisiadau yn yr achosion hynny lle bydd ymgeisydd ag anabledd:

- yn sefyll arholiadau a drefnwyd ar gyfer y sesiwn bore yn ddiweddarach y bore hwnnw; **neu**
- yn sefyll arholiadau a drefnwyd ar gyfer y sesiwn bore yn y prynhawn; **neu**
- yn sefyll arholiadau a drefnwyd ar gyfer y sesiwn prynhawn yn y bore.

5.22.7 Bydd y ganolfan yn cadarnhau y bydd yr ymgeisydd a'i riant(rhieni)/gofalw(y)r yn cadw at y gofynion goruchwylio yn yr achosion hynny lle bydd yr ymgeisydd yn cyrraedd y ganolfan ar ôl 9.30 am ar gyfer arholiadau sydd i fod i'w cynnal yn sesiwn y bore.

5.22.8 Bydd y ganolfan yn cadarnhau y bydd yr ymgeisydd yn parhau i fod dan oruchwyliaeth y ganolfan tan 2.30 pm os bydd arholiad sydd i fod i'w gynnal yn sesiwn y prynhawn yn cael ei sefyll yn y bore.

## Gwrando ar gerddoriaeth/sŵn gwyn oherwydd amhariad sylweddol

5.23.1 Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran terfynau amser, **rhaid** prosesu cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*.

5.23.2 **Rhaid** i'r CAAA gwblhau Ffurflen 9 yn cadarnhau anabledd yr ymgeisydd. Bydd hwn yn ymgeisydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl neu'n ymgeisydd ag amhariad synhwyraidd fel tinnitus neu misoffonia. Efallai y bydd ymgeisydd sydd ag ADHD neu ASD yn gweld bod gwrando ar gerddoriaeth yn ei helpu i ganolbwyntio. **Rhaid** i dystiolaeth ffurfiol fod ar gael i gadarnhau cyflwr meddygol yr ymgeisydd.

5.23.3 **Rhaid** i'r ganolfan sicrhau bod yr ymgeisydd yn defnyddio dyfais nad oes modd ei chysylltu â'r rhyngrwyd ac nad yw'n gallu defnyddio Bluetooth.

Byddai'r ganolfan yn darparu'r ddyfais, fel:

- chwaraewr CD;
- gliniadur canolfan a weithredir gan y goruchwylydd;
- chwaraewr MP3;
- peiriant sŵn gwyn.

5.23.4 Gall yr ymgeisydd ddewis y gerddoriaeth neu'r sŵn gwyn. Fodd bynnag, **rhaid** gwirio'r rhestr chwarae cerddoriaeth i sicrhau nad oes unrhyw fantais i'r ymgeisydd.

# Pennod 6

# Papurau wedi'u Haddasu

## 6.1 Papurau wedi'u Haddasu – trosolwg o'r broses

**Rhaid** i ganolfannau archebu papurau wedi'u haddasu cyn cyfres arholiadau benodol, yn ddim hwyrach na'r terfyn amser a gyhoeddwyd ar gyfer y gyfres dan sylw. (Gweler y terfynau amser yn y Bennod hon.)

Caiff papurau wedi'u haddasu eu paratoi i ymgeiswyr nad yw addasiadau eraill yn addas ar eu cyfer. Mae addasu'r papurau'n cynnwys adnoddau ychwanegol. Felly rhaid i'r canolfannau roi gwybod i'r cyrff dyfarnu'n fuan os oes angen papur wedi'i addasu ar ymgeisydd.

**Ni** ddylai canolfannau archebu papurau wedi'u haddasu ar gyfer ymgeiswyr oni bai eu bod yn bwriadu eu cofrestru am y gyfres arholiadau perthnasol.


Mae *Trefniadau mynediad ar-lein* yn caniatáu i ganolfannau gyflwyno archebion am bapurau wedi'u haddasu ar gyfer y mathau canlynol o gymhwyster:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
- AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- BTEC Lefel 2 Technegol
- Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt
- TLM
- FSMQ
- TAG (UG a Safon Uwch)
- TGAU
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Lefelau T (Manylebau Pearson a CBAC)
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
- CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol
- CBAC Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu a Diplomâu Estynedig (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen).


Ceir ardal ar wahân o fewn y *Trefniadau mynediad ar-lein* sy'n galluogi canolfannau i wneud archebion ar gyfer papurau wedi'u haddasu. **Ni** chaiff canolfannau brosesu cais ar-lein gan ddefnyddio 'Arall'.

| |
|---|
| Er mwyn i'r addasiad fod yn un effeithiol, **rhaid** bod yr ymgeisydd wedi cael cyfleoedd priodol i ymarfer gan ddefnyddio cyn-bapurau'r corff dyfarnu wedi'u haddasu cyn ei (h)arholiad cyntaf. |

## Access arrangement requests



## Modified paper requests



**Y fformatau sydd ar gael yw:**

- A4 addasedig 18 pwynt trwm
- A3 addasedig 24 pwynt trwm
- A4 addasedig 24 pwynt trwm
- A3 addasedig 36 pwynt trwm
- Diagramau cyffyrddol gyda labeli print i'w defnyddio gyda phapurau wedi'u haddasu a'u mwyhau
- Papurau Braille gan gynnwys diagramau cyffyrddol gyda labeli Braille
- Iaith wedi'i haddasu (lle bo hynny ar gael)
- Papur cwestiynau electronig heb fod yn rhyngweithiol (PDF)
- Trawsgrifiad o arholiad/cyfryngau gwrando

Dylai canolfannau nodi efallai na fydd yr opsiwn o bapur A3 wedi'i addasu a'i fwyhau, mewn print trwm 36 pwynt, ar gael ar gyfer pob pwnc.

**Nid** yw *Trefniadau mynediad ar-lein* wedi'u cysylltu â systemau cofrestru cyrff dyfarnu. Dylai canolfannau wirio bod archebion am bapurau wedi'u haddasu a'r cofrestriadau gwirioneddol a wneir i gorff dyfarnu yn cyfateb.

Mae'r cyrff dyfarnu'n cyfeirio at gyhoeddiad yr UKAAF *General and Vocational Examinations for Candidates with Visual Impairment - Best Practice Guidance for Modifiers and Producers* wrth gynhyrchu papurau Braille a phapurau addasedig wedi'u mwyhau. Gellir cyrchu'r cyhoeddiad hwn o wefan UKAAF: www.ukaaf.org/sectors/#education

Mae'n **rhaid** i Gydlynwyr AAA sicrhau bod ymgeiswyr yn gyfarwydd â fformat papurau wedi'u haddasu a'u mwyhau neu bapurau Braille y gofynnir amdanynt ar gyfer arholiadau. Os bydd ymgeisydd yn bwriadu defnyddio papur cwestiynau electronig nad yw'n rhyngweithiol (PDF) yn ei arholiad(au), **rhaid** i'r CAAA sicrhau bod yr ymgeisydd yn gyfarwydd â'r fformat.

Os oes angen mynediad at bapur Braille neu bapur wedi'i addasu a'i fwyhau nad yw'r corff dyfarnu wedi ei gynhyrchu o'r blaen ac na ellir ei lawrlwytho o'i wefan, rhaid cysylltu â'r corff dyfarnu heb fod yn hwyrach na thri mis cyn bod angen y papur.

## 6.2 Papurau Braille

6.2.1 **Ni chaiff papurau Braille eu cynhyrchu ond pan wneir archebion erbyn y terfyn amser.**
**Ni chânt eu cynhyrchu'n awtomatig. Nid oes angen tystiolaeth o amhariad ar olwg yr ymgeisydd ar y cyrff dyfarnu.**

6.2.2 Caiff gosodiad a chyflwyniad y papur safonol ei addasu cyn cael ei gynhyrchu mewn Braille gan athro sy'n arbenigo mewn amhariadau ar olwg.

6.2.3 Anfonir y papur wedi'i addasu at asiantaeth Braille er mwyn trawsgrifio'r cynnwys i fersiwn Braille Saesneg Unedol (UEB) gyda chyfangiadau Gradd 2.

6.2.4 Darperir diagramau a graffiau cyffyrddol lle y bo'n briodol gyda'r papur Braille.
**Nid** oes angen archebu diagramau cyffyrddol ar wahân.

6.2.5 Efallai y gall fod angen i ganolfannau ddarparu modelau ymlaen llaw ar gyfer rhai mathau o gwestiynau.

6.2.6 Gellir gofyn am fideos neu ffilmiau sy'n cael eu defnyddio mewn asesiadau gyda disgrifiad clywedol.

## 6.3 Papurau wedi'u haddasu a'u mwyhau

6.3.1 **Dim ond pan fyddant wedi'u harchebu erbyn y dyddiad cau y caiff papurau wedi'u mwyhau eu cynhyrchu. Ni chânt eu cynhyrchu'n awtomatig.** Gan fod anghenion ymgeiswyr yn barhaus ac yn hirdymor, ac mae addasu deunydd wedi'i argraffu yn adlewyrchu ei ffordd arferol o weithio yn yr ystafell ddosbarth, **nid oes** angen asesiad o'r ymgeisydd i bennu ei angen am bapurau wedi'u haddasu a'u mwyhau.

6.3.2 Bwriedir papurau wedi'u haddasu a'u mwyhau ar gyfer ymgeiswyr na allant ddarllen papur arholiad safonol. Caiff cynllun a dull cyflwyno'r papur safonol ei addasu er mwyn tynnu unrhyw gydrannau sy'n gymhleth yn weledol heb newid gofynion yr asesiad. Yn aml bydd darluniau a diagramau'n cael eu gwneud eto er mwyn iddynt fod yn haws yn weledol.

6.3.3 Dylai canolfannau nodi y gall weithiau fod yn angenrheidiol i gorff dyfarnu gynhyrchu tudalen mewn fformat mwy ar gyfer diagramau.

6.3.4 Efallai y gall fod angen i ganolfannau ddarparu modelau ymlaen llaw ar gyfer rhai mathau o gwestiynau.

6.3.5 Gall rhai ymgeiswyr ag amhariad sylweddol ar eu golwg elwa o ddefnyddio chwyddhadur electronig neu optegol ynghyd â phapur wedi'i addasu a'i fwyhau. (**Nid** oes angen i ganolfannau brosesu cais ar-lein am chwyddhadur.)

6.3.6 Lle mae angen papur A4 print trwm 18 pwynt wedi'i addasu mewn fformat electronig nad yw'n rhyngweithiol (PDF) ar ganolfan, dylid cysylltu â'r corff/cyrff dyfarnu perthnasol.

Efallai na fydd papur wedi'i addasu a'i fwyhau ar ei ben ei hun yn addasiad digonol i ymgeisydd sydd ag amhariad difrifol ar ei olwg ar gyfer rhai pynciau fel Archaeoleg, Daeareg, Daearyddiaeth a Cherddoriaeth. Gall fod angen cynorthwyydd ymarferol a/neu ddarllenydd hefyd.

## 6.4 Addasiadau rhesymol – papurau wedi'u haddasu a'u mwyhau

6.4.1 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y fformatau safonol ar gyfer papurau wedi'u haddasu yn galluogi ymgeisydd ag amhariad sylweddol a thymor hir ar ei olwg i gael mynediad at ei arholiadau.

6.4.2 Fodd bynnag, mewn achosion prin ac eithriadol, gall fod angen i ymgeisydd y mae ganddo amhariad sylweddol a thymor hir ar ei olwg gael papurau cwestiynau sydd mewn fformat gwahanol. Bydd angen addasiad rhesymol ar yr ymgeisydd oherwydd ei anabledd.

Fel arall, gall fod angen i ymgeisydd ag amhariad amlsynhwyraidd sylweddol a thymor hir gael papurau cwestiynau gyda'r iaith wedi'i haddasu, **yn ogystal â** chynllun a chyflwyniad y papur i ddileu elfennau sy'n gymhleth yn weledol.

6.4.3 Pan fo angen papurau cwestiynau mewn fformat gwahanol ar ymgeisydd anabl, **rhaid** i'r ganolfan drafod ei ofynion penodol gydag Uned Papurau Wedi'i Haddasu y corff dyfarnu cyn gynted ag y gall wneud hynny, ar ddechrau'r cwrs yn ddelfrydol. **Rhaid** i'r CAAA ddangos i'r corff dyfarnu bod yr holl addasiadau priodol fel darllenydd cyfrifiadur, ysgrifbin darllen arholiad, chwyddhadur a darllenydd, ochr yn ochr â'r fformatau papur wedi'u haddasu a'u mwyhau safonol wedi cael eu hystyried yn llawn.

Bydd cymhwyso addasiad rhesymol, h.y. papurau cwestiynau mewn fformat gwahanol, yn dibynnu ar sawl ffactor yn cynnwys:

- anghenion yr ymgeisydd anabl; **a**
- effeithiolrwydd a chost yr addasiad.

6.4.4 **Ni fydd** addasiad yn cael ei gymeradwyo os yw'n cynnwys costau neu gyfnodau amser afresymol neu'n effeithio ar ddiogelwch neu onestrwydd yr asesiad. Mae hyn oherwydd nad yw'r addasiad yn un 'rhesymol'.

## 6.5 Papur lliw/wedi'i helaethu (e.e. Papurau maint A3 heb eu haddasu wedi'u helaethu)

6.5.1 Lle mae angen papur cwestiynau ar bapur lliw a/neu wedi'i fwyhau o A4 i A3 ar ymgeisydd, argymhellir yn gryf bod copi PDF o'r papur cwestiynau safonol yn cael ei ddefnyddio. Bydd defnyddio copi PDF o'r papur cwestiynau safonol yn sicrhau gwell ansawdd argraffu ac yn lleihau'r posibilrwydd o wall dynol wrth goladu a styffylu.

**Ar gyfer canolfannau AQA, NCFE, Pearson a CBAC,** caiff copi PDF o'r papur cwestiynau safonol ei lawrlwytho o AQA Centre Services, NCFE Portal, Porth CBAC neu Pearson Edexcel Online (SDS) o hyd at 60 munud cyn amser dechrau cyhoeddedig y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.

**Ar gyfer canolfannau CCEA ac OCR,** rhaid defnyddio *Trefniadau Mynediad ar-lein* i archebu papur cwestiynau electronig (PDF) heb fod yn rhyngweithiol. Yna gellir lawrlwytho copi PDF o'r papur cwestiynau safonol hyd at 60 munud cyn amser dechrau cyhoeddedig y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.

Dylid ystyried yr amser rhyddhau o 60 munud lle mae angen mynediad ar ganolfan i gopi PDF o'r papur cwestiynau safonol at y pwrpas hwn. **Ni fydd** corff dyfarnu yn amrywio'r amser ar gyfer rhyddhau copi PDF o'r papur cwestiynau safonol os yw canolfan yn dechrau'r arholiad yn gynharach.

**Ar gyfer canolfannau City & Guilds**, ni ellir gofyn am bapur cwestiynau electronig (PDF) nad yw'n rhyngweithiol pan fo ymgeisydd angen papur cwestiynau ar bapur lliw a/neu wedi'i ehangu o A4 i A3. Ar gyfer arholiadau amlddewis, gellir llungopïo'r daflen ateb ar bapur lliw, ond rhaid trawsgrifio atebion yr ymgeisydd ar y daflen ateb wreiddiol i'w marcio.

Caniateir y gweithredoedd canlynol yn unig:

- copïo a mwyhau'r papur cwestiynau safonol o A4 i A3; **a/neu**
- copïo papur cwestiynau ar bapur lliw; **a/neu**
- cynhyrchu papur cwestiynau wedi'i argraffu ar un ochr.

**Ni chaniateir unrhyw addasu pellach megis aildeipio'r papur cwestiynau. Efallai y bydd gweithredu fel hyn yn achos o gamymddwyn.**

6.5.2 Dylai canolfannau fod yn ymwybodol bod mwyhau papur cwestiynau arholiad yn gallu effeithio ar gwestiynau'n ymwneud â graddfa. Rhaid ystyried hyn fel rhan o broses gynhyrchu'r ganolfan. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod papur cwestiynau'r arholiad yn cael ei lungopïo i safon uchel.

6.5.3 O ystyried yr heriau logistaidd ar ddiwrnodau arholiadau lle mae angen llungopïo papurau cwestiynau ar bapur lliw, **rhaid** i'r CAAA sicrhau bod papur cwestiynau ar bapur lliw yn briodol i anghenion yr ymgeisydd. Dylid archwilio ffyrdd amgen o weithio fel defnyddio troshaen lliw, neu'r ymgeisydd yn gwisgo sbectol lliw.

Efallai y bydd y CAAA yn dymuno ystyried darparu un lliw, fel llwydfelyn neu lwyd.

## 6.6 Papurau â'r iaith wedi'i haddasu a thrawsgrifiad o gyfryngau/arholiad gwrando

### Papurau â'r iaith wedi'i haddasu

6.6.1 Lle nad yw papur cwestiynau wedi'i addasu wrth ei gynhyrchu (gweler 6.6.4), bydd cyrff dyfarnu'n derbyn archeb am bapur â'r iaith wedi'i haddasu ar gyfer ymgeisydd y bernir fod ganddo anawsterau parhaus a sylweddol yn cyrchu a phrosesu gwybodaeth.

**Nid** oes angen tystiolaeth o anawsterau'r ymgeisydd ar y cyrff dyfarnu.

6.6.2 **Ni chaiff papurau â'r iaith wedi'i haddasu eu cynhyrchu ond ar gyfer rhai manylebau os cyflwynir archebion erbyn y dyddiad cau. Ni chânt eu cynhyrchu'n awtomatig.**

6.6.3 Dim ond y cyfarwyddiadau a gaiff eu haddasu. Bydd ystyr y cwestiynau'n aros yr un fath a bydd angen yr un atebion â'r papur safonol. Ni chaiff unrhyw iaith dechnegol a phwnc-benodol ei newid.

6.6.4 Mae iaith llawer o bapurau cwestiynau wedi'i haddasu eisoes, gan fod arbenigwyr iaith wedi ymwneud â'r broses gosod papurau. Mae gan bob corff dyfarnu brosesau ar waith i sicrhau bod ei asesiadau yn addas at y diben a'u bod yn hygyrch a bydd naill ai'n defnyddio addaswyr BATOD neu ganllawiau BATOD.

**Pan fydd y papur cwestiynau safonol yn hygyrch: nid oes angen papur â'r iaith wedi'i haddasu ac ni ellir ei archebu.** (Ni fydd 'iaith wedi'i haddasu' yn ymddangos yn y ddewislen o fewn *Trefniadau mynediad ar-lein*.)

### Trawsgrifiad o brawf/cyfryngau gwrando

6.6.5 Mewn arholiadau Gwrando Ieithoedd Tramor Modern, gellir gwneud cais am drawsgrifiad o'r recordiad a'i ddarllen i'r ymgeisydd, a fydd yn darllen gwefusau siaradwr byw.

Gall trawsgrifiad o'r trac Gwrando hefyd fod o fudd i ymgeiswyr sy'n cael anhawster parhaus a sylweddol i ddilyn llefaru ar gyflymder arferol. Bydd y siaradwr byw yn darllen i'r ymgeisydd ar wahân ond ar gyflymder sy'n galluogi'r ymgeisydd i brosesu'r wybodaeth yn haws.

(Gweler Pennod 5, adran 5.12 ar ddefnyddio siaradwr byw mewn cydrannau arholiad wedi'u recordio ymlaen llaw).

6.6.6 Dylid gofyn am y cyfryngau a ddefnyddir mewn asesiadau gydag is-deitlau i ymgeiswyr sy'n fyddar a/neu'n drwm eu clyw. Dylid ceisio cyngor y corff dyfarnu perthnasol.

## 6.7 Papurau cwestiynau electronig heb fod yn rhyngweithiol (PDF)

6.7.1 Mae papurau cwestiynau electronig heb fod yn rhyngweithiol ar fformat PDF. Gellid eu darllen ar-sgrin ond nid yw'n bosibl teipio arnyn nhw. Mae'n bosib y bydd ar ymgeisydd angen papur cwestiynau electronig nad yw'n rhyngweithiol yn yr achosion canlynol:

- mae angen darllenydd cyfrifiadur (cais cymeradwy am ddarllenydd cyfrifiadur ar waith); **neu**
- mae ganddo amhariad sylweddol a thymor hir ar ei olwg ac mae'n well ganddo ddarllen ar sgrin nag ar bapur fel rhan o'i ffordd arferol o weithio. Gall hyn hefyd fod ar y cyd â throshaen lliw ar y sgrin/rhithwir.

Drwy archebu papur cwestiynau electronig nad yw'n rhyngweithiol (PDF), nid oes angen i'r ganolfan sganio papur cwestiynau at ddibenion darllen ar gyfrifiadur.

Lle bydd angen papur cwestiynau electronig nad yw'n rhyngweithiol (PDF) ar sawl ymgeisydd ar gyfer yr un arholiad, dim ond un archeb ar-lein y mae angen i'r ganolfan ei gwneud.

**Rhaid** i'r ganolfan:

- cynnal cywirdeb a diogelwch papurau cwestiynau electronig nad ydynt yn rhyngweithiol (PDF);
- sicrhau mai dim ond aelodau awdurdodedig o staff y ganolfan all gael mynediad at bapurau cwestiynau electronig nad ydynt yn rhyngweithiol (PDF).

**Ni** ddylai'r ganolfan:

- ymgymryd ag addasiadau pellach i bapur cwestiynau electronig nad yw'n rhyngweithiol (PDF), er enghraifft, trosi'r papur o PDF i Word;
- defnyddio meddalwedd i drawsnewid papur cwestiynau nad yw'n rhagweithiol (PDF) yn fformat rhagweithiol;
- defnyddio meddalwedd i ail-fformatio'r testun yn gyfan gwbl a dileu diagramau.

**Efallai y bydd gweithredu fel hyn yn achos o gamymddwyn.**

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod y PDF yn gwbl gydnaws â'r pecyn meddalwedd o'u dewis.

Mae'n bosibl llwytho i lawr o wefannau cyrff dyfarnu'r dogfennau PDF parod i'w hargraffu safonol a ddefnyddiwyd mewn cyfresi arholiad blaenorol, y maent ar gael ar hyn o bryd i'w defnyddio fel cyn-bapurau.

## 6.8 Archebu papurau wedi'u haddasu

6.8.1 Ar gyfer y cymwysterau canlynol (**cydrannau ysgrifenedig ar yr amserlen**), **rhaid** i archebion gael eu gwneud gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
- AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- BTEC Lefel 2 Technegol
- Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt
- TLM
- FSMQ
- TAG (UG a Safon Uwch)
- TGAU
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Lefelau T (Manylebau Pearson a CBAC)
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
- CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol
- CBAC Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu a Diplomâu Estynedig (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen).

6.8.2 **Rhaid** archebu ar gyfer pob cyfres arholiadau.

6.8.3 **Rhaid** archebu papurau wedi'u haddasu gan ddefnyddio cod cydran pob pwnc.

6.8.4 **Rhaid** i'r CAAA weithio gyda staff addysgu i nodi'r fformat cyhoeddi mwyaf priodol o bapurau wedi'u haddasu er mwyn i'r ymgeisydd allu cael mynediad at eu harholiadau.

6.8.5 Mewn achosion lle mae colegau AB yn gweithredu fel rhan o grŵp gyda sawl rhif canolfan, rhaid defnyddio rhif canolfan y safle lle bydd yr ymgeisydd (ymgeiswyr) yn sefyll eu harholiadau i brosesu archebion am bapurau wedi'u haddasu.

## 6.9 Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno archebion am bapurau wedi'u haddasu

| **Cyfres arholiadau** | **Y dyddiad olaf y dylid gwneud archebion** |
|---|---|
| Tachwedd 2025 | 20 Medi 2025 |
| Ionawr 2026 | 4 Hydref 2025 |
| Mehefin 2026 | 31 Ionawr 2026 |

Cyfres arholiadau TGAU mis Ionawr 2026 – **nid yw** manylebau TGAU ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

Yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n penderfynu ailsefyll unedau TGAU ym mis Mehefin 2026, ar ôl cyhoeddi canlyniadau arholiadau TGAU mis Ionawr 2026, rhaid derbyn archebion am bapurau wedi'u haddasu erbyn 21 Mawrth 2026 fan bellaf.

(Gweler gwefan CCEA am wybodaeth am gymwysterau TGAU unedol yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2026.)

Mae archebion prydlon am bapurau wedi'u haddasu yn hanfodol. **Ni** fydd archebion hwyr yn cael eu derbyn yn rhwydd gan na ellir gwarantu y cânt eu cyflwyno mewn pryd.

**Efallai na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu cyflawni.**

Cyfnod cyfyngedig iawn sydd ar gael, o dderbyn yr archeb gan y corff dyfarnu am bapurau wedi'u haddasu hyd at anfon y papurau hynny allan i'r canolfannau. Mae'r broses o sicrhau ansawdd y papurau wedi'u haddasu'n llawer mwy caeth; mae angen gwneud llawer mwy o wiriadau o ran ansawdd.

# Pennod 7

# Anawsterau dysgu

Mae amrywiaeth eang o anawsterau dysgu: nid yw rhai o'r goblygiadau i'r asesu'n amlwg bob amser. **Rhaid** i ymgeiswyr felly gael eu hasesu gan aseswr (gweler paragraffau 7.3.3 a 7.3.4). Mae hyn yn sicrhau bod y trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol a gymeradwywyd yn caniatáu i'r ymgeisydd gael mynediad i'r asesiad, ond nad yw'r ymgeisydd yn cael mantais annheg.

Lle byddai'r amcanion asesu (Pennod 3) yn cael eu heffeithio gan drefniant mynediad/addasiad rhesymol yr amcanion asesu fydd bwysicaf ac **ni ellir** eu hepgor. Mae hyn yn cynnwys dangos y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y fanyleb. **Ni** ddylai'r trefniant effeithio ar gyfanrwydd yr asesiad

## 7.1 Atebolrwydd

7.1.1 **Rhaid** i'r CAAA wneud y canlynol:

- sicrhau bod ceisiadau'n cael eu prosesu **ar amser**, heb fod yn hwyrach na'r terfyn amser a gyhoeddwyd;
- sicrhau bod y dystiolaeth ategol **lawn** ar gael **cyn** prosesu cais ar-lein;
- adolygu'r dystiolaeth **cyn** prosesu cais ar-lein, gan sicrhau **bod** yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf a gyhoeddwyd ar gyfer y trefniant dan sylw;
- dal yr holl dystiolaeth ategol a chyflwyno'r dystiolaeth i Arolygwr Canolfannau CGC ar gais; **a**
- sicrhau bod y trefniant mynediad y cytunwyd arno wedi'i roi ar waith cyn arholiad cyntaf yr ymgeisydd, e.e. profion ysgol/coleg mewnol a ffug arholiadau.

7.1.2 **Rhaid** i aseswr penodedig y ganolfan wneud y canlynol:

- cofnodi canlyniadau unrhyw brofion a gwblhawyd yn nodi bod yr amhariad yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar berfformiad yr ymgeisydd;
- gweithio o fewn ei faes arbenigedd ei hun yn unig **ac** yn foesegol;
- defnyddio fersiynau cyfredol o brofion wedi'u safoni'n genedlaethol sy'n briodol i oedran cronolegol a meysydd angen yr ymgeisydd;
- nodi canlyniadau ei asesiadau yn Rhan 2 Ffurflen 8; **a**
- rhoi tystiolaeth i'r ganolfan o'u cymwysterau) **cyn asesu unrhyw ymgeisydd** (gweler paragraff 7.3.3).

## 7.2 Addasiadau priodol ar gyfer ymgeiswyr ag anawsterau dysgu sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir

Gwneir trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol ar sail anghenion ymgeisydd unigol. **Rhaid** rhoi ystyriaeth o ran a yw'r addasiad arfaethedig yn effeithiol ac yn addas ar gyfer anhawster dysgu'r ymgeisydd. Er enghraifft, os gall ymgeisydd gwblhau papur yn y cyfnod arferol o amser ac os nad yw byth yn defnyddio'r 25% o amser ychwanegol a roddwyd, yna nid yw hyn yn addasiad effeithiol. **Ni** fyddai'n addas prosesu cais am 25% o amser ychwanegol. Yn yr un modd, os bydd ymgeisydd yn gofyn am gael defnyddio prosesydd geiriau ond na all deipio rhyddiaith ddealladwy, nid yw'n drefniant effeithiol i'w roi ar gyfer ei arholiadau. Fodd bynnag, gall fod angen ysgrifennydd.

## 7.3 Penodi aseswyr

7.3.1 Pennaeth y ganolfan sy’n gyfrifol am:

- ansawdd y trefniadau mynediad/proses addasiadau rhesymol yn y ganolfan; **a**
- penodi aseswyr, gwirio cymwysterau'r rheini sy'n asesu ymgeiswyr (e.e. llungopi o'r dystysgrif neu gopi wedi'i argraffu o sgrinlun o gofrestriad HCPC neu SASC).

Ni all CGC gymeradwyo cymhwyster/cymwysterau aseswr ac nid yw’n cadw rhestr o gymwysterau priodol ar gyfer aseswyr.

7.3.2 **Rhaid** i benaethiaid canolfannau fod yn fodlon bod gan weithiwr proffesiynol y lefel ofynnol o gymhwysedd a hyfforddiant.

Rhaid i'r gweithiwr proffesiynol gyflwyno tystiolaeth o gwblhau cwrs ôl-raddedig mewn asesu arbenigol unigol yn llwyddiannus ar Lefel 7 neu gyfwerth neu sgrinlun o gofrestriad HCPC neu SASC.

7.3.3 Bydd pennaeth y ganolfan yn penodi:

- aseswr trefniadau mynediad sydd wedi cwblhau cwrs ôl-raddedig yn llwyddiannus, ar Lefel 7 neu lefel gyfwerth, gan gynnwys o leiaf 100 awr yn ymwneud ag asesu arbenigol unigol†. Gall aseswr trefniadau mynediad gynnal asesiadau i gael eu cofnodi yn Rhan 2 Ffurflen 8; **a/neu**

  †Byddai'r cyfeiriad at o leiaf 100 awr yn ymwneud ag asesu arbenigol unigol yn cynnwys amser mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau, amser astudio, amser asesu ac amser a dreuliwyd yn cwblhau aseiniadau. Byddai cyrsiau sy'n cael eu hachredu ar lefel AMBDA neu APC yn bodloni'r gofyniad hwn, yn yr un modd â chyrsiau ôl-raddedig ar Lefel 7 neu lefel gyfwerth, sy'n darparu cymhwyster mewn asesu trefniadau mynediad.
- athro sy'n aseswr arbenigol sydd â Thystysgrif Ymarfer Asesiad SpLD **gyfredol**, fel y dyfernir gan BDA, y Dyslexia Guild neu Patoss a restrir ar wefan SASC. Gall aseswyr sy'n athrawon arbenigol gynnal asesiadau i'w cofnodi yn Rhan 2 Ffurflen 8 a chynnal asesiadau diagnostig llawn lle bo angen. **a/neu**
- seicolegydd cymwys sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal sy'n gallu cynnal asesiadau i'w cofnodi yn Rhan 2 Ffurflen 8 ac sy'n gallu ymgymryd ag asesiad diagnostig llawn lle bo angen.

7.3.4 **Rhaid** i aseswr trefniadau mynediad fod wedi cwblhau cwrs ôl-raddedig yn llwyddiannus, ar Lefel 7 neu lefel gyfwerth, gan gynnwys o leiaf 100 awr yn ymwneud ag asesu arbenigol unigol, y mae'n **rhaid** iddo gynnwys hyfforddiant **ym mhob un** o'r canlynol:

- y sail ddamcaniaethol i brofion seicometrig, fel cysyniadau dilysrwydd a dibynadwyedd; gwyriadau safonol a’r gromlin normal; sgorau crai, sgorau wedi’u safoni, cyniferyddion, canraddau a sgorau sy’n cyfateb i oedran; y cysyniad o wahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol rhwng sgorau; gwallau mesur safonol a chyfyngau hyder;
- y defnydd priodol o brofion a safonwyd yn genedlaethol i’r grŵp oedran a brofir;
- gweinyddu profion cyrhaeddiad yn wrthrychol y mae’n bosibl eu gweinyddu’n unigol. **Rhaid** cynnwys yma brofion cywirdeb darllen, cyflymder darllen, darllen a deall a sillafu;
- **rhaid** cynnwys dulliau priodol o asesu sgiliau ysgrifennu, gan gynnwys cyflymder, hefyd;
- dewis profion sgiliau gwybyddol yn briodol a'u defnyddio'n wrthrychol (gweler paragraff 7.5.12);
- gweinyddu profion yn foesegol gan gynnwys y gallu i ddeall pa mor gyfyng yw eu sgiliau a’u profiad eu hunain a phenderfynu pan mae angen atgyfeirio’r ymgeisydd at weithiwr proffesiynol arall.

**Rhaid** i bob aseswr wneud y canlynol:

- bod â dealltwriaeth drylwyr o fersiwn **cyfredol** dogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* a'r egwyddorion, gweithdrefnau ac atebolrwyddau dan sylw;
- bod yn gyfarwydd â Deddf Cydraddoldeb 2010 (er nad yw'n swyddogaeth iddyn nhw benderfynu beth yw 'addasiad rhesymol', bydd yn helpu i nodi trefniadau mynediad a allai fod o gymorth i'r ymgeisydd mewn arholiadau ac asesiadau ac felly sy'n addasiadau rhesymol o bosibl);
- bod â chymhwyster priodol i addysgu un gwneud argymhellion ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd neu oedolion gydag anawsterau dysgu neu fod yn seicolegydd wedi cofrestru â HCPC.

**Rhaid** i bennaeth y ganolfan sicrhau y ceir tystiolaeth o gymhwyster/cymwysterau'r aseswr ar y pwynt ymgysylltu/cyflogaeth a chyn i'r aseswr ymgymryd ag asesu'r ymgeisydd.

**Rhaid** i dystiolaeth o gymhwyster/cymwysterau'r aseswr gael ei chadw ar ffeil at ddibenion arolygu a chael ei chyflwyno i Arolygwr Canolfannau CGC gan y CAAA.

7.3.5 Dylai'r aseswr fod wedi'i gyflogi neu dan gontract y ganolfan.

Fel arall, mae'r aseswr:

- wedi'i gyflogi mewn canolfan arall, e.e. o fewn cadwyn Academi; **neu**
- wedi'i gyflogi gan yr Awdurdod Lleol; **neu**
- aseswr allanol sydd wedi cysylltu â'r ganolfan cyn asesiad unrhyw ymgeisydd, sy'n cysylltu â'r ganolfan ac sydd wedi'i gymeradwyo gan bennaeth y ganolfan. Cyn asesu'r ymgeisydd, bydd yr aseswr yn derbyn Rhan 1 Ffurflen 8 wedi'i chwblhau gan y CAAA.

7.3.6 **Ni ellir** defnyddio asesiad a gomisiynwyd yn breifat i roi trefniadau mynediad, na fu'r ganolfan yn rhan ohono ac **ni ellir** ei ddefnyddio i brosesu cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Dyma lle nad yw'r aseswr wedi cysylltu â'r ganolfan, nad yw wedi cysylltu â'r ganolfan, nad yw wedi cael ei gymeradwyo gan bennaeth y ganolfan ac nad yw wedi derbyn Rhan 1 Ffurflen 8 wedi'i chwblhau gan y CAAA.

(Lle mae anhawster dysgu yn codi'n benodol o ganlyniad i gyflwr meddygol gweler paragraff 5.2.3 ac adran 5.7 – 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd.)

Oherwydd **na chaiff** adroddiad a gomisiynwyd yn breifat, neu asesiad gan weithiwr proffesiynol allanol, ei ddefnyddio i roi trefniadau mynediad, dylai pennaeth y ganolfan neu aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth ddarparu copi ysgrifenedig o'r rhesymau am eu penderfyniad i'r rhiant/gofalwr.

Dylai CAAA ac aseswyr sy'n gweithio yn y ganolfan bob amser ystyried yn ofalus unrhyw asesiad a gomisiynir yn breifat i weld a yw'r broses o gasglu darlun o angen, gan ddangos ffordd arferol o weithio yn y ganolfan ac yn y pen draw dylai asesu'r ymgeisydd ei hun gael eu cychwyn.

## 7.4 Adrodd am benodi aseswyr

7.4.1 **Rhaid** i Gydlynwyr AAA ddal tystiolaeth bod yr aseswr/aseswyr yn gymwys ar ffeil at ddibenion arolygu. Gall hyn ddod, er enghraifft, o'r ffynonellau canlynol:

- copi o Dystysgrif Ymarfer Asesu (APC) gyfredol wedi'i chyhoeddi gan Patoss, Dyslexia Guild neu'r British Dyslexia Association;
- copi o dystysgrif cymhwyster asesiad Lefel 7;
- sgrinlun o gofrestriad HCPC yn dangos y Rhif Cofrestru Unigryw;
- sgrinlun o restr SASC yn dangos y rhif cod APC a'r dyddiad dod i ben;
- sgrinlun o restr ar gyfer Graddedigion PAPAA yn dangos rhif y dystysgrif;
- sgrinlun o restr ar gyfer Deiliaid Tystysgrifau CPT3A yn dangos rhif y dystysgrif;
- sgrinlun o restr ar gyfer Deiliaid Tystysgrifau ETAAC yn dangos rhif y dystysgrif; neu
- sgrinlun o restr ar gyfer Deiliaid Tystysgrifau Patoss AAA yn dangos rhif y dystysgrif;

7.4.2 Yn achos seicolegwyr cymwys priodol (wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal) neu athrawon sy'n aseswyr arbenigol sydd â Thystysgrif Ymarfer Asesu ADA, sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y ganolfan, nid oes angen cofnodi enwau'r unigolion hyn yn y *Trefniadau mynediad ar-lein*.

7.4.3 **Rhaid** rhoi enwau pob aseswr arall, sy'n asesu ymgeiswyr sy'n astudio cymwysterau fel y'u rhestrir yn yr adran ar derfynau amser, yn *Trefniadau mynediad ar-lein* er mwyn cadarnhau ei statws.

## 7.5 Canllawiau asesu anawsterau dysgu'r ymgeisydd gan aseswr

7.5.1 **Rhaid** i'r CAAA drefnu mai aseswr penodedig y ganolfan fydd yn asesu'r ymgeisydd.

7.5.2 Cyn asesiad yr ymgeisydd, rhaid i'r CAAA roi gwybodaeth gefndirol i'r aseswr, h.y. creu darlun o angen yn ôl Rhan 1 Ffurflen 8. **Rhaid** i'r CAAA a'r aseswr weithio gyda'i gilydd i sicrhau proses gydgysylltiedig a chyson.

7.5.3 Mae gofyn i'r aseswr sefydlu a yw canlyniadau'r profion llythrennedd a/neu alluoedd gwybyddol yn dystiolaeth bod **amhariad ar yr ymgeisydd sy'n effeithio'n sylweddol ar ei berfformiad**.

7.5.4 **Rhaid** i aseswyr gynnal yr asesiadau'n bersonol. **Ni** ddylent lofnodi asesiadau sydd wedi'u cynnal gan weithiwr proffesiynol arall.

7.5.5 **Rhaid** i'r aseswr gynnal y profion hynny sy'n berthnasol i gefnogi'r cais.

7.5.6 Rhaid **defnyddio fersiynau** cyfredol o brofion a safonwyd yn genedlaethol, sy'n cynhyrchu sgorau wedi'u safoni, lle maent wedi'u cyhoeddi.

7.5.7 Lle defnyddir dull asesu seiliedig ar raglenni cyfrifiadurol i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer Rhan 2 Ffurflen 8, **rhaid** i aseswr cymwys (gweler paragraff 7.3.4) fod yn bresennol i oruchwylio gweinyddu'r prawf drwy ddulliau cyfrifiadurol a monitro sut mae'r ymgeisydd yn ymgysylltu â'r asesiad.

7.5.8 **Rhaid** i oedran cronolegol yr ymgeisydd fod yn is na 'nenfwd' y prawf, onid oes prawf wedi'i gyhoeddi ar gyfer oedran yr ymgeisydd.

7.5.9 **Rhaid** rhoi canlyniadau fel sgorau wedi'u safoni sy'n defnyddio cymedr o 100 a gwyriad safonol o 15. (Sgorau safonol yw'r rhain). Disgrifir sgorau wedi'u safoni o 84 neu is fel rhai 'is na'r cyfartaledd'. Disgrifir sgorau wedi'u safoni o 85-89 fel rhai 'cyfartaledd isel'. **Ni** ddylid nodi canlyniadau profion ar gyfer Rhan 2 Ffurflen 8 fel canraddau, sgorau cudd, sgorau T na sgorau'n cyfateb i oedran. **Rhaid** i sgorau o'r fath gael eu trosi'n sgorau safonol.

7.5.10 **Sgiliau darllen**

Dealltwriaeth wrth ddarllen: ar gyfer ymgeiswyr y gallai fod angen Addasydd Iaith arnynt (gweler Adran 5.11), **rhaid** asesu dealltwriaeth wrth ddarllen gan ddefnyddio prawf cydnabyddedig o ddeall testun neu frawddeg.

Cyflymder darllen: gall ymgeisydd sydd â hanes o anawsterau darllen, y mae ei gywirdeb darllen (ar lefel un gair), neu ddealltwriaeth wrth ddarllen, o fewn terfynau arferol ei oedran, ddarllen yn araf oherwydd ei fod:

- cymryd mwy o amser na'r disgwyl i ddatgodio'r geiriau, gan arwain at ddarllen yn araf (cyflymder darllen araf)

- angen ailddarllen testun sawl gwaith er mwyn deall ei ystyr yn llawn (cyflymder dealltwriaeth wrth ddarllen araf).

Mae yna ffyrdd amrywiol o asesu cyflymder darllen ar lefel testun:

- prawf sy'n asesu cyflymder ar lefel testun (a elwir yn gyfradd ddarllen neu gyflymder darllen);
- prawf sy'n cyfuno cyflymder a chywirdeb ar lefel testun (a elwir weithiau yn rhuglder darllen);
- prawf sy'n asesu'r amser a gymerir i ddarllen y testun ac i ateb cwestiynau ar yr hyn a ddarllenwyd. **Rhaid** i'r prawf roi sgôr ar gyfer cyflymder dealltwriaeth wrth ddarllen, nid dim ond ar gyfer dealltwriaeth wrth ddarllen.

Lle mae ymgeiswyr yn darllen drostyn nhw eu hunain, gellir defnyddio mesur o gyflymder darllen testun fel un o'r ddau sgôr ofynnol ar gyfer hyd at 25% o amser ychwanegol. Caiff y canlyniadau eu cofnodi yn Rhan 2 Ffurflen 8 o dan 'Cyflymder Darllen'.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn defnyddio darllenydd cyfrifiadur/darllenydd neu ysgrifbin darllen arholiad, **ni ellir** defnyddio mesur o gyflymder darllen fel tystiolaeth ar gyfer 25% o amser ychwanegol.

**Nid** yw profion sy'n mesur cyflymder ac effeithlonrwydd darllen geiriau unigol yn briodol yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, gallant gyfrannu at fesurau prosesu gwybyddol/rhwyddineb am amser ychwanegol, fel y'u cofnodir yn Rhan 2 Ffurflen 8 o dan brosesu gwybyddol/rhwyddineb neu dan 'Gwybodaeth berthnasol arall'.

7.5.11 **Sgiliau ysgrifennu**

Caniateir ysgrifennydd, prosesydd geiriau gyda'r gwirydd sillafu wedi'i droi ymlaen, neu dechnoleg adnabod llais, mewn rhai pynciau lle mae amhariad ymgeisydd yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir.

At ddibenion arholi, caiff amhariad sylweddol ei ddehongli fel ymgeisydd â'r canlynol:

- sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd ar gyfer cywirdeb sillafu (sgôr wedi'i safoni o 84 neu lai) gydag ymgeisiau sillafu amhosibl i'w adnabod; **neu**
- sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd ar gyfer cyflymder ysgrifennu (sgôr wedi'i safoni o 84 neu lai).

†Er mwyn defnyddio prosesydd geiriau gyda'r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg wedi'i droi ymlaen, **rhaid** i Ran 2 Ffurflen 8 ddangos sgôr cywirdeb sillafu is na'r cyfartaledd gyda sillafiadau amhosibl i'w hadnabod.

Mewn rhai achosion, mae ysgrifennu'r ymgeisydd yn annarllenadwy neu'n annealladwy yn ramadegol, ond mae'n gwella'n sylweddol pan ddefnyddir ysgrifennydd. Os na cheir tystiolaeth o'r anawsterau hyn gan sgôr cywirdeb sillafu wedi'i safoni is na'r cyfartaledd, neu sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd ar gyfer cyflymder ysgrifennu, ni fydd *Trefniadau Mynediad Ar-lein* yn cymeradwyo'r cais. Gall y CAAA wedyn benderfynu cyfeirio'r cais at y corff/cyrff dyfarnu.

Lle y bydd ymgeisydd yn ysgrifennu â llaw, gellir defnyddio asesiad o gyflymder ysgrifennu fel un o'r ddau fesur gofynnol ar gyfer 25% o amser ychwanegol. Caiff y canlyniad ei gofnodi yn Rhan 2 Ffurflen 8 o dan 'Cyflymder Ysgrifennu'.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn defnyddio ysgrifennydd, technoleg adnabod llais neu brosesydd geiriau, **ni ellir** defnyddio mesur o gyflymder ysgrifennu fel tystiolaeth ar gyfer 25% o amser ychwanegol.

Lle y bydd ymgeisydd yn defnyddio prosesydd geiriau gyda'r gwirydd sillafu wedi'i alluogi neu ragfynegi testun, **ni chaniateir** banc o eiriau pwnc-benodol.

### 7.5.12 Prosesu/rhuglder gwybyddol

At ddibenion Rhan 2 Ffurflen 8, y gwahanol feysydd o asesiadau prosesu gwybyddol/rhuglder yw:

- cof llafar tymor byr/gweithio
- cof gweledol tymor byr/gweithio (gellir cyfuno cof llafar a chof gweledol tymor byr/gweithio fel rhan o sgôr gyfansawdd)
- cof wedi'i oedi *(delayed memory)*
- ymwybyddiaeth ffonolegol
- cof ffonolegol
- cyflymder prosesu ffonolegol/enwi cyflym
- cyflymder prosesu gweledol
- prosesu gweledol/echddygol
- rhwyddineb darllen geiriau/effeithlonrwydd geiriau golwg
- rhwyddineb datgodio /effeithlonrwydd darllen di-eiriau
- rhuglder cysylltiadol/llafar
- rhuglder orthograffig*
- rhwyddineb mathemategol†.

**Ni** dderbynnir prawf o gywirdeb neu gyrhaeddiad sillafu wedi'i amseru neu heb ei amseru fel tystiolaeth am amser ychwanegol.

*Lle mae ymgeiswyr yn sillafu drostyn nhw eu hunain, gellir defnyddio mesur o ruglder orthograffig fel un o'r ddwy sgôr ofynnol ar gyfer 25% o amser ychwanegol. Pan fydd ymgeisydd yn defnyddio ysgrifennydd, technoleg adnabod llais neu brosesydd geiriau gyda'r gwirydd sillafu wedi'i droi ymlaen, **ni ellir** defnyddio mesur o ruglder orthograffig fel un o'r ddwy sgôr ofynnol am 25% o amser ychwanegol.

†Yr amser mae'n ei gymryd i brosesu cysyniadau mathemategol. **Ni** dderbynnir asesiad o gyfrifiant na chyrhaeddiad mathemategol wedi'i amseru. Gellir defnyddio asesiad o rwyddineb mathemategol fel un yn unig o'r ddau fesur gofynnol ar gyfer rhoi 25% o amser ychwanegol mewn arholiadau Mathemateg. **Rhaid** i'r **rhwyddineb** mathemategol fod yn is na'r cyfartaledd. Gall asesiad o rwyddineb mathemategol gyfrannu at y dystiolaeth ar gyfer 25% o amser ychwanegol mewn arholiadau Mathemateg yn unig.

Os oes gan ymgeisydd anawsterau prosesu gwybyddol/rhwyddineb sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar gyflymder gweithio, gellir dyfarnu 25% o amser ychwanegol. (Gweler Pennod 5, paragraff 5.2.2.) Caiff yr anawsterau hyn eu dangos gan brofion sy'n arwain at ganlyniad lle ceir o leiaf:

- dwy sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd o 84 neu'n is; **neu**
- un sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd o 84 neu'n is **ac** un sgôr wedi'i safoni cyfartaledd isel (85-89);

sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio. Gall hyn gynnwys dau faes gwahanol o brosesu gwybyddol.

Mewn amgylchiadau prin ac eithriadol gallai corff dyfarnu roi 25% o amser ychwanegol lle mae gan ymgeisydd o leiaf ddwy sgôr cyfartaledd isel (85-89) yn ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio. Gall hyn gynnwys dau faes gwahanol o brosesu gwybyddol.

Gall corff dyfarnu ganiatáu hyd at 50% o amser ychwanegol mewn amgylchiadau eithriadol iawn – gweler Pennod 5, paragraff 5.3.2.

## 7.6 Llenwi Ffurflen 8 – JCQ/AA/LD, Proffil o Anawsterau Dysgu

**Rhaid defnyddio Ffurflen 8 – JCQ/AA/LD i gofnodi gwybodaeth am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol ymgeisydd a'i chyflwyno gan y CAAA i'w harolygu. Rhaid** sicrhau mai dim ond ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anawsterau dysgu neu y mae angen Addasydd Iaith ar eu cyfer y caiff y ffurflen ei defnyddio.

Gellir cwblhau fersiwn ar-lein Ffurflen 8 gan ddefnyddio'r Porth Gweinyddu Canolfannau mewn achosion lle mae'r CAA wedi'i benodi fel aseswr y ganolfan. Gellir cael mynediad at y Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

Yn yr achosion hynny lle mae'r aseswr a benodwyd gan y ganolfan, sy'n gweithio yn y ganolfan, am gwblhau pob rhan Ffurflen 8, yna gellir defnyddio'r Porth Gweinyddu Canolfannau i gwblhau fersiwn ar-lein Ffurflen 8. Gellir cael mynediad at y Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

Fel arall, gellir defnyddio fersiwn PDF Ffurflen 8 ar wefan y CGC:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/forms
.

**Dim ond Ffurflen 8 sy'n dderbyniol.**

**Ni ellir defnyddio'r canlynol at ddibenion prosesu ac arolygu:**

- taenlenni;
- negeseuon e-bost;
- ffurflenni tebyg i Ffurflen 8 wedi'u creu gan ganolfannau;
- adroddiadau seicolegwyr addysgol;
- diagnosis o ddyslecsia;
- adroddiadau asesiad diagnostig.

7.6.1 Gellir trosglwyddo Ffurflen 8 – JCQ/AA/LD **wedi'i chwblhau'n llawn** pan fydd yr ymgeisydd yn symud ymlaen o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill (gweler isod), boed yn yr un ganolfan neu mewn canolfan wahanol.

Gall Ffurflen 8, gyda Rhan 2 wedi'i chwblhau yn ddim cynharach na dechrau Blwyddyn 9 ar gyfer cymwysterau TGAU, drosglwyddo i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill lle mae angen i'r ymgeisydd gael:

- 25% o amser ychwanegol; **a/neu**
- ysgrifennydd.

Lle y bydd yr ymgeisydd yn newid canolfan, **rhaid** darparu'r Ffurflen 8 wreiddiol wedi'i chwblhau neu gopi PDF ohoni, ynghyd â thystiolaeth o gymhwyster yr aseswr. **Rhaid** i'r CAAA ddarparu'r dystiolaeth hon i gynorthwyo eu cyfoedion mewn colegau AB a Chweched Dosbarth.

Dylid ystyried y Ffurflen 8 fel 'pasbort' yr ymgeisydd i drefniadau mynediad sy'n teithio gyda'r ymgeisydd.

**Rhaid** i'r CAAA wirio Ffurflen 8 yn drylwyr **cyn** ei hanfon ymlaen i ganolfan arall, gan sicrhau ei bod yn gyflawn, ac wedi'i llofnodi a'i dyddio.

**Ni ddylai'r** CAAA yn y ganolfan dderbyn ddefnyddio Ffurflen 8 anghyflawn. **Rhaid** edrych ar Ffurflen 8 i sicrhau bod pob rhan o'r ffurflen wedi'i chwblhau a'i bod wedi'i llofnodi a'i dyddio.

**Ni ellir** newid y ffurflen yn ôl-weithredol. Lle darparwyd Ffurflen 8 anghyflawn, yna rhaid ailasesu'r ymgeisydd i benderfynu'r angen am 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd.

**Rhaid** i'r CAAA, neu aelod cyfatebol o staff mewn coleg AB, sicrhau:

- bod 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd yn dal i fod yn briodol, ymarferol a rhesymol.

- bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig **cyfredol** ar gyfer 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd, h.y. rheoliadau 2025/26 y CGC, **cyn** y caiff cais ar-lein newydd am 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd ei brosesu.

**Rhaid** cwblhau **Rhan 1 o Ffurflen 8 cyn** yr asesiad. **Rhaid** i'r CAAA neu'r aseswr sy'n gweithio yn y ganolfan fanylu ar anawsterau presennol yr ymgeisydd yn yr ystafell ddosbarth, profion mewnol a/neu ffug arholiadau **a'u** ffordd arferol o weithio. **Rhaid** rhoi sylw i'r **gosodiadau** yn Rhan 1 Ffurflen 8 **cyn** yr asesiad.

Nid yw cwblhau 'sgerbwd' o Ran 1 Ffurflen 8 cyn yr asesiad yn dderbyniol mwyach.

Portread cryno o anghenion yr ymgeisydd yw Rhan 1 Ffurflen 8. Mae'n caniatáu i'r CAAA 'nodi darlun cyfannol o angen', gan gadarnhau ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio a chyfuno'r canlynol:

- unrhyw drefniadau mynediad a ganiatawyd yn flaenorol;
- sylwadau ac arsylwadau ar draws pynciau perthnasol gan staff addysgu a staff cefnogi (h.y. Cynorthwywyr Cefnogaeth Dysgu, Cynorthwywyr Addysgu a Gweithwyr Cefnogi Cyfathrebu);
- strategaethau ymyrryd (e.e. cynlluniau addysg/dysgu unigol) sydd ar waith ar gyfer yr ymgeisydd;
- dangosyddion premiwm disgyblion;
- canlyniadau profion sgrinio;
- defnyddio data sylfaenol ac olrhain y disgybl;
- gwybodaeth am unrhyw wahaniaethu yn yr ystafell ddosbarth;
- arsylwi'r ymgeisydd yn yr ystafell ddosbarth i weld ei arddull dysgu;

- ffordd arferol o weithio yn yr ystafell ddosbarth (lle bo'n briodol);
- trefniadau a wnaed ar gyfer profion ysgol mewnol/ffug arholiadau diwedd blwyddyn;
- adolygu llyfrau gwaith yr ymgeisydd, gwirio eu sillafu, darllenadwyedd ysgrifennu ac a yw tasgau ystafell ddosbarth wedi'u cwblhau.

| |
|---|
| Bydd defnyddio systemau sgrinio a monitro effeithiol yn ystod Blynyddoedd 7 i 9 yn galluogi'r CAAA i ddarparu tystiolaeth digon manwl o angen. Gall profion yn yr ysgol nodi'r ymgeiswyr hynny y mae angen eu hasesu am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol. |

Os mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael, gall y CAAA ddefnyddio rhai o'r canlynol i beintio darlun o angen yn Rhan 1 Ffurflen 8, er enghraifft:

- canlyniadau profion sgrinio;
- anawsterau y mae'r ymgeisydd ei hun wedi adrodd eu bod ganddo;
- sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu a staff cefnogi (h.y. Cynorthwywyr Cefnogaeth Dysgu, Cynorthwywyr Addysgu a Gweithwyr Cefnogi Cyfathrebu) sydd wedi nodi anawsterau'r ymgeisydd;
- sylwadau mewn adroddiadau ysgol a/neu ddata olrhain disgyblion;
- gwybodaeth sy'n cael ei chyfleu dros y ffôn, gan gymryd nodiadau, neu lungopi o Ffurflen 8, lle mae ymgeisydd wedi symud, er enghraifft, o ysgol 11 i 16 i Goleg Addysg Bellach.

**Ni ellir cofnodi sylwadau gan rieni o fewn Rhan 1 o Ffurflen 8.**

**Rhaid i'r CAAA lenwi Rhan 3 Ffurflen 8 ar ôl i'r aseswr gwblhau'r profion a chadarnhau bod gan yr ymgeisydd amhariad sy'n cael effaith sylweddol ar ei berfformiad.**

**Rhaid** i Ran 3 Ffurflen 8 wneud argymhellion am drefniadau mynediad/addasiadau gan ystyried y canlynol:

- y wybodaeth o'r asesiad (Rhan 2 Ffurflen 8);
- gofynion y manylebau; **a**
- ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan (Rhan 1 Ffurflen 8).

7.6.2 Bydd llenwi Ffurflen 8, Rhannau 1, 2 a 3 yn galluogi Arolygwr Canolfannau CGC i weld yn glir ac yn gryno **ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio** yn y ganolfan a chanlyniadau asesiad.

7.6.3 Rhaid i bob aseswr, a benodwyd gan bennaeth y ganolfan ac felly, sydd wedi meithrin perthynas â'r ganolfan, ddefnyddio Ffurflen 8, Rhan 2, i gofnodi canlyniadau ei asesiad sydd yn berthnasol i'r trefniadau mynediad y gofynnir amdanynt.

**Nid** oes angen cadw ffurflenni cofnod o asesiadau wedi'u safoni ar ffeil i'w harolygu.

7.6.4 Ar ôl llenwi Ffurflen 8, gall aseswyr sy'n cael eu cyflogi yn y ganolfan brosesu'r cais gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* (gweler y cymwysterau a restrir yn yr adran ar derfynau amser). **Rhaid** iddynt gadw copi cyflawn o Ffurflen 8 (Rhan 1, 2 a 3) wedi'i llofnodi a'i dyddio yn y ganolfan at ddibenion arolygu. Gallai hwn fod yn gopi caled ar bapur neu fersiwn electronig.

7.6.5 **Rhaid** i'r aseswr wneud y canlynol:

- llofnodi a dyddio Ffurflen 8, Rhan 2;
- gweinyddu pob asesiad eu hunain.

**Ni** ddylai'r aseswr lofnodi asesiadau a gyflawnwyd gan athro neu weithiwr proffesiynol arall.

**Ni ellir derbyn asesiadau heb eu llofnodi a'u dyddio fel tystiolaeth briodol.** Y llofnod sy'n cadarnhau bod yr aseswr wedi cwblhau'r asesiadau a'i fod yn cefnogi'r argymhelliad a wnaed.

Caniateir llofnod electronig neu lofnod wedi'i deipio.

# Pennod 8

# Prosesu ceisiadau ar gyfer trefniadau mynediad ac addasiadau

## 8.1 Gwybodaeth gyffredinol

Ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran ar derfynau amser, mae *Trefniadau mynediad ar-lein* yn galluogi canolfannau i wneud un cais ar-lein i ymgeisydd y mae angen trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol arno gan ddefnyddio unrhyw un o wefannau allrwyd diogel y cyrff dyfarnu. Bydd *Trefniadau mynediad ar-lein* yn rhoi ymateb ar unwaith ac yn caniatáu uchafswm o 26 mis yn unig am unrhyw drefniant.

**Dim ond** lle mae'r ganolfan yn cefnogi hynny y dylid gwneud ceisiadau ar-lein a dylai'r ymgeisydd hefyd fodloni'r meini prawf cyhoeddedig i dderbyn y trefniant (trefniadau) mynediad a chael y dystiolaeth ategol lawn yn ei lle.

I gael mwy na 25% (26% i 50%) o amser ychwanegol a/neu Addasydd Iaith, **rhaid** bod profion wedi'u cofnodi yn Rhan 2 Ffurflen 8, **sydd â dyddiad o fewn 26 mis i'r arholiad(au) terfynol**.

Ni ellir trosglwyddo Ffurflen 8 o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill yn yr achosion hynny lle mae angen ymgeisydd i gael amser ychwanegol o fwy na 25% (26% i 50%) a/neu Addasydd Iaith yn mynd i barhau. **Rhaid** llenwi Ffurflen 8 newydd a **rhaid** ailasesu'r ymgeisydd.

**Ni ellir** trosglwyddo Ffurflen 9 o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG UG, Safon Uwch a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill. **Rhaid** llenwi Ffurflen 9 newydd a phrosesu cais ar-lein newydd ar gyfer cymwysterau TAG a/neu gymwysterau Lefel 3 eraill.

## 8.2 Rheoliadau CGC /JCQ a Threfniadau mynediad ar-lein

Nid yw *Trefniadau mynediad ar-lein* yn rhoi manylion rheoliadau CGC na sut i ddefnyddio rheoliadau CGC. **Rhaid** i ganolfannau ddefnyddio rheoliadau CGC ynghyd â *Trefniadau mynediad ar-lein*. Ar ôl i drefniant gael ei gymeradwyo ar-lein, **rhaid** iddo gael ei roi ar waith yn unol â'r rheoliadau hyn a heb effeithio ar gyfanrwydd y cymhwyster.

## 8.3 Diagnosis hwyr o anabledd, amlygiad hwyr o amhariad neu anaf/amhariad dros dro

Gellir prosesu trefniadau ar gyfer diagnosis hwyr o anabledd (cyflwr meddygol, amhariad synhwyraidd, anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol neu amlygiad hwyr o amhariad wrth i'r angen godi hyd yn oed pan fo hyn ar ôl y terfyn amser cyhoeddedig. Mae angen tystiolaeth o angen o hyd, i'r un safon â phe bai cais yn cael ei brosesu erbyn y terfyn amser a gyhoeddwyd.

Dylech gyfeirio at y diffiniad o dystiolaeth o angen yn yr adran Diffiniadau ac adran(nau) perthnasol Pennod 5 am fanylion llawn ynglŷn â beth yw'r dystiolaeth graidd/tystiolaeth o angen ar gyfer pob trefniant. Mae'n bwysig bod y dystiolaeth briodol yn cael ei chynhyrchu a'i phrosesu gyda'r cais. **Rhaid** dal y dogfennau priodol (lle bo angen), yn unol â Phennod 5, ar ffeil i gefnogi'r trefniant/trefniadau sy'n cael ei brosesu/eu prosesu a rhaid iddynt fod ar gael i'w harolygu.

Rhaid defnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* hefyd ar gyfer y cymwysterau hynny a restrir yn yr adran ar derfynau amser ar gyfer ymgeiswyr ag anaf neu amhariad dros dro, fel braich wedi'i thorri. Gellir prosesu'r trefniadau hyn yn ôl yr angen. **Rhaid** cadw dogfennaeth briodol, lle bo'n ofynnol ac fel y nodir ym Mhennod 5, ar ffeil i gefnogi'r trefniad(au) a'i bod ar gael i'w harolygu.

## Enghreifftiau o drefniadau mynediad dros dro

**Enghraifft 1**

Syrthiodd ymgeisydd TGAU blwyddyn 11 oddi ar ei feic ac anafodd ei llaw ysgrifennu ychydig ddyddiau cyn ei harholiad TGAU cyntaf. Nid yw'r ymgeisydd yn gallu ysgrifennu na theipio. Mae'r CAAA yn prosesu cais dros dro ar gyfer defnyddio ysgrifennydd gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Gan nad yw'r ymgeisydd fel arfer yn defnyddio ysgrifennydd wrth weithio ac nad yw'n gwbl gyfforddus nac yn gyfarwydd ag arddweud ei hatebion wrth berson arall, rhoddir 25% o amser ychwanegol iddi.

Mae'r CAAA yn teipio nodyn i gefnogi'r cais am ysgrifennydd ac amser ychwanegol o hyd at 25% ac, ynghyd â'r daflen gymeradwyaeth gan Trefniadau Mynediad Ar-lein, yn eu cadw ar ffeil at ddibenion arolygu'r ganolfan. Ddeuddydd yn ddiweddarach, daw'r ymgeisydd â nodyn i mewn gan ei meddyg teulu sy'n cadarnhau'r anaf i'w llaw ac ychwanegir hwn at ffeil y CAAA.

Ar ddiwrnod ei harholiad TGAU cyntaf, mae'r ymgeisydd yn bryderus iawn ac yn teimlo dan bwysau, gan nad yw wedi arfer gweithio gydag ysgrifennydd. Oherwydd hynny, mae ei swyddog arholiadau'n prosesu cais am ystyriaeth arbennig.

**Enghraifft 2**

Mae ymgeisydd TAG Safon Uwch Blwyddyn 13 wedi dioddef anaf i'w gefn wrth chwarae rygbi. Nid yw'n gallu dod i'r ysgol i sefyll ei arholiadau. Mae'r CAAA yn cysylltu â'r swyddog arholiadau ynglŷn â'r ymgeisydd yn sefyll ei arholiadau gartref drwy drefniant safle arall. (Gweler adran 11 o ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.) Yn ogystal, mae'r CAAA yn prosesu cais i gael egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth gan fod eistedd am gyfnod estynedig o amser yn gwneud i'r ymgeisydd deimlo'n anghysurus iawn.

Mae'r goruchwyliwr yn mynd â'r papur cwestiynau mewn amlen nad yw'n dryloyw wedi'i selio i gartref yr ymgeisydd ac yn cynnal yr arholiad yn ôl dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*. Fodd bynnag, yn ystod yr arholiad, mae'r ymgeisydd mewn llawer o boen ac mae'r goruchwyliwr yn nodi hyn. Ar ôl derbyn cofnod digwyddiadau'r goruchwyliwr, mae'r swyddog arholiadau wedyn yn cyflwyno cais ar-lein am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol.

**Enghraifft 3**

Mae ymgeisydd TGAU Blwyddyn 11 yn cyrraedd yr ysgol ar ei fore cyntaf ar ôl gwyliau hanner tymor y Sulgwyn.
Mae brech yr ieir wedi bod arni. Mae'n amlwg nad yw'r ymgeisydd yn teimlo'n dda a'i bod o bosibl yn heintus, felly mae'n cael ei hanfon gartref. Mae'r ganolfan yn penderfynu y bydd yn trefnu i'r ymgeisydd sefyll ei harholiadau yn ei chartref.

Yn ogystal, mae'r CAAA yn prosesu cais am egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth, gan na fydd eistedd am gyfnod estynedig o amser, tra'n teimlo'n sâl, yn ffafriol i'r ymgeisydd gyrraedd ei llawn botensial.

Gan fod yr ymgeisydd wedi cael clefyd heintus, mae'r swyddog arholiadau'n gofyn am gyngor meddygol gan feddygfa leol, yn bennaf o ran y risg i bobl eraill – y goruchwyliwr yn yr achos hwn. Mae'r swyddog arholiadau hefyd yn darllen y cyngor yn adran 11 dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.

Penderfynir mai bychan iawn yw'r risgiau. Mae'r goruchwyliwr yn mynd â'r papur cwestiynau mewn amlen nad yw'n dryloyw wedi'i selio i gartref yr ymgeisydd ac yn cynnal yr arholiad yn ôl dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.

Fodd bynnag, yn ystod yr arholiad, mae'r ymgeisydd yn dechrau teimlo'n sâl ac ni all fynd ymlaen â'r arholiad am y 45 munud sy'n weddill.

Mae'r goruchwyliwr yn nodi'r ffaith mai ond awr gyntaf yr arholiad yr oedd yr ymgeisydd wedi gallu ei gwblhau.

Mae'r swyddog arholiadau, gan ddefnyddio cofnod digwyddiadau'r goruchwyliwr, yn cyflwyno cais ar-lein am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu. Hysbysir y corff dyfarnu na wnaeth yr ymgeisydd gwblhau'r arholiad.

Ni all yr ymgeisydd sefyll unrhyw arholiadau eraill yr wythnos honno. Mae'r swyddog arholiadau yn

Er y bydd y cyrff dyfarnu yn ceisio darparu ar gyfer unrhyw drefniadau ar gyfer diagnosis hwyr neu amlygiad hwyr, efallai y bydd achlysuron lle na ellir gwneud addasiadau a fyddai'n rhesymol fel arall, oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael.

## 8.4 Achosion na chânt eu cymeradwyo

Mae *Trefniadau mynediad ar-lein* yn cymeradwyo tua 90% o'r holl geisiadau a wneir gan ganolfannau yn y Deyrnas Unedig, gan roi un ymateb awtomatig.

Mae'n anochel na chaiff rhai anghenion unigol eu derbyn gan y system gyfrifiadur, na all ddelio â phob addasiad rhesymol y gall fod eu hangen mewn achosion penodol. Er enghraifft:

- ymgeisydd sydd ag anaf i'r ymennydd y gall fod angen technoleg sylliad llygaid arno; neu
- ymgeisydd sydd ddim yn gallu defnyddio beiro sy'n gorfod defnyddio pensil oherwydd anawsterau prosesu synhwyraidd.

Os oes gan ymgeisydd anghenion sylweddol iawn nas darperir ar eu cyfer gan y system ar-lein, efallai fod hyn oherwydd eu bod yn ymwneud ag addasiadau rhesymol nad ydynt wedi'u rhestru. Fel arall, efallai y bydd angen ymchwilio ymhellach i'r trefniant/trefniadau mewn perthynas â'r cymhwysedd sy'n cael ei brofi yn y fanyleb/manylebau. Dylid trafod yr achosion hyn gyda'r corff dyfarnu perthnasol. Dylai Cydlynwyr AAA gadw cofnod ysgrifenedig o drafodaethau o'r fath. Gall fod angen gwaith papur ychwanegol er mwyn cyfiawnhau'r cais a wneir.

Os na chaiff cais ei gymeradwyo, rhaid i'r CAAA neu'r aseswr sy'n gweithio yn y ganolfan ystyried a yw hyn am nad yw'r ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf a gyhoeddwyd am un o'r trefniadau y gofynnwyd amdanynt ac nad oes ganddo amhariad sylweddol a thymor hir ar gyfer y trefniant angenrheidiol.

**Enghraifft 1**

Mae ymgeisydd ag anawsterau dysgu wedi defnyddio darllenydd a phrosesydd geiriau gyda'r cyfleuster gwirio sillafu a gramadeg wedi'i droi ymlaen drwy gydol ei gwrs ac wedi gofyn am ddarllenydd ac ysgrifennydd yn ei arholiadau. Mewn prawf sillafu, mae'n cyflawni sgôr wedi'i safoni is na'r cyfartaledd o 77. Gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*, mae'r CAAA yn nodi'r sgôr o 77 ar gyfer sillafu. Fodd bynnag, mae ymgeisiau sillafu'r ymgeisydd yn gredadwy'n ffonig ac yn ddarllenadwy. Nid ydyn nhw'n ddealladwy. Ni chaiff y cais ei gymeradwyo. Mae'r CAAA yn gwneud cais ar-lein newydd ar gyfer yr ymgeisydd, y tro hwn am ddarllenydd yn unig. Caiff y cais ei gymeradwyo.

**Enghraifft 2**

Mae ymgeisydd sydd â dyslecsia yn cael anawsterau parhaus gydag ysgrifennu. Dywed ei athrawon pwnc fod ei gyfraniadau llafar yn y dosbarth yn dangos dealltwriaeth dda o'r pwnc dan sylw. Fodd bynnag, mae ei ymatebion ysgrifenedig yn y dosbarth ac mewn profion mewnol yn yr ysgol ar lefel a ddisgwylir gan fyfyriwr llawer iau ac yn gyffredinol ramadegol annealladwy. Pan fydd yn arddweud i ysgrifennydd mae ansawdd ei waith yn gwella'n sylweddol ac mae'n briodol i oedran.

Mae'r ymgeisydd yn cael ei asesu ac yn cyflawni sgorau wedi'u safoni cyfartalog isel (85-89) ar asesiadau sillafu a chyflymder ysgrifennu. Mae'r CAAA yn gwneud cais am ysgrifennydd ond ni chymeradwyir y cais gan nad yw'r un o'r sgorau yn is na'r cyfartaledd. Mae'r CAAA yn penderfynu gwneud atgyfeiriad ar-lein i'r cyrff dyfarnu gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*. Gan ei bod yn gallu dangos bod ysgrifennu annealladwy'r ymgeisydd yn gwella'n sylweddol pan fydd yn arddweud wrth ysgrifennydd, mae'r cyrff dyfarnu yn cymeradwyo'r defnydd o ysgrifennydd.

**8.5 Cymwysterau a threfniadau y mae *Trefniadau mynediad ar-lein* yn berthnasol iddynt**

**Rhaid** defnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein* ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
- AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- BTEC Lefel 2 Technegol
- Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Cymwysterau Cenedlaethol Uwch Caergrawnt
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt
- Sgiliau Hanfodol
- FSMQ
- Sgiliau Gweithredol (manylebau Pearson)
- TAG (UG a Safon Uwch)
- TGAU
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Lefelau T (Manylebau Pearson a CBAC)
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC - cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 Galwedigaethol
- CBAC Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
- CBAC Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu, Tystysgrifau Estynedig Cymhwysol (yn cynnwys Cymwysterau Academaidd Amgen).

Gellir dewis mathau o gymwysterau heblaw TAG neu TGAU drwy glicio ar Math o Gymhwyster 'Arall' wrth brosesu cais ar-lein.

**Dim ond** lle mae'r ganolfan yn cefnogi hynny y dylid gwneud ceisiadau ar-lein a dylai'r ymgeisydd hefyd fodloni'r meini prawf cyhoeddedig i dderbyn y trefniant (trefniadau) mynediad a chael y dystiolaeth ategol lawn yn ei lle.

**Rhaid** gwneud cais ar-lein ar gyfer y trefniadau canlynol:

- Mynediad at ffôn symudol at ddibenion meddygol
- Geiriadur dwyieithog gyda 25% o amser ychwanegol (ar gyfer y cymwysterau hynny sydd wedi'u rhestru ym Mhennod 5, paragraff 5.18.2 yn unig)
- Darllenydd cyfrifiadur/darllenydd
- 25% o amser ychwanegol
- Mwy na 25% o amser ychwanegol†
- Eithriad†
- Gwrando ar gerddoriaeth/sŵn gwyn oherwydd amhariad sylweddol
- Cynorthwyydd Ymarferol†
- Goruchwylio o bell†
- Ysgrifennydd/technoleg adnabod llais
- Amrywiad ar yr amserlen ar ddiwrnod yr arholiad i ymgeisydd ag anabledd
- Amrywiad ar yr amserlen i ymgeisydd ag anabledd sy'n gofyn am oruchwyliaeth dros nos

†Bydd y trefniant yn cael ei wrthod yn awtomatig. Dylid cyfeirio ceisiadau ar-lein i'r corff dyfarnu perthnasol.

**Nid** oes angen prosesu'r trefniadau canlynol ar-lein:

(**Peidiwch** â dewis 'Arall' wrth ddefnyddio *Trefniadau Mynediad ar-lein*.)

- Trefniadau ystafell arall – sefyll yr arholiad y tu allan i'r brif neuadd/ystafell arholiadau, e.e. ystafell ar gyfer grwp llai o ymgeiswyr
- Offer mwyhau
- Geiriadur dwyieithog
- Taflen wag o bapur ar gyfer dwdlan, lle mae gan ymgeisydd anawsterau canolbwyntio parhaus a sylweddol (rhaid cynnwys hwn gyda llyfryn ateb yr ymgeisydd wedi'i gwblhau.)
- Trawsgrifiad Braille
- Peiriannau Braille
- Enwi lliwiau gan y goruchwyliwr ar gyfer ymgeiswyr sy'n lliwddall
- Troshaenau lliw
- Papur cwestiynau arholiad ar bapur lliw a/neu wedi'i fwyhau o A4 i A3 ar ymgeisydd
- Teganau ffidlan a pheli straen
- Siaradwr byw ar gyfer cydrannau arholiadau wedi'u recordio ymlaen llaw
- Cymorth golwg isel / chwyddhadur
- Amddiffynwyr clustiau/plygiau clustiau nad ydynt yn electronig
- Clustffonau nad ydynt yn electronig
- Sganwyr Darllen Nodau Optegol (OCR)
- Anogwr
- Darllen yn uchel (sy'n gallu cynnwys ysgrifbin darllen mewn arholiad)
- Iaith Arwyddion Proffesiynol
- Papur sgwariau ar gyfer ymgeisydd ag anawsterau gweledol gofodol
- Egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth
- amserydd ar ddesg ymgeisydd – cloc bach sy'n cyfrif i lawr, cloc analog neu ddigidol bach, amserydd digidol, amserydd tywod, stopwatsh (rhaid sefydlu bod gan ymgeisydd anhawster a rhaid iddo reoli'r ddyfais ei hun.)
- Prosesydd geiriau.

Sut i gyrchu'r system *Trefniadau mynediad ar-lein*:

www.aqa.org.uk
www.ccea.org.uk
http://qualifications.pearson.com
www.ocr.org.uk
www.cbac.co.uk

Mae *Trefniadau mynediad ar-lein* wedi cael ei gynllunio'n benodol i fod yn hawdd i ganolfannau ei ddefnyddio, ar draws ystod eang o'r **fersiynau diweddaraf** o borwyr y rhyngrwyd drwy gyfrifiaduron personol a llechi. **Rhaid** i ganolfannau bob amser ddefnyddio'r fersiwn mwyaf diweddar/modern o'u porwr o ddewis, a sicrhau nad yw eu porwr rhyngrwyd wedi'i osod yn y modd gwedd gydnaws. **Rhaid** i ganolfannau ddefnyddio Microsoft Edge neu fersiwn cyfredol o Chrome, Safari neu Firefox.
Sylwer bod yn **rhaid** i'r fersiwn diweddaraf o TLS fod wedi'i galluogi.

## 8.6 Sut i ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*

**Dechrau arni**

Cyn mewngofnodi i *Trefniadau mynediad ar-lein* gan ddefnyddio un safle allrwyd diogel un o'r cyrff dyfarnu, bydd angen y canlynol ar ganolfannau:

- gwaith papur yn pennu anghenion yr ymgeisydd;
- manylion mewngofnodi ar gyfer safle allrwyd diogel corff dyfarnu, e.e. AQA Centre Services.

**Rhaid** hysbysu ymgeiswyr y defnyddir *Trefniadau mynediad ar-lein* i brosesu cais am drefniadau mynediad, gan gydymffurfio â Deddf GDPR/Diogelu Data y DU 2018.

**Nid yw ffurflen caniatâd data personol ymgeisydd a chadarnhad diogelu data gan y swyddog arholiadau neu ffurflen CAAA wedi'u llofnodi yn ofynnol mwyach.**

**Rhaid** i'r CAAA gadw cofnodion manwl at ddibenion arolygu, p'un a yw'n electronig neu ar fformat copi caled ar bapur, o'r holl wybodaeth hanfodol ar ffeil. Mae hyn yn cynnwys:

- copi o gais wedi'i gymeradwyo'r ymgeisydd;
- tystiolaeth briodol o angen (lle bo angen);
- tystiolaeth o gymhwyster yr aseswr (lle bo angen).

**Canllaw cyflym i wneud cais am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol gan ddefnyddio *Trefniadau mynediad ar-lein*:**

**Cam 1 Mewngofnodi**

manylion mewngofnodi ar gyfer safle allrwyd diogel corff dyfarnu, e.e. AQA Centre Services a llywio at *Trefniadau mynediad ar-lein*. Dewiswch yr opsiwn *Creu cais* o'r hafan.

**Cam 2 Manylion yr ymgeisydd**

Nodwch fanylion yr ymgeisydd (* yn dynodi bod mewnbwn yn orfodol).

**Cam 3 Y math o gymhwyster a hyd y cais**

Dewiswch y math o gymhwyster sy'n berthnasol i gais yr ymgeisydd a dewiswch naill ai:

- *Cyflwr tymor hir* = yn para am gyfnod cyfan cwrs dwy flynedd; **neu**
- *Cyflwr dros dro* = yn para am gyfnod un gyfres arholiadau.

**Cam 4 Y flwyddyn academaidd**

Dewiswch y flwyddyn/blynyddoedd academaidd pan gaiff y trefniant (trefniadau) mynediad/addasiad (addasiadau) rhesymol ei ddefnyddio/eu defnyddio.

**Cam 5 Trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol**

Dewiswch y trefniant (trefniadau) mynediad/addasiad (addasiadau) rhesymol sydd ei angen/eu hangen ar gyfer yr ymgeisydd o'r rhestr a ddangosir. Gellir dewis mwy nag un trefniant, ond **rhaid** darparu tystiolaeth ategol, lle bo angen, ar gyfer pob un a ddewisir er mwyn cael cymeradwyaeth.

**Cam 6 Tystiolaeth o angen**

Atebwch bob cwestiwn am y dystiolaeth sydd ar gael ar ffeil i gefnogi'r cais.

**Cam 7 Rhan 2 Ffurflen 8**

Bydd angen nodi manylion o Ran 2 Ffurflen 8 ar rai ceisiadau am ysgrifennydd er mwyn cadarnhau'r dystiolaeth o angen. **Rhaid** i ganolfannau nodi pwy wnaeth gyflawni'r asesiad a phryd.

**Cam 8 Cadarnhad**

Mae'r broses gyflwyno bellach wedi'i chwblhau. Ticiwch y blwch *Cadarnhau* i nodi eich bod wedi darllen a'ch bod yn derbyn y datganiadau cyfreithiol a chliciwch *CYFLWYNO*.

**Cam 9 Canlyniad**

Bydd canlyniad y cais yn cael ei arddangos yn awr, ynghyd â manylion y cais.

Os na chafodd eich cais ei gymeradwyo, gellir ei atgyfeirio ar-lein at y corff dyfarnu perthnasol i'w ystyried gan ddefnyddio adran atgyfeirio'r corff dyfarnu. Fodd bynnag, **rhaid i** ganolfannau bob amser ailwirio rheoliadau'r CGC i weld a yw'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf a gyhoeddwyd ar gyfer y trefniant/trefniadau.

**Cam 10 Cadw a Chau**

Cadwyd eich cais a gallwch edrych arno ar unrhyw adeg gan ddefnyddio'r cyfleuster chwilio. Cliciwch ar *CADW a CHAU* i ddychwelyd i'r hafan.

Mae diagram llif o'r broses i'w weld ym Mhennod 6.

## 8.7 Blaengynllunio cyn y gyfres arholiadau

Gellir cofnodi ceisiadau a gaiff eu prosesu a'u cymeradwyo ar-lein fel ffeil CSV. Drwy ddefnyddio Excel, gellir creu rhestr gyflym o ymgeiswyr sydd â threfniadau mynediad/addasiadau rhesymol. Bydd y wybodaeth hon yn amhrisiadwy i ganolfannau. Bydd yn galluogi swyddogion arholiadau, cyn cychwyn pob cyfres arholiadau, i gynllunio a nodi'r canlynol:

- nifer yr ystafelloedd ychwanegol mae'n angenrheidiol i'r ganolfan eu cael er mwyn darparu ar gyfer ymgeiswyr â threfniadau mynediad;
- adnoddau goruchwylio; **a**
- nifer y darllenwyr cyfrifiadur, darllenwyr ac ysgrifenyddion y bydd eu hangen.

Bydd *Trefniadau mynediad ar-lein* hefyd yn galluogi canolfannau i gynhyrchu taflenni clawr wedi'u llenwi ymlaen llaw ar gyfer cynorthwyydd ymarferol neu ysgrifennydd.

## 8.8 Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad (TLM)

Lle y caniateir gan y fanyleb, gall y ganolfan ganiatáu'r trefniadau canlynol ac **nid** oes angen eu cofnodi. **Nid** oes angen cadw tystiolaeth o angen ar ffeil:

- Trefniadau ystafell arall – sefyll yr arholiad y tu allan i'r brif neuadd/ystafell arholiadau, e.e. ystafell ar gyfer grwp llai o ymgeiswyr
- Offer mwyhau sain, cwestiynau ac ymatebion wedi'u tapio
- Geiriadur dwyieithog
- Taflen wag o bapur ar gyfer dwdlan, lle mae gan ymgeisydd anawsterau canolbwyntio parhaus a sylweddol (rhaid cynnwys hwn gyda llyfryn ateb yr ymgeisydd wedi'i gwblhau.)
- Trawsgrifiad Braille
- Peiriannau Braille
- Llunio fersiwn Braille o ddeunydd asesu nad yw'n ddiogel
- Enwi lliwiau gan y goruchwyliwr ar gyfer ymgeiswyr sy'n lliwddall
- Troshaenau lliw
- Mwyhau neu lungopïo'r papur cwestiynau ar bapur lliw
- Teganau ffidlan a pheli straen
- Siaradwr byw ar gyfer cydrannau arholiadau wedi'u recordio ymlaen llaw
- Cymorth golwg isel / chwyddhadur
- Amddiffynwyr clustiau/plygiau clustiau nad ydynt yn electronig
- Clustffonau nad ydynt yn electronig
- Sganwyr Darllen Nodau Optegol (OCR)
- Anogwr
- Darllen yn uchel (sy'n gallu cynnwys ysgrifbin darllen mewn arholiad)
- Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion ar gyfer cwestiynau ysgrifenedig ac ymatebion (heblaw am Asesiadau siarad ITM)
- Papur sgwariau ar gyfer ymgeisydd ag anawsterau gweledol gofodol
- Egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth

- amserydd ar ddesg ymgeisydd – cloc bach sy'n cyfrif i lawr, cloc analog neu ddigidol bach, amserydd digidol, amserydd tywod, stopwatsh (rhaid sefydlu bod gan ymgeisydd anhawster a rhaid iddo reoli'r ddyfais ei hun.)
- Prosesydd geiriau.

Lle y caniateir hyn gan y fanyleb, gall y ganolfan ganiatáu'r trefniadau canlynol **heb gymeradwyaeth ymlaen llaw** gan gorff dyfarnu:

- Geiriadur dwyieithog gyda 25% o amser ychwanegol (i ddefnyddio'r geiriadur)
- Darllenydd cyfrifiadur/darllenydd
- Amser ychwanegol mewn cydrannau wedi'u hamseru
- Cynorthwyydd ymarferol
- Ysgrifennydd.

Fodd bynnag, **rhaid** cwblhau Ffurflen 11 – CGC/EL/NF ar-lein.

Gellir cael gafael ar Ffurflen 11 ar-lein drwy'r Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

**Rhaid** i Gydlynwyr AAA gysylltu â staff addysgu i bennu a oes unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio trefniadau mynediad penodol yn bodoli.

Ni chaniateir darllenydd yng nghydran Darllen Tystysgrif Lefel Mynediad Saesneg. Gellir defnyddio darllenydd cyfrifiadur yng nghydran Darllen Tystysgrif Lefel Mynediad Saesneg lle mai hynny yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan.

Ni chaniateir ysgrifennydd ar gyfer cymhwyster Tystysgrif Lefel Mynediad Saesneg AQA.

## 8.9 Addasiadau eraill

Gall fod angen addasiadau eraill nad ydynt wedi'u rhestru ar ymgeisydd y mae ei anabledd yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir arno. Dylai'r ganolfan yn y lle cyntaf gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol cyn gynted ag y gall er mwyn trafod anghenion yr ymgeisydd.

## 8.10 Cymwysterau Technegol a Chymwysterau Project Caergrawnt a gaiff eu hasesu'n fewnol

Ar gyfer cymwysterau Technegol a chymwysterau Project Caergrawnt a gaiff eu hasesu'n fewnol (gan gynnwys y Project Estynedig), **nid** oes angen i ganolfannau wneud cais i'r corff dyfarnu unigol.

Fodd bynnag, **ni** ddylai trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol effeithio ar ddibynadwyedd na dilysrwydd canlyniadau asesu. **Ni** ddylent roi mantais i'r dysgwr dros ddysgwyr eraill sy'n gwneud yr un asesiadau neu rai tebyg.

Dylai canolfannau drafod defnyddio trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol ar gyfer unedau a gaiff eu hasesu'n fewnol gyda'r corff dyfarnu.

## Atodiad 1

# Cymorth cof i ddarllenydd

Rydw i yma i ddarllen i ti yn dy arholiad.
**Rhaid** i ti ddweud yn glir beth rwyt ti am i mi ei ddarllen.

**Dim ond** darllen y cyfarwyddiadau a'r cwestiynau rwy'n gallu ei wneud.

Rydw i'n gallu ailadrodd cyfarwyddiadau, ond **dim ond** os byddi di wedi dweud yn glir pa gyfarwyddiadau rwyt ti am i mi eu darllen.

Dydw i **ddim** yn gallu dweud wrthot ti pa gwestiynau i'w dewis.
Dydw i **ddim** yn gallu dweud wrthot ti pryd i symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf.
Dydw i **ddim** yn gallu dweud wrthot ti pa gwestiynau i'w gwneud gyntaf.

Rydw i'n gallu sillafu geiriau os byddi di'n gofyn i mi, ond **dim ond** geiriau ar y papur cwestiynau.

Rydw i'n gallu darllen dy ateb yn ôl i ti, ond **dim ond** os byddi di'n gofyn i mi wneud hynny.

**Arholiadau TGAU Saesneg Iaith**:

Rydw i'n gallu darllen y cwestiynau yn adrannau ysgrifennu'r papur, ond **ni** allaf ddarllen unrhyw gwestiwn na'r darn ychwanegol yn yr adran darllen.

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod goruchwylwyr a'r rhai sy'n gweithredu fel darllenwyr wedi derbyn hyfforddiant trylwyr a'u bod yn gyfarwydd â'r rheolau yn adran 5.5.

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r hyn y gall neu na all darllenydd ei wneud cyn ei arholiad cyntaf, e.e. profion ysgol/coleg neu ffug-arholiadau mewnol.

# Cymorth cof i ysgrifennydd

Rydw i yma i deipio/ysgrifennu i ti yn dy arholiad.

Rhaid i fi deipio/ysgrifennu yn union beth y byddi di'n ei ddweud.

Rydw i'n gallu llunio mapiau, graffiau a diagramau, ond dim ond lluniadu'n **union** beth y byddi di'n ei ddweud wrtha i.
Dydw i **ddim** yn gallu lluniadu i ti mewn arholiad Dylunio.

Rydw i'n gallu newid beth rydw i wedi'i deipio/ysgrifennu, ond **dim ond** os byddi di'n gofyn i mi wneud hynny.

Os cawn ni broblemau wrth gyfathrebu, mae'n **rhaid** i mi ddweud wrth y goruchwyliwr.

Dydw i **ddim** yn gallu rhoi unrhyw help gydag atebion.
Dydw i **ddim** yn gallu awgrymu pryd mae ateb wedi'i orffen.

Dydw i **ddim** yn gallu dweud wrthot ti pa gwestiynau i'w dewis.
Dydw i **ddim** yn gallu dweud wrthot ti pryd i symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf.
Dydw i **ddim** yn gallu dweud wrthot ti pa gwestiynau i'w gwneud gyntaf.

Os oes hawl gennyt i gael egwyliau gorffwys, dydw i ddim yn gallu teipio/ysgrifennu yn ystod yr egwyliau hynny.

Rydw i'n gallu darllen yn ôl beth rydw i wedi'i deipio/ysgrifennu, ond **dim ond** os byddi di'n gofyn i mi wneud hynny.

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod goruchwylwyr a'r rhai sy'n gweithredu fel ysgrifenwyr wedi derbyn hyfforddiant trylwyr a'u bod yn gyfarwydd â'r rheolau yn adran 5.7.

**Rhaid** i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r hyn y gall neu na all ysgrifenydd ei wneud cyn ei arholiad cyntaf, e.e. profion ysgol/coleg neu ffug-arholiadau mewnol.

# Atodiad 3

## Cymorth cof i Addasydd Iaith

Gallaf **ond** newid geiriau neu ymadroddion os byddi di'n dweud yn glir dy fod angen cymorth â'r rhain.

Dydw i **ddim** yn gallu newid geiriau neu ymadroddion y mae'r arholwr yn credu y dylet ti fod wedi'u dysgu.

**Dim ond** pethau y mae'r arholwr wedi eu hysgrifennu y gallaf eu newid, e.e. Dydw i ddim yn gallu newid testun o lyfr, mapiau, tablau, ac ati.

**Dim ond** os byddi di'n nodi'n glir yr hyn sy'n achosi problem y galla i wneud newidiadau.

Rydw i'n gallu siarad, ysgrifennu neu arwyddo unrhyw newidiadau.

Rydw i'n gallu darllen i ti os byddi di'n dweud yn glir yr hyn rwyt ti am i mi ei ddarllen.

**Arholiadau TGAU Saesneg Iaith**:
Rydw i'n gallu darllen geiriau, ymadroddion a brawddegau yn adran ysgrifennu'r papur ond **dydw i ddim** yn gallu darllen na newid dim yn yr adran darllen, heblaw'r cyfarwyddiadau.

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod goruchwylwyr a'r rhai sy'n gweithredu fel Addaswyr Iaith wedi derbyn hyfforddiant trylwyr a'u bod yn gyfarwydd â'r rheolau yn adran 5.11.

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r hyn y gall neu na all Addasydd Iaith ei wneud cyn ei arholiad cyntaf, e.e. profion ysgol/coleg neu ffug-arholiadau mewnol.

## Atodiad 4

# Cymorth cof i Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion

Rydw i yma i arwyddo cwestiynau yn Iaith Arwyddion Prydain.

Dydw i **ddim** yn gallu arwyddo geiriau neu ymadroddion y mae'r arholwr yn credu y dylet ti fod wedi'u dysgu, ond rydw i'n gallu eu sillafu â bysedd.

Dydw i **ddim** yn gallu arwyddo unrhyw beth nad yw'r arholwr wedi'i ysgrifennu (e.e. testun o lyfr, mapiau, tablau, ac ati).

Rydw i'n gallu arwyddo'r cwestiynau fwy nag unwaith ond dydw i **ddim** yn gallu egluro'r cwestiynau.

Dydw i **ddim** yn gallu egluro beth mae'r arholwr am i ti ei ysgrifennu.

Rwyt ti'n gallu ateb trwy sillafu â bysedd, neu arwyddo ateb os un gair yn unig ydyw a bydda i'n ei ysgrifennu i ti.

**Arholiadau TGAU Saesneg Iaith**:
Rydw i'n gallu arwyddo'r cyfarwyddiadau, ond **nid** y cwestiynau.

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod goruchwylwyr a'r rhai sy'n gweithredu fel Gweithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion wedi derbyn hyfforddiant priodol a'u bod yn gyfarwydd â'r rheolau yn adran 5.13.

**Rhaid** i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r hyn y gall neu na all Weithiwr Proffesiynol Iaith Arwyddion ei wneud cyn ei arholiad cyntaf, e.e. profion ysgol neu ffug-arholiadau mewnol.